Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

# DATGANIAD O GYFRIFON GRWP




AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU
31 MAWRTH 2024

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

## Cynnwys

**Adroddiad naratif** .... 4

**Datganiad o Gyfrifoldebau** .... 26

**Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys** .... 27

**Dadansoddiad o Wariant a Chyllid** .... 32

**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** .... 34

**Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** .... 36

**Mantolen** .... 38

**Datganiad Llif Arian** .... 39

**Cronfa Bensiwn yr Heddlu** .... 40

**Nodiadau i'r cyfrifon** .... 41

1. **Polisïau cyfrifyddu** .... 41
2. **Addasiadau cyfnod blaenorol** .... 50
3. **Safonau cyfrifyddu wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto** .... 51
4. **Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu** .... 52
5. **Tybiaethau a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif** .... 52
6. **Eitemau sylweddol o incwm a gwariant** .... 53
7. **Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd** .... 54
8. **Nodyn i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid** .... 54
9. **Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail ariannu o dan rheoliadau** .... 57
10. **Trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd** .... 60
11. **Incwm a gwariant gweithredu arall** .... 66
12. **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi** .... 66
13. **Trethiant ac incwm grant amhenodol** .... 67
14. **Eiddo, peiriannau ac offer** .... 68
15. **Eiddo buddsoddi** .... 70
16. **Ymrwymiadau cyfalaf** .... 71
17. **Offerynnau ariannol** .... 71
18. **Dyledwyr tymor byr** .... 75
19. **Arian parod a chyfwerth ag arian parod** .... 75
20. **Asedau a ddelir ar werth** .... 75
21. **Credydwyr tymor byr** .... 75

**22. Darpariaethau ... 76**
**23. Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio ... 77**
**24. Datganiad llif arian – gweithgareddau gweithredu ... 80**
**25. Datganiad llif arian – gweithgareddau buddsoddi ... 80**
**26. Datganiad llif arian – gweithgareddau ariannu ... 81**
**27. Gwasanaethau asiantaeth ... 81**
**28. Trefniadau Cydweithredol ... 82**
**29. Cydnabyddiaeth ariannol swyddogion ... 88**
**30. Costau archwilio allanol ... 92**
**31. Grantiau ac incwm arall ... 94**
**32. Partïon cysylltiedig ... 95**
**33. Gwariant cyfalaf ac ariannu cyfalaf ... 97**
**34. Prydlesau ... 97**
**35. Colledion amhariad ... 98**
**36. Buddion terfynu ... 99**
**37. Cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio ... 99**
**38. Rhwymedigaethau digwyddiadol ... 107**
**39. Natur a maint y risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol ... 107**
**40. Cronfeydd ymddiriedolaeth ... 110**
**Geirfa Termau ... 111**

# Adroddiad naratif

## 1. Cyflwyniad

Creodd Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ddwy gorfforaeth undyn o fewn pob ardal heddlu, sef y comisiynydd a’r prif gwnstabl. Mae gan bob un gylch gorchwyl statudol clir ac ar wahân. Mae'r comisiynydd yn cael ei ethol yn gyhoeddus ac felly'n cynrychioli llais y cyhoedd ar faterion plismona.

Mae sefydlu'r ddwy gorfforaeth undyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff gynhyrchu ei ddatganiad cyfrifon ei hun ac i'r comisiynydd gynhyrchu datganiad o gyfrifon ar gyfer grŵp a chronfa bensiwn yr heddlu. Mae'r prif gwnstabl yn cynhyrchu cyfrifon ar wahân ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

Etholwyd Mr Dafydd Llywelyn yn gomisiynydd ym mis Mai 2016 ac yna ei ailethol ym mis Mai 2021. Cynhaliwyd etholiad pedwerydd tymor y comisiynydd ar 2 Mai 2024 gyda Mr Llywelyn yn cael ei ailethol am drydydd tymor.

Dechreuodd Dr Richard Lewis yn ei swydd fel prif gwnstabl ym mis Rhagfyr 2021, gan ddychwelyd i’r heddlu ar ôl dwy flynedd fel prif gwnstabl heddlu Cleveland. Mae’r comisiynydd a’r prif gwnstabl yn parhau i gydweithio’n adeiladol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gymunedau ardal Dyfed-Powys.

Nod yr adroddiad naratif hwn yw amlinellu’r prif amcanion, strategaethau, a’r prif risgiau y mae Comisiynydd a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys yn eu hwynebu. Mae'n rhoi sylwebaeth ar sut y defnyddiwyd adnoddau i gyflawni canlyniadau dymunol yn unol â'r amcanion a'r strategaethau hyn.

Ei nod yw rhoi dadansoddiad teg, cytbwys a dealladwy o berfformiad ariannol a gweithredol. Gellir defnyddio hwn i roi cyd-destun i'r wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys yn y datganiadau ariannol er mwyn helpu'r darllenydd i ddeall. Bydd yr adroddiad naratif yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Trosolwg sefydliadol a'r amgylchedd allanol
- Llywodraethu a pherfformiad
- Model sefydliadol
- Perfformiad ariannol
- Risgiau, cyfleoedd a'r rhagolygon ariannol tymor canolig
- Sail paratoi a chyflwyno

## 2 Trosolwg sefydliadol a'r amgylchedd allanol

Yn ymestyn dros 4,188 milltir sgwâr, Dyfed-Powys yw'r gwasanaeth heddlu mwyaf yng Nghymru a Lloegr yn ddaearyddol. Gyda 13,842 o filltiroedd o ffyrdd, dau borthladd mawr, 350 milltir o arfordir ac ardaloedd helaeth o gefn gwlad, mae’r ddaearyddiaeth yn cyflwyno heriau sylweddol o ran galw ac adnoddau.




Mae'r boblogaeth breswyl o tua 519,000 wedi'i gwasgaru ar draws ardaloedd gwledig helaeth, trefi gwyliau a threfi marchnad yn ogystal ag ardaloedd mwy poblog. Mae atyniad twristiaeth yn cyflwyno gofynion unigryw gyda nifer fawr o dwristiaid yn ymweld â threfi allweddol. Mae hyn yn cyflwyno ei oblygiadau ei hun ar gyfer troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phlismona ffyrdd.

Mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan 28% o drigolion ardal Dyfed-Powys o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 17%. Mae’r comisiynydd a’r prif gwnstabl ill dau wedi ymrwymo i sicrhau bod y gweithlu’n gynrychioliadol o’r cymunedau y mae’n eu gwasanaethu fel bod aelodau’r cyhoedd, pryd bynnag y bo modd, yn cael y cyfle i gyfathrebu yn y Gymraeg.

Mae plismona yn faes polisi nad yw wedi’i ddatganoli yng Nghymru, gyda phwerau wedi’u cadw i Lywodraeth y DU yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae llawer o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y pedair ardal sirol yn cael ei wneud mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, awdurdodau tân, byrddau iechyd lleol, a llawer o bartneriaid eraill gan gynnwys y trydydd sector. Yn ogystal, mae Heddlu Dyfed-Powys, ynghyd â'r comisiynydd a’i swyddfa, hefyd yn cydweithio ar sail Cymru gyfan ynghylch cyfrifoldebau plismona gan gynnwys nifer o wasanaethau pwysig megis ymateb arfog ac ymateb i fygythiad troseddau cyfundrefnol a therfysgaeth.

Mae pwysau yn parhau i godi o natur newidiol troseddau a digwyddiadau ac yn fwy diweddar o amrywiaeth gymhleth o ganlyniadau ariannol ac economaidd yn deillio o bandemig Covid-19, a waethygwyd gan yr argyfwng costau byw. Arweiniodd hyn at bwysau costau chwyddiant sylweddol a oedd yn golygu bod angen cynllun lleihau £6.4 miliwn o gostau yr oedd angen ei ymgorffori er mwyn mantoli cyllidebau 2023/24.

Yn erbyn cefndir ariannol heriol, mae gofynion gweithredol yn parhau i dyfu a dod yn fwyfwy cymhleth. Mae'r gwasanaeth yn parhau i esblygu'n gyflym i alluogi ei ymateb i risgiau newydd, bygythiadau newydd, a newidiadau mewn technoleg, y mae llawer ohonynt wedi gofyn am ffyrdd newydd o weithio. Cafodd cyflwyno system rheoli cofnodion newydd ym mis Mai 2023 effaith sylweddol ar amseroldeb prosesu cofnodion yn ystod misoedd yr haf. Cymhlethwyd gofynion yr haf ymhellach gan ofyniad adnoddau heddlu sylweddol yn gysylltiedig â phrotestiadau yng nghyffiniau'r

ganolfan brosesu lloches yn Llanelli. Ym mis Mai 2023 hefyd agorwyd gorsaf heddlu a dalfa newydd yn Nafen, Llanelli.

Mae'r comisiynydd yn gyfrifol am osod y blaenoriaethau strategol ar gyfer plismona yn yr ardal drwy gynhyrchu cynllun heddlu a throseddu, gan sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a bod safonau priodol yn cael eu cyflawni a'u cynnal.

Ar ôl ymgynghori helaeth, cyhoeddodd y comisiynydd ei gynllun heddlu a throseddu newydd ym mis Mawrth 2022. Mae'r cynllun yn nodi tair blaenoriaeth a phedwar gwerth a fydd yn sail i gyflawni:

| Blaenoriaethau | Gwerthoedd |
|---|---|
| Dioddefwyr yn cael eu cefnogi | Cydweithio |
| Atal niwed | Bod yn atebol |
| Mae ein system gyfiawnder yn fwy effeithiol | Bod yn gynaliadwy |
| | Ymgysylltu'n eang |

Ar ôl ymgysylltu sylweddol â'r gweithlu, partneriaid a'r cyhoedd, gosododd y prif gwnstabl flaenoriaethau sefydliadol ym mis Ebrill 2022. Mae ymrwymiad i'r rhain aros yn eu lle am o leiaf yr un hyd â'r cynllun heddlu a throseddu sy'n golygu bod cyfle gwirioneddol i weithio'n wahanol i gyflawni rhagor, ac ar yr un pryd sicrhau cysondeb ac eglurder pwrpas.

| Blaenoriaethau |
|---|
| Gwneud ardal Dyfed-Powys yn rhywle gelyniaethus i'r rheini sy'n delio mewn cyffuriau |
| Dileu cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu |
| Ymateb yn dosturiol i ddioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol difrifol, ac erlid troseddwyr yn ddi-baid |

Datblygwyd cynlluniau cyflawni manwl i ategu'r gwaith o gyflawni cynllun heddlu a throseddu a blaenoriaethau'r prif gwnstabl. Mae'r cynlluniau hyn yn ystyried yr amgylchedd gweithredol ac ariannol heriol, yr angen am fuddsoddiad parhaus i gefnogi gwasanaethau cynaliadwy a'r gofyniad i baru adnoddau ac asedau i fodloni gofynion a deddfwriaeth sy'n datblygu sydd wedi'u hymgorffori yn y cynlluniau ariannol tymor canolig.

Roedd 2023/24 yn flwyddyn brysur arall o ran gofynion gweithredol, gyda swyddogion a staff yr heddlu'n delio â nifer o ddigwyddiadau proffil uchel gan gynnwys coroni'r brenin, a llawer o ymgyrchoedd a digwyddiadau arwyddocaol eraill wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio.

## 3 Llywodraethu a pherfformiad

### Llywodraethu

Mae'r trefniadau llywodraethu y mae'r comisiynydd a'r prif gwnstabl yn gweithredu'n unol â nhw yn gymhleth. Mae'r rhain wedi'u hadolygu'n feirniadol dros y blynyddoedd diwethaf ac maent yn parhau i gael eu hatgyfnerthu a'u symleiddio er mwyn sicrhau rheolaeth, goruchwyliaeth a chraffu sefydliadol effeithiol.

Mae'r fframwaith llywodraethu corfforaethol ar y cyd yn nodi'r egwyddorion, y strwythurau a'r prosesau a ddefnyddir i lywodraethu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys, ar y cyd ac ar wahân, a chaiff hwn ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol.

Mae gan y comisiynydd a'r prif gwnstabl gylch gwaith statudol clir ac ar wahân. Mae’r comisiynydd yn statudol gyfrifol am sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol a dwyn y prif gwnstabl i gyfrif am arfer ei swyddogaethau. Mae’r comisiynydd yn gyfrifol am osod cyllideb flynyddol yr heddlu (gan gynnwys lefel y praesept) a sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrifo a’i fod yn cael ei ddefnyddio’n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae annibyniaeth weithredol y prif gwnstabl wedi'i diogelu mewn deddfwriaeth. Mae gan y prif gwnstabl gyfrifoldeb statudol am reoli, cyfeirio a darparu gwasanaethau plismona gweithredol a ddarperir gan yr heddlu. Mae'r prif gwnstabl yn atebol yn ôl y gyfraith am arfer pwerau'r heddlu ac i'r comisiynydd am ddarparu gwaith plismona effeithlon ac effeithiol, rheoli adnoddau a gwariant yr heddlu. Mae'r prif gwnstabl yn dal ei swydd o dan y goron ac yn gyfrifol am gynnal heddwch y brenin.

Cyhoeddir datganiad llywodraethu blynyddol ar wahân, ac mae hwn yn rhoi mwy o fanylion am yr amgylchedd rheolaeth fewnol a gwerthusiad o'r trefniadau llywodraethu yn erbyn y saith egwyddor ar gyfer cyflawni llywodraethu da. Mae pob parti yn cadw at y saith egwyddor a nodir yn y safonau mewn bywyd cyhoeddus, a elwir yn Egwyddorion Nolan.

**Perfformiad**

Ariannodd y Comisiynydd ystod o wasanaethau yn ystod 2023/24 i helpu i gyflawni ei flaenoriaethau:

- Parhaodd i ariannu gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf hanfodol i ddioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r gwasanaeth hwn yn sicrhau bod holl ddioddefwyr troseddau, a dioddefwyr bregus neu risg uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn cael gwasanaeth cefnogi i'w helpu i ymdopi ac adfer o effaith eu profiadau. Mae datblygiadau o fewn Heddlu Dyfed-Powys wedi arwain at swyddogion rheng flaen yn cynnal asesiad o anghenion dioddefwyr i nodi’r rhai sydd ag anghenion uwch yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau. Yna caiff dioddefwyr â hawliau estynedig eu cyfeirio at Goleudy am asesiad a chymorth pellach.Yn ystod 2023/24 mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) wedi cynnal ymarfer ailgomisiynu ochr yn ochr â SCHTh Gogledd Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau i ddioddefwyr gan roi ystyriaeth i ehangu'r cylch gorchwyl i ddarparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc. Rhagwelir y daw’r ymarfer hwn i ben erbyn mis Gorffennaf 2024.
- Aeth gwasanaeth cynghori annibynnol newydd ar drais domestig i ddioddefwyr cam-drin domestig risg uchel yn fyw ar 1 Ebrill 2023. Rhoddwyd cynllun trosglwyddo manwl ar waith gan y gwasanaeth newydd, gyda mwyafrif staff presennol y gwasanaeth cynghori annibynnol ar drais domestig yn trosglwyddo, a llwyth achosion cleientiaid agored yn cael ei etifeddu gan y gwasanaeth newydd. Roedd y contract yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol sylweddol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gydnabod y galw cynyddol ar wasanaethau a brofwyd oherwydd pandemig Covid-19. Mae’r buddsoddiad ychwanegol yn ei le tan ddiwedd 2024/25 a bydd y comisiynydd yn parhau i lobïo am barhad y cyllid hanfodol hwn i wasanaethau. Mae'r cyllid craidd a ddarperir gan y comisiynydd a'r pedwar awdurdod lleol ar draws ardal Dyfed-Powys wedi'i ymrwymo am gyfnod y contract.

- Parhaodd y Comisiynydd i weithio gydag asiantaethau partner ar lefel Cymru gyfan i wella'r ymateb i ddioddefwyr cam-drin rhywiol. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod safleoedd lle y bydd gwasanaethau meddygol acíwt yn cael eu darparu yn cael eu hachredu i safonau ISO, gyda dyddiad cau o Hydref 2025 ar gyfer cyflawni achrediad. Mae bwrdd prosiect plismona ac iechyd ar y cyd yn goruchwylio cynnydd gwasanaethau a ddarperir ar y cyd.Yn dilyn adolygiad annibynnol o wasanaethau trais rhywiol, mae'r comisiynydd wedi cynnal ymarfer caffael ar gyfer gwasanaeth cynghori annibynnol ar drais rhywiol ar y cyd â chomisiynwyr yr heddlu a throseddu (CHTh) ar gyfer de Cymru a Gwent. Bydd y gwasanaeth newydd yn cychwyn ar 1 Gorffennaf 2024 ac yn cael ei ymgorffori yn y model ehangach ar gyfer rhanbartholi gwasanaethau cam-drin rhywiol.
- Mae'r comisiynydd yn bartner annatod o fewn Byrddau Cynllunio Ardal, sy'n gyfrifol am ddarparu atebolrwydd, llywodraethu a chraffu ar gynlluniau strategol, perfformiad a rheolaeth ariannol camddefnyddio sylweddau. Mae Byrddau Cynllunio Ardal wedi'u sefydlu ar ôl troed Bwrdd Iechyd, ac mae'r aelodaeth yn cynnwys yr awdurdodau cyfrifol o dan Ddeddf Troseddu ac Anhrefn 1998. Roedd y comisiynydd yn bartner allweddol yn y gwaith o ailgomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ledled Powys, ac mae'r contract newydd wedi bod ar waith ers dros flwyddyn bellach. Bydd gwasanaethau Hywel Dda yn cychwyn ar ymarfer ailgomisiynu yn ystod 2024/25 ac mae'r comisiynydd wedi rhoi arwydd cynnar o ymrwymiad i barhau i fuddsoddi yn y gwasanaeth atal a thrin haen 2 hanfodol.
- Mae'r heddlu wedi gwneud gwaith sylweddol i sicrhau bod pob troseddwr cymwys yn cael ei gyfeirio at y Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr. Mae hyn wedi cynyddu gallu'r cynllun i'r eithaf, gan ddarparu asesiad cyfannol a chymorth i ddargyfeirio unigolion o'r system cyfiawnder troseddol. Mae dadansoddiad o gyfraddau aildroseddu wedi dangos bod y rhai ar y cynllun yn llai tebygol o aildroseddu yn dilyn yr ymyriad na'r rhai a oedd yn gymwys ar gyfer y cynllun ond na chawsant y cymorth. Mae gwerthusiad pellach o'r gwasanaeth ar y gweill. Bydd angen ailgomisiynu'r gwasanaeth mewn pryd ar gyfer Ebrill 2025, a bydd angen penderfyniad allweddol gan gomisiynydd tymor 4.
- Parhaodd Llamau i ddarparu gwasanaeth trafod y sefyllfa a chymorth cyfryngu annibynnol i blant a phobl ifanc yr adroddwyd eu bod ar goll ac mewn perygl o gael eu herlid neu brofi camfanteisio. Mae effaith y gwasanaeth hwn yn parhau i fod yn gadarnhaol, gyda gostyngiadau yn cael eu dangos mewn adroddiadau bod pobl ifanc ar goll.Yn dilyn cynnydd yn nifer a chymhlethdod yr achosion yn ystod pandemig Covid-19, mae cynllun peilot llwyddiannus i gynyddu capasiti'r gwasanaeth wedi arwain at barhad y ddarpariaeth uwch tan ddiwedd y contract presennol ym mis Mawrth 2025. Bydd angen ailgomisiynu'r gwasanaeth mewn pryd ar gyfer Ebrill 2025, a bydd angen penderfyniad allweddol gan gomisiynydd tymor 4.
- O fis Ebrill 2022, darparodd y comisiynydd gyllid i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol yn ardal Dyfed-Powys i gynnal ymarfer adferol gyda dioddefwyr ifanc y rhai sydd wedi dioddef gweithredoedd troseddwyr ifanc. Mae hwn yn ddull newydd o ymdrin â'r cyllid a ddarperir gan y comisiynydd ac mae'n dilyn trafodaethau manwl â rheolwyr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ynghylch y ffordd orau i'r comisiynydd gefnogi adnoddau parhaus yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae'r trefniant hwn ar waith tan fis Mawrth 2025 a bydd comisiynydd tymor 4 yn gallu dylanwadu ar drefniadau grant yn y dyfodol i gefnogi cyfiawnder ieuenctid ac atal.

O safbwynt yr heddlu, mae perfformiad yn erbyn amcanion allweddol yn cael ei fonitro a'i adrodd yn lleol ar bob lefel o fewn y sefydliad yn ogystal ag mewn digwyddiadau perfformiad heddlu misol a chyfarfodydd Bwrdd Plismona bob pythefnos.

Yn ystod 2023/24, cofnodwyd 36,674 o droseddau, o gymharu â 45,450 yn 2022/23, gostyngiad o 19.3% (8,776) fel y dangosir yn y tabl canlynol:

| | 2022/23 | 2023/24 | Gwahaniaeth | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Troseddau a gofnodwyd yn ôl math o drosedd** | **Troseddau** | **Troseddau** | **Troseddau** | **%** |
| Trais yn erbyn yr unigolyn | 22,398 | 17,597 | (4,801) | (21.4%) |
| Dwyn | 4,896 | 4,787 | (109) | (2.2%) |
| Llosgi bwriadol a difrod troseddol | 4,582 | 4,043 | (539) | (11.8%) |
| Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus | 6,253 | 4,173 | (2,080) | (33.3%) |
| Troseddau cyffuriau | 2,272 | 1,587 | (685) | (30.1%) |
| Troseddau rhywiol | 1,752 | 1,459 | (293) | (16.7%) |
| Bwrgleriaeth | 1,285 | 1,279 | (6) | (0.5%) |
| Troseddau amrywiol | 910 | 745 | (165) | (18.1%) |
| Troseddau cerbyd | 694 | 628 | (66) | (9.5%) |
| Meddiant arfau | 322 | 298 | (24) | (7.5%) |
| Lladrad | 86 | 78 | (8) | (9.3%) |
| **Cyfanswm** | **45,450** | **36,674** | **(8,776)** | **(19.3%)** |

Mae'r flwyddyn wedi gweld gwelliannau mewn arferion cofnodi troseddau ochr yn ochr â newidiadau i reolau cyfrif y Swyddfa Gartref ac mae’r gwaith o sicrhau cydymffurfiaeth â'r safon cofnodi troseddau genedlaethol a rheolau cyfrif y Swyddfa Gartref wedi bod yn fwy rhagweithiol wrth gofnodi troseddau.  Bydd hyn yn cyfrif am gyfran fawr o'r gostyngiadau. Mae’r newidiadau yn y rheolau cyfrif, er enghraifft, yn cynnwys adfer y rheol prif drosedd ar gyfer troseddau ymddygiadol er mwyn caniatáu canolbwyntio ar y drosedd sy’n cael yr effaith fwyaf, a chynyddu’r trothwy ar gyfer troseddau’n ymwneud â chyfathrebiadau maleisus i sicrhau eu bod ond yn cael eu cofnodi pan fydd trothwy cyflawni’r drosedd yn cael ei chyrraedd, yn hytrach na phan fydd rhywun yn cael ei dramgwyddo gan rywbeth er enghraifft a bostiwyd ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae'r heddlu yn parhau i gynnal gwasanaeth teleffoni 999 effeithiol ac effeithlon. Mae galwadau 999, yn anochel, yn cael eu blaenoriaethu uwchlaw popeth arall gan eu bod yn cynrychioli ceisiadau brys am gymorth pan fo amser yn hanfodol. O fyfyrio ar ddata cenedlaethol a adroddwyd yn ystod y cyfnod 2023/24, amser ateb cyfartalog yr heddlu oedd 9.74 eiliad (ffynhonnell data BT a gyflwynwyd gan wasanaeth Cyswllt Digidol â’r Cyhoedd). O ran perfformiad yr heddlu, rhaid rhoi sylw i’r amser cuddiedig – hynny yw’r amser a gymerir i drosglwyddo galwad o gyfnewidfa BT i Ganolfan Reoli’r Heddlu sydd wedi’i chynnwys yn nata adrodd BT. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cadw cofnod o berfformiad sy'n rhoi sicrwydd bod 87% o alwadau 999 wedi'u hateb o fewn naw eiliad yn ystod y cyfnod. Bydd y newid i'r system ffôn newydd a ddisgwylir yn yr hydref yn darparu data mwy cywir ar gyfer cymhariaeth genedlaethol a disgwylir iddo leihau'r amser cuddiedig yn sylweddol.

Mae'r cyhoedd i raddau helaeth yn ystyried y gwasanaeth 101 yn sianel gyswllt ar gyfer riportio digwyddiadau nad ydynt yn rhai brys i'r heddlu (yn gyffredinol, galwadau nad ydynt yn cyfiawnhau galwad 999). Yn hyn o beth, mae gwasanaeth Opsiwn-1 101 yn adlewyrchu'r disgwyliad hwn. Dros y 12 mis diwethaf atebwyd 69% o'r galwadau hyn mewn llai na 120 eiliad, gyda chyflymder ateb cyfartalog o 131 o eiliadau. Roedd 13% yn gadael y gwasanaeth hwn ac mae hyn wedi gwaethygu yn ystod y flwyddyn. Mae systemau teleffoni ychwanegol a buddsoddiadau staffio sylweddol yn cael eu rhoi ar waith i wrthdroi'r duedd hon, sy'n anelu at alluogi'r gyfradd gyflawni i fod o fewn targed y Swyddfa Gartref o 10%.

Mae'r heddlu'n cynnig gwasanaeth cyswllt digidol 24/7 sy'n cynnwys y platfform adrodd ar-lein cartref ar-lein sengl a chyfathrebu cyfryngau cymdeithasol dwyffordd. Yn ystod 2023/24, cyflwynwyd cyfanswm o 16,450 o ffurflenni cartref ar-lein sengl. Mae'r galw hwn yn cynyddu'n barhaus gyda chategorïau ffurflenni newydd a gwasanaethau'n cael eu cyflwyno'n rheolaidd. O ran sianeli cyfryngau cymdeithasol amrywiol a chyfathrebu e-bost, mae data'n dangos bod cyfanswm o 20,924 o sgyrsiau wedi'u cynnal drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod 2023/24 (ffynhonnell ddata gwasanaeth Cyswllt Digidol â'r Cyhoedd). Er nad yw'n gwbl fesuradwy eto, ystyrir hefyd bod tua 100 o negeseuon e-bost yn cysylltu'n uniongyrchol y dydd.

Yn 2023/24, gwnaed 5,475 o arestiadau sy'n ostyngiad yn nifer yr arestiadau o gyfanswm o 8,244 yn 2022/23. Mae arestiadau mewn cysylltiad â cham-drin domestig wedi gostwng o 2,621 yn 2022/23 i 2,458 yn 2023/24, sy'n adlewyrchu gostyngiad mewn troseddau cam-drin domestig a gofnodwyd.

O ystyried troseddau yr adroddwyd amdanynt ac y neilltuwyd canlyniad iddynt (wedi'u cwblhau) yn 2023/24, neilltuwyd canlyniad i 18,610 o 35,455 (52.5%) o droseddau o fewn 30 niwrnod i adrodd amdanynt. Mae hyn yn cymharu â 30,288 allan o 44,708 o droseddau (67.7%) yn 2022/23. Rhoddwyd system rheoli cofnodion newydd ar waith ym mis Mai 2023, sydd wedi effeithio ar amseroedd prosesu. Mae cyfraddau canlyniadau cadarnhaol yn dibynnu ar gyfranogiad dioddefwyr ac ansawdd ymchwiliadau i ddod â throseddwyr o flaen eu gwell. Rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Mawrth 2024, mae'r gyfradd canlyniadau cadarnhaol wedi amrywio rhwng 14.1% a 18.9% ar gyfer pob un o'r misoedd hynny.

**Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi**

Arolygwyd yr heddlu gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn 2023, fel rhan o fframwaith asesu parhaus effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu (PEEL) 2023-25. Cyhoeddwyd adroddiad asesiad parhaus effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu 2023-25 ym mis Tachwedd 2023, gydag asesiad o berfformiad a graddau'r heddlu yn erbyn meysydd cwestiwn craidd y fframwaith. Aseswyd bod yr heddlu yn ''ddigonol' mewn chwe maes; 'pwerau'r heddlu a thriniaeth gyhoeddus', 'atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol', 'ymateb i'r cyhoedd', 'ymchwilio i droseddu', 'rheoli troseddwyr' ac 'arweinyddiaeth a rheolaeth yr heddlu. Cafodd ei asesu fel 'angen gwelliant' mewn dau faes; 'amddiffyn pobl fregus' a 'datblygu gweithlu cadarnhaol'

Roedd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn fodlon gyda'r rhan fwyaf o agweddau ar berfformiad yr heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel, lleihau trosedd, a darparu

gwasanaeth effeithiol i ddioddefwyr, fodd bynnag nodwyd rhai meysydd lle mae angen i'r heddlu wella. Roedd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn falch o ddull Heddlu Dyfed-Powys o ddatrys problemau ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. Amlygwyd bod yr heddlu wedi cyflawni rhai safonau trawiadol o ran ymchwilio'n effeithiol i droseddau, yn ogystal â gwaith staff yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu, sy'n blaenoriaethu galwadau'n effeithiol ac yn defnyddio dull strwythuredig i nodi'n gyson fregusrwydd a dioddefwyr mynych, ac roedd Heddlu Dyfed-Powys yn cymharu'n ffafriol ag adolygiadau eraill o asesiadau gwasanaeth dioddefwyr mewn heddluoedd eraill. Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi wedi amlygu bod gwaith i'w wneud o hyd i gyflawni canlyniadau priodol i ddioddefwyr ac i wella amseroedd ateb galwadau gan y cyhoedd, y ddau ohonynt yn themâu cenedlaethol ar gyfer pob heddlu.

Roedd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn cydnabod bod yr heddlu wedi cyflwyno system rheoli cofnodion newydd, NICHE, ym mis Mai 2023, a ystyrir fel y newid mwyaf arwyddocaol yn hanes yr heddlu. Gwnaeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi sylw ar ddiwylliant perfformiad cryf, a bod ymdrechion yr heddlu i wella perfformiad yn cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol. Amlygwyd hefyd bod yr heddlu'n defnyddio data'n effeithiol i ddeall ei gyllid, sy'n cael ei nodi fel arfer addawol ac sy'n cael ei rannu â heddluoedd eraill yn genedlaethol. Yn ogystal, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn ymddygiad swyddogion a chyfathrebu effeithiol â'r cyhoedd ac mae'n annog herio a chraffu cryf ar stopio a chwilio, gan arwain at welliant yn y graddau o ran defnyddio pwerau'r heddlu a thriniaeth gyhoeddus.

Gan gyfeirio at feysydd y nodwyd bod angen eu gwella, amlygodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi rai pryderon mewn perthynas â'r ffordd yr oedd Heddlu Dyfed-Powys yn asesu digwyddiadau yn ymwneud â cham-drin domestig. Mae'r heddlu wedi gweithredu ar unwaith mewn ymateb i'r adborth hwn drwy sicrhau bod pob digwyddiad sy'n ymwneud â cham-drin domestig bellach yn cael asesiad risg eilaidd gan staff arbenigol hyfforddedig. Yn ogystal, amlygwyd rhai materion mewn perthynas â mynd i'r afael â lles a dealltwriaeth o'r galw ar y gweithlu. Unwaith eto, mae'r heddlu wedi gweithredu'n gyflym i fynd i'r afael â'r materion hyn trwy gynllun gweithredu lles i wella'n rhagweithiol y cymorth a'r cyngor lles sydd ar gael, yn ogystal â sicrhau bod goruchwylwyr yn cael cyrsiau arweinyddiaeth (yn unol â safonau arweinyddiaeth y Coleg Plismona).

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cyflwyno swyddog lles a chadw, i gynnal cyfweliadau 'dweud ac aros' ac 'ymadael' i ddeall yn well yr heriau y mae swyddogion a staff yn eu hwynebu, gyda'r nod o leihau'r risg y bydd personél medrus yn gadael y sefydliad. Mae'r heddlu hefyd yn cynnal adolygiad o'r model gweithredu ehangach i sicrhau bod adnoddau yn y sefyllfa orau i fodloni'r galw, a bod anghenion dioddefwyr, a chyflawni blaenoriaethau'r sefydliad yn cyd-fynd yn llawn.

### Datganiad Rheoli'r Heddlu

Cyflwynodd y prif gwnstabl ddatganiad rheoli'r heddlu diweddaraf (2023) i Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ym mis Mai 2024. Roedd blwyddyn ariannol 2023/24 yn flwyddyn o drawsnewid, a darparodd datganiad rheoli'r heddlu asesiad wedi'i ddiweddaru o gapasiti gweithredol Heddlu Dyfed-Powys yn erbyn y galw presennol a'r galw a ddisgwylir yn y dyfodol. Mae datganiad rheoli'r heddlu yn ymwybodol o sawl ffactor o fewn yr heddlu gan gynnwys:

- Blaenoriaethau a osodwyd gan y prif gwnstabl (themâu cam-drin domestig, cyffuriau, treisio a throseddau rhywiol);
- Rhaglen adolygu'r heddlu tair blynedd a sefydlwyd i gefnogi, herio a hwyluso nodi gwelliannau busnes gweithredol a chyflawni targedau arbedion;
- Rhaglen waith newydd wedi'i strwythuro o amgylch asesiad gwasanaeth dioddefwyr Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi;
- Gweithredu system rheoli cofnodion newydd NICHE;
- Fframwaith perfformiad newydd yn cael ei ddatblygu, yn dilyn trosglwyddo i system rheoli cofnodion Niche;
- Gofyniad plismona strategol newydd, yn dilyn ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2022.

Mae datganiad rheoli’r heddlu yn cynnwys trosolwg o bob un o'r ffactorau uchod a'r effaith y maent wedi'i chael ar yr heddlu cyfan. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y risgiau allweddol hyn ac unrhyw risgiau newydd sydd wedi dod i'r amlwg. Mae pob adran o ddatganiad rheoli’r heddlu hefyd yn dangos sut mae perfformiad yn cael ei fesur ar hyn o bryd o fewn y maes busnes hwnnw a pha gynlluniau strategol sydd ar waith yn y dyfodol i atal a rhwystro trosedd a bregusrwydd er mwyn cyflawni blaenoriaethau’r prif gwnstabl.

Nododd datganiad rheoli’r heddlu nifer o themâu a blaenoriaethau trawsbynciol, yn benodol mewn perthynas â newidiadau yn y galw am wasanaethau. Amlygodd hefyd yr angen am y gwelliannau arfaethedig ym mhroses gynllunio a sicrwydd flynyddol yr heddlu lle mae manylion y galw am wasanaethau plismona a'r adnoddau sydd eu hangen i gwrdd â'r galw, ynghyd â manylion y meysydd i fynd i'r afael â nhw trwy fuddsoddiad neu welliannau cynhyrchiant yn cael eu dwyn ynghyd. Mae canfyddiadau’r adroddiad wedi’u crynhoi ar draws y penawdau canlynol:

- Buddsoddiad yn y gweithlu, hyfforddiant ac achredu, recriwtio, cadw cydnerthedd, a lles.
- Heriau ariannol, gan gynnwys yr argyfwng costau byw / amodau economaidd.
- Galw’r ganolfan gyfathrebu a phwysau staffio.
- Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd.
- Heriau perfformiad a galw.
- Ystadau ac amlygrwydd Timau Plismona Bro.
- Seilwaith a datblygiad / cefnogaeth yr adran Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh).
- Rheoli gwybodaeth a data.

Mae dull presennol datganiad rheoli’r heddlu wedi'i gydgysylltu'n ganolog a bydd yn cyd-fynd yn agosach â'r cynllun ariannol tymor canolig, cynllunio strategol a phroses y gyllideb ar gyfer 2025/26. Bydd yr heddlu'n parhau i adolygu ei fethodoleg ar gyfer cynhyrchu datganiad rheoli'r heddlu i sicrhau'r ymagwedd fwyaf effeithlon ac effeithiol at gynllunio strategol.

## 4 Y model sefydliadol

Trefnir Heddlu Dyfed-Powys ar sail ddaearyddol a swyddogaethol. Cefnogir y prif gwnstabl gan dîm prif swyddogion sy'n cynnwys y dirprwy brif gwnstabl, y prif gwnstabl cynorthwyol, y cyfarwyddwr

datblygu pobl a sefydliad, a'r cyfarwyddwr cyllid. Dangosir prif gyfrifoldebau'r pedair swydd sy'n cefnogi'r prif gwnstabl yn y tabl isod:

| **Dirprwy Brif Gwnstabl** | **Prif Gwnstabl Cynorthwyol** | **Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a Sefydliad** | **Cyfarwyddwr Cyllid** |
|---|---|---|---|
| Adran Gyfreithiol | Plismona Lleol | Adnoddau Dynol | Cyllid Corfforaethol |
| Gwella gwasanaeth/Adolygiad yr heddlu | Ymchwiliadau | Iechyd a lles galwedigaethol | Systemau gwybodaeth a thechnoleg |
| Rheoli gwybodaeth | Ymateb arbenigol | Gwasanaethau datblygu | Caffael |
| Perfformiad | Canolfan gyswllt yr heddlu | Cymdeithasau staff a chysylltiadau cyflogwyr | Fflyd |
| Cydweithio | Cefnogaeth wyddonol | | Ystadau |
| Safonau proffesiynol | Y ddalfa a chyfiawnder troseddol | | |
| Iechyd a diogelwch | Partneriaethau | | |
| Arolygiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi | Cyfathrebu corfforaethol | | |

Ar ôl cydnabod maint yr heriau ariannol yn y dyfodol, cychwynnodd y prif gwnstabl raglen adolygu'r heddlu ym mis Mehefin 2022 i gefnogi, herio, a hwyluso'r gwaith o nodi a chyflawni gwelliannau busnes gweithredol a chyflawni targedau arbedion cyllideb o tua £10 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Yn bwysig, cymerodd y prif gwnstabl hefyd ystod o gamau cynnar i fynd ati'n rhagweithiol i gyfyngu gwariant o fewn 2022/23, a allai wedyn liniaru beichiau ariannol yn ogystal â chynorthwyo i fodloni pwysau untro yn y dyfodol. Cymerodd y comisiynydd fesurau hefyd i gyfyngu gwariant yn ei swyddfa ei hun, a fydd yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd wrth ymdrin â heriau ariannol.

Mae'r heddlu wedi parhau i ail-lunio i ateb y galw, fodd bynnag, cydnabyddir bod y dirwedd blismona yn newid am byth ac mae llawer o waith ar y gweill o hyd i gyflawni yn erbyn y cynllun heddlu a throseddu newydd a blaenoriaethau'r prif gwnstabl wrth fynd i'r afael â materion a nodwyd yn natganiad rheoli diweddaraf yr heddlu.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, roedd gan y comisiynydd a'r heddlu sefydliad wedi'i gyllidebu o 1,304 o swyddogion yr heddlu, 163 o swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu (SCCH) ac 824 o staff yr heddlu. Dangosir dadansoddiad o ddosbarthiad y staffio yn y tabl canlynol:

| | Swyddogion yr heddlu | Swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu | Staff yr heddlu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Swyddi a gyllidebwyd 2023/24** | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Cyfwerth ag amser llawn** |
| Plismona lleol | 562 | 163 | 24 | 749 |
| Ymchwiliadau | 445 | 0 | 171 | 616 |
| Cymorth gweithredol (gan gynnwys delio â galwadau) | 171 | 0 | 134 | 305 |
| Cyfiawnder troseddol | 1 | 0 | 68 | 69 |
| Cefnogaeth wyddonol a gwaith fforensig digidol | 3 | 0 | 62 | 65 |
| Safonau proffesiynol | 8 | 0 | 17 | 25 |
| Eraill gan gynnwys cymorth busnes | 36 | 0 | 297 | 333 |
| Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | 0 | 0 | 21 | 21 |
| Secondiadau a meysydd a ariennir | 78 | 0 | 30 | 108 |
| **Cyfanswm** | **1,304** | **163** | **824** | **2,291** |

Mae'r ymgyrchoedd recriwtio wedi'u cynllunio a'u rheoli'n ofalus yn ystod y flwyddyn i sicrhau'r lefelau gorau posibl o adnoddau, argaeledd sgiliau arbenigol ac i ganiatáu dosbarthu staff yn gymesur ar sail ddaearyddol. Mae fframwaith cymwysterau addysg yr heddlu yn parhau i weld myfyrwyr sy’n gwnstabliaid yn cael eu derbyn bob blwyddyn gyda darparwyr cyrsiau allanol yn darparu elfennau craidd o’u hyfforddiant.

Yn ogystal â recriwtio i gymryd lle ymddeoliadau arferol a’r rhai sy’n gadael, mae’r heddlu hefyd wedi bod yn cynyddu’r sefydliad yn unol â rhaglen Uplift swyddogion heddlu’r Swyddfa Gartref i recriwtio 20,000 o swyddogion ychwanegol erbyn mis Mawrth 2023. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld cynnydd o 42 yn 2020/21, 42 arall yn 2021/22 a 57 terfynol ar gyfer 2022/23 i gyrraedd ei gyfran o’r targedau cenedlaethol. Yn ogystal, cynigiwyd cyfle ychwanegol nas rhagwelwyd i'r heddlu i gynyddu'r targed hwn ymhellach o 14 o swyddogion yn ystod y flwyddyn, targed a gyflawnwyd.

Mae gan y comisiynydd swyddfa sy’n ei gefnogi i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol fel y nodir yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2011. Yn ogystal â rolau statudol y swyddog monitro a’r prif swyddog cyllid, mae gan y comisiynydd dîm o weithwyr proffesiynol i gynghori ar faterion yn ymwneud â chyllid, polisi, perfformiad, ymgysylltu, comisiynu a phartneriaethau. Roedd gan y comisiynydd sefydliad wedi’i gyllidebu o 21 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2023/24. Fel rhan o adolygiad cynhwysfawr o faterion yn ymwneud ag ystadau, trosglwyddodd y comisiynydd y swyddogaeth yn ôl i’r prif gwnstabl o 1 Ebrill 2022.

## 5 Perfformiad ariannol

Mae datganiad cyfrifon y grŵp yn dangos perfformiad ariannol y grŵp. Paratowyd hwn yn seiliedig ar arferion cyfrifyddu priodol i gydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth CIPFA. Mae hyn ychydig yn wahanol i'r cyllidebau sy'n cael eu rheoli a'u monitro o ddydd i ddydd gan nad yw'r rhain yn cynnwys rhai elfennau megis dibrisiant a

symudiadau ar rwymedigaethau pensiwn nad oes angen eu hariannu'n llawn yn ystod y flwyddyn o dan statud.

Mae cost gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) yn dangos bod £132.2 miliwn wedi'i wario ar ddarparu gwasanaethau plismona i'r cyhoedd yn Heddlu Dyfed-Powys yn 2023/24 (2022/23: £155.2 miliwn). Mae'r datganiad yn rhoi dadansoddiad ar draws y prif gydrannau cost. Er enghraifft, gwariwyd yr elfen fwyaf ar gyflogau swyddogion heddlu a oedd yn cyfrif am £77.3 miliwn o'r cyfanswm yn 2023/24 (2022/23: £96.3 miliwn). Mae'r amrywiad mewn cost gwasanaeth yn cael ei effeithio'n sylweddol gan y symudiad mewn rhwymedigaethau pensiwn a chofnodion dibrisiant cyfalaf.

Mae'r fantolen yn rhoi ciplun o asedau a rhwymedigaethau'r comisiynydd ar 31 Mawrth 2024.

Mae mantolen y grŵp wedi'i dominyddu gan y rhwymedigaeth hirdymor o £1,053 miliwn (£1,073 miliwn yn flaenorol) sy'n bodoli mewn perthynas â rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol ar gyfer swyddogion a staff yr heddlu. Mae hyn yn cynrychioli'r swm y byddai angen ei neilltuo ar ddyddiad y fantolen i dalu am daliadau pensiynau yn y dyfodol ar gyfer yr holl swyddogion a staff presennol a'r rheini wedi ymddeol. Mae'r ffigur hwn wedi'i gyfrifo'n annibynnol ar sail actiwaraidd ac mae'n ystyried lefelau cyflog yn y dyfodol, chwyddiant, cyfraddau marwolaethau ac ati. Bu gostyngiad bach yn y rhwymedigaeth hon ers mis Mawrth 2023 o ganlyniad i newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd gan gynnwys y ffactor disgownt.

Yr eitem fwyaf nesaf ar y fantolen yw'r £96.4 miliwn (2022/23: £80.3 miliwn) o eiddo, peiriannau ac offer sy'n eiddo i'r comisiynydd sydd wedi bod yn destun ailbrisiad annibynnol ffurfiol ar ddiwedd mis Mawrth 2024. Yn ogystal â'r asedau hirdymor hyn, roedd gan y comisiynydd £27.8 miliwn (2022/23: £18.2 miliwn) o asedau tymor byr sydd yn bennaf yn ddyledwyr tymor byr ac arian parod. Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol yw £29.9 miliwn ar 31 Mawrth 2024 (2022/23: £20.9 miliwn) gyda'r benthyca tymor byr o £10 miliwn a wnaed ym mis Chwefror 2024 yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r amrywiad mewn asedau a rhwymedigaethau cyfredol.

Dadansoddiad o berfformiad ariannol ac amrywiad cyllidebol 2023/24

Gosododd y comisiynydd gyllideb o £133.4 miliwn fel cyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a oedd yn ymgorffori defnydd o gronfeydd wrth gefn o £2.6 miliwn, yn ogystal ag arbedion ariannol o £6.4 miliwn (4.6%). Tynnwyd y rhain o gyllidebau gwaelodlin er gwaethaf cynnydd o 7.75% yn y dreth gyngor. Roedd hyn yn adlewyrchu'r cynnydd digynsail yn y costau yr oedd Heddlu Dyfed-Powys yn eu hwynebu o ran ynni, chwyddiant cyffredinol, a chyfraddau llog ac ati. Wrth fynd i mewn i'r flwyddyn ariannol, roedd yr heddlu hefyd yn wynebu'r risg o gynnydd mewn costau o ddyfarniadau cyflog heb eu hariannu a gweithrediadau sylweddol parhaus mewn perthynas â phrotestiadau canolfannau lloches (ymgyrch Cambrian).

Mae blwyddyn ariannol 2023/24 wedi bod yn flwyddyn o amrywiannau ariannol sylweddol, ac mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn gadarnhaol. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2023/24 ac yn cymharu hwn â'r gyllideb wreiddiol. Dangosir y gyllideb ddiwygiedig hefyd sy'n adlewyrchu'r cyllidebau ychwanegol a'r symudiadau wrth gefn a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn at ddibenion monitro'r gyllideb a gymeradwywyd yn unol â'r fframwaith llywodraethu corfforaethol.

| **Datganiad amrywiad**<br><br>**Deiliad cyllideb** | **Cyllideb wreiddiol**<br><br>**£miliwn** | **Cyllideb ddiwygiedig**<br><br>**£miliwn** | **Gwirioneddol**<br><br>**£miliwn** | **Amrywiant (Cadarnhaol ar gyfer arbed)**<br>**£miliwn** |
|---|---|---|---|---|
| **Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu** | | | | |
| Costau swyddfa a chomisiynu | 2.4 | 2.4 | 2.4 | 0.0 |
| Trosglwyddo i/(o) gronfeydd wrth gefn – comisiynydd | 0.0 | 0.0 | (0.1) | 0.1 |
| **Cyfanswm costau cyllideb refeniw'r comisiynydd** | **2.4** | **2.4** | **2.3** | **0.1** |
| **Prif Gwnstabl** | | | | |
| Cyflogau a lwfansau'r heddlu | 76.4 | 78.1 | 76.6 | (0.2) |
| Goramser swyddogion yr heddlu | 2.0 | 1.9 | 2.1 | (0.1) |
| Gwyliau'r banc | 1.1 | 1.1 | 1.0 | 0.1 |
| Cyflogau a lwfansau staff yr heddlu | 36.6 | 37.8 | 37.2 | (0.6) |
| Goramser staff yr heddlu | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.0 |
| Costau pensiwn | 1.7 | 1.7 | 1.9 | (0.2) |
| Recriwtio, yswiriant a hyfforddiant | 3.5 | 3.4 | 2.7 | 0.8 |
| Costau adeiladau | 6.3 | 6.3 | 5.7 | 0.6 |
| Costau eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflogau | 11.9 | 11.6 | 10.9 | 1.0 |
| Dadansoddi ffonau a gwaith fforensig | 2.6 | 2.6 | 2.3 | 0.3 |
| Taliadau cydweithio | 4.6 | 4.7 | 3.9 | 0.7 |
| Grantiau | (11.6) | (14.4) | (15.1) | 3.5 |
| Incwm | (4.5) | (5.0) | (5.0) | 0.5 |
| Cyllid cyfalaf | 3.3 | 4.9 | 4.9 | (1.6) |
| Ailgodi taliadau | (0.5) | (0.7) | (0.6) | 0.1 |
| **Cyfanswm y gyllideb – heddlu** | **133.6** | **134.2** | **128.7** | **4.9** |
| **Cyfanswm y gyllideb – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl** | **136.0** | **136.6** | **131.0** | **5.0** |
| Cyfraniad i/(o) gronfeydd wrth gefn - prif gwnstabl | (2.6) | (3.2) | 2.4 | (5.0) |
| **Gwariant net ar ôl trosglwyddo o refeniw i gronfeydd wrth gefn** | **133.4** | **133.4** | **133.4** | **0.0** |
| **Cyfrifon dal a chyfrifon hunan-fantoli** | | | | |
| Rhaglen ailhyfforddi gyrwyr | 0.0 | 0.0 | (0.3) | 0.3 |
| Trosglwyddo i/(o) gronfeydd wrth gefn - ailhyfforddi gyrwyr | 0.0 | 0.0 | 0.3 | (0.3) |
| Partneriaeth Gan Bwyll | 0.0 | 0.0 | 0.9 | (0.9) |
| Trosglwyddo i/(o) gronfeydd wrth gefn - Gan Bwyll | 0.0 | 0.0 | (0.9) | 0.9 |
| Cyllid refeniw uniongyrchol - cyfalaf | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Trosglwyddo i/(o) gronfeydd wrth gefn - cyfalaf | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **Cyfanswm cyfrifon dal** | **133.4** | **133.4** | **133.4** | **0.0** |

Roedd gwariant Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn unol â'r gyllideb gyda throsglwyddiad bach o'r cronfeydd wrth gefn o £0.1 miliwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu rhai costau refeniw yn ystod y flwyddyn. Roedd gwariant Heddlu Dyfed-Powys £4.9 miliwn o fewn y gyllideb.  Roedd hyn yn golygu

y gellid prosesu trosglwyddiad o £2.4 miliwn i'r cronfeydd wrth gefn yn hytrach na'r trosglwyddiad o £2.6 miliwn o gronfeydd wrth gefn y comisiynydd a gyllidebwyd.

Fel yr adroddwyd trwy gydol y flwyddyn, roedd cyflogau swyddogion yn agos iawn at y gyllideb wreiddiol. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod dyfarniad cyflog o 7% wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth y DU i'w dalu o fis Medi 2023 o'i gymharu â'r cynnydd o 2.75% a gyllidebwyd. Roedd y swyddogion a adawodd yn sylweddol uwch na'r disgwyl ac roedd bron yn cyfateb yn union i gost ychwanegol y dyfarniad cyflog. Arweiniodd recriwtio ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn at yr heddlu yn rhagori ar ei dargedau cynyddu swyddogion ar gyfer y flwyddyn.

Roedd cyllidebau staff yr heddlu tua £0.6 miliwn dros y gyllideb gyda dyfarniad cyflog ychwanegol y llywodraeth yn cyfrannu £1.0 miliwn tuag at hyn. Y sefyllfa sylfaenol fu tanwariant o tua £0.4 miliwn gyda'r rhewi recriwtio ar gyfer swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu ac adolygiad yr heddlu, gan gyfuno ffactorau a gyfrannodd megis anawsterau denu a recriwtio staff mewn modd amserol. Roedd goramser staff yr heddlu, gwyliau banc a chostau pensiwn swyddogion i raddau helaeth yn unol â'r targed yn erbyn y gyllideb.

Roedd y llinell recriwtio, hyfforddi ac yswiriant yn cynnwys cost untro o £1.5 miliwn i ariannu costau trosiannol adolygiad yr heddlu. Arweiniodd rheoli swyddi gwag at ofyniad is ar gyfer ymddeoliad gorfodol, gwirfoddol a chynnar i weithredu newidiadau strwythurol a golygodd mai dim ond £0.6 miliwn o gostau newid a gafwyd. Deilliodd gorwariant bach o £0.1 miliwn yn erbyn cyllidebau hyfforddi a chyllidebau eraill o ganlyniad i gymeradwyo ceisiadau am hyfforddiant ychwanegol yn hytrach na sefyllfa gyffredinol y gyllideb.

Cyllidebwyd ar gyfer cynnydd sylweddol mewn costau o dan benawdau eiddo oherwydd y cynnydd a ragwelwyd yn sgil chwyddiant yng nghostau nwy a thrydan, yn ogystal â chostau rhedeg ychwanegol o fis Mai 2023 ar gyfer y cyfleuster dalfa newydd yn Nafen. Yn ystod y flwyddyn hefyd gwelwyd newidiadau yn cael eu gweithredu mewn perthynas â threfniadau rheoli cyfleusterau, gyda tharged arbedion o £0.4m yn cael ei osod ar gyfer penawdau o'r fath yn 2023/24 fel rhan o darged tair blynedd o £1.0 miliwn ar gyfer yr adran ystadau (10% o darged adolygiad yr heddlu). Mae'n braf bod sefyllfa gyffredinol y gyllideb yn dangos tua £0.6 miliwn yn fwy na'r disgwyl ar ddiwedd y flwyddyn sy'n adlewyrchu ymdrech sylweddol gan y tîm ystadau, gydag arbedion yn cael eu cyflawni drwy reoli ynni, apeliadau ardrethi, gweithio ystwyth, rhesymoli eiddo, a chynhyrchu incwm.

Mae penawdau cyllideb eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflogau tua £1.0 miliwn o fewn y gyllideb, gydag oedi wrth weithredu'r system rheoli cysylltiadau a datrysiad teleffoni yn yr ystafell reoli yn cyfrannu £0.5 miliwn o hyn. Cafwyd arbedion o £0.3 miliwn yn erbyn y ddarpariaeth yswiriant ac ymgyfreitha hefyd oherwydd bod y datganiadau cyfrifyddu wedi'u cadw'n agored am gyfnod hwy o ganlyniad i oedi yn y broses archwilio. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid codi £0.3 miliwn o hawliadau a gafwyd mewn perthynas â 2022/23 yn ôl i'r flwyddyn honno, gyda gostyngiad yn y gronfa yswiriant a chyfreitha wrth gefn yn ariannu hyn yn 2022/23. Mae trosglwyddiad ychwanegol i'r cronfeydd wrth gefn wedi'i gynnwys yng nghyfrifon 2023/24 i ailgyflenwi'r gronfa yswiriant ac ymgyfreitha yn ôl i £0.4 miliwn. Mae hyn yn ymgorffori gostyngiad o £0.05 miliwn mewn perthynas â hawliadau a dderbyniwyd yn 2024/25.

Cafwyd arbedion o tua £0.3 miliwn yn erbyn costau dadansoddi ffonau a gwasanaethau fforensig yn ystod y flwyddyn. Cafodd tua £0.1 miliwn ei ddileu o gyllidebau yn 2024/25 i gydnabod hyn. Ym mlwyddyn ariannol 2023/24, prin oedd yr ymchwiliadau i droseddau difrifol, felly roedd y galw am waith fforensig yn is. Yn ogystal, rheolwyd costau cynyddol profion cyffuriau ymyl ffordd.

Cyllidebau cydweithio yw'r rhai anoddaf i'w rhagweld o hyd gydag unedau cydweithredol, yn bennaf Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol (Tarian), a'r Gyd-unedau Arfau Saethu yn gweithredu ymhell o fewn y cyllidebau, eto'n bennaf oherwydd materion staffio. Roedd cyfraniadau i drefniadau cenedlaethol eraill ar y cyd hefyd yn is nag a ragwelwyd adeg gosod y gyllideb.

Yr amrywiad mwyaf o bell ffordd yn erbyn cyllidebau oedd yn erbyn penawdau grant, a gyfrannodd £3.5 miliwn tuag at y tanwariant. Roedd hyn yn cynnwys grant ychwanegol annisgwyl fel y grant arbennig o £2.3 miliwn tuag at ddyfarniadau cyflog, a £0.5 miliwn o grant ychwanegol oherwydd cyflymu’r rhaglen Uplift. Cafwyd cyllid dirybudd ychwanegol hefyd gan y Swyddfa Gartref mewn perthynas â datgelu a gwahardd, cynnydd mewn costau meddalwedd a rhaglen genedlaethol Gwasanaeth Data Gorfodi’r Gyfraith (LEDS).

Roedd incwm arall nad oedd yn deillio o grantiau dros y gyllideb o £0.5 miliwn gyda derbyniadau llog yn cyfrannu'r mwyafrif helaeth o hyn. Talwyd grant atodol pensiynau'r Swyddfa Gartref a grant atodol Llywodraeth Cymru yn gynnar ym mis Ebrill a gyda chyfraddau llog o +5% gwnaeth hyn arbediad sylweddol. Cafwyd incwm ychwanegol hefyd ar gyfer cefnogaeth cymorth ar y cyd a roddwyd i heddluoedd eraill. Gwelodd incwm hyfforddi gyrwyr (Heddlu Metropolitan) a chostau erlyn traffig a adenillwyd ddiffygion mewn incwm oherwydd anawsterau staffio a phwysau eraill.

| **226,049** | **(168,843)** | **57,206** | **Gwarged/diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau** | | **226,049** | **(168,843)** | **57,206** |
| | | (5,762) | (Gwarged) neu ddiffyg ar ailbrisio asedau sefydlog | 6 | | | (5,762) |
| | | (686,370) | (Enillion)/colledion actiwaraidd ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn | | | | (1,943) |
| | | 0 | Costau comisiynu (trosglwyddo o fewn grŵp) | | | | (684,427) |
| | | **(634,926)** | **Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr** | | | | **(634,926)** |

* Mae costau tâl a phensiynau eisoes wedi'u cyflwyno ar linellau ar wahân yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr (CIES) ond maent bellach wedi'u cyfuno'n un llinell. Mae cyfraniadau pensiwn yn cael eu tynnu o'r CIES ac yn cael eu disodli gan gostau'r gwasanaeth cyfredol (fel yr aseswyd gan Mercer Cyf, actiwari'r heddlu). Mae costau'r gwasanaeth cyfredol ar gyfer pensiynau swyddogion a staff yn sylweddol is ar gyfer 2023/24 nag yn y blynyddoedd blaenorol, ac mae hyn wedi arwain at y ffigur net ar gyfer pensiynau yn gredyd. Felly mae'r costau tâl a phensiynau wedi'u cyfuno'n un llinell er mwyn osgoi unrhyw amwysedd i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon. Nid oes unrhyw effaith ar y cyfansymiau cyffredinol ar gyfer tâl a phensiynau ar gyfer cyfrifon 2022/23 a 2023/24.

# Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn

| Blwyddyn Ariannol 2023/24 | Nodyn: Cyf | Balans y Gronfa Gyffredinol £'000 | Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a Glustnodwyd £'000 | Cyfanswm Balans y Gronfa Gyffredinol £'000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn £'000 | Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu Defnyddio £'000 | Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £'000 | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **(4,862)** | **(14,690)** | **(19,552)** | **0** | **(107)** | **(19,659)** | **996,514** | **976,855** |
| Symudiad yn y cronfeydd wrth gefn yn ystod 2023/24 | | | | | | | | | |
| (Gwarged) neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | 30,801 | 0 | 30,801 | 0 | 0 | 30,801 | 0 | **30,801** |
| Incwm a gwariant cynhwysfawr arall | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (52,672) | **(52,672)** |
| **Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr** | | **30,801** | **0** | **30,801** | **0** | **0** | **30,801** | **(52,672)** | **(21,871)** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail ariannu o dan reoliadau | **9** | (32,584) | 0 | (32,584) | 0 | 0 | (32,584) | 32,584 | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad net cyn trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd** | | **(1,783)** | **0** | **(1,783)** | **0** | **0** | **(1,783)** | **(20,088)** | **(21,871)** |
| Trosglwyddiadau net (i)/o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd | **10** | 1,133 | (1,133) | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2023/24** | | **(650)** | **(1,133)** | **(1,783)** | **0** | **0** | **(1,783)** | **(20,088)** | **(21,871)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **(5,512)** | **(15,823)** | **(21,335)** | **0** | **(107)** | **(21,442)** | **976,426** | **954,984** |

| **Blwyddyn Ariannol 2022/23** | **Nodyn: Cyf** | **Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a Glustnodwyd £'000** | **Cyfanswm Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn £'000** | **Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso £'000** | **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu Defnyddio £'000** | **Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £'000** | **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | **(4,032)** | **(14,821)** | **(18,853)** | **0** | **(107)** | **(18,960)** | **1,630,741** | **1,611,781** |
| Symudiad yn y cronfeydd wrth gefn yn ystod 2022/23 | | | | | | | | | |
| (Gwarged) neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | 57,206 | 0 | 57,206 | 0 | 0 | 57,206 | 0 | **57,206** |
| Incwm a gwariant cynhwysfawr arall | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (692,132) | **(692,132)** |
| **Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr** | | **57,206** | **0** | **57,206** | **0** | **0** | **57,206** | **(692,132)** | **(634,926)** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail ariannu o dan reoliadau | **9** | (57,905) | 0 | (57,905) | 0 | 0 | (57,905) | 57,905 | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad net cyn trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd** | | **(699)** | **0** | **(699)** | **0** | **0** | **(699)** | **(634,227)** | **(634,926)** |
| Trosglwyddiadau net (i)/o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd | **10** | (131) | 131 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2022/23** | | **(830)** | **131** | **(699)** | **0** | **0** | **(699)** | **(634,227)** | **(634,926)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **(4,862)** | **(14,690)** | **(19,552)** | **0** | **(107)** | **(19,659)** | **996,514** | **976,855** |

# Mantolen

| Grŵp 2022/23 £'000 | Comisiynydd 2022/23 £'000 | | Nodiadau | Grŵp 2023/24 £'000 | Comisiynydd 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 80,348 | 80,348 | Eiddo, peiriannau ac offer | 14 | 96,458 | 96,458 |
| 0 | 0 | Asedau anniriaethol | 14 | 947 | 947 |
| 3,200 | 3,200 | Eiddo buddsoddi | 15 | 3,288 | 3,288 |
| 74 | 74 | Asedau dros ben | 14 | 54 | 54 |
| 18,205 | 18,205 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | 14 | 1,278 | 1,278 |
| **101,827** | **101,827** | **Asedau tymor hir** | | **102,025** | **102,025** |
| 0 | 0 | Buddsoddiadau tymor byr | 17 | 0 | 0 |
| 535 | 0 | Rhestrau eiddo | | 640 | 0 |
| 5 | 5 | Asedau a ddelir ar werth | 20 | 8 | 8 |
| 11,937 | 10,132 | Dyledwyr tymor byr | 18 | 15,936 | 14,238 |
| 5,731 | 5,731 | Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 19 | 11,258 | 11,258 |
| 0 | 2,340 | Trosglwyddo o fewn grŵp | | 0 | 2,338 |
| **18,208** | **18,208** | **Asedau cyfredol** | | **27,842** | **27,842** |
| (303) | (303) | Benthyca tymor byr | 17 | (10,386) | (10,386) |
| (18,974) | (1,180) | Credydwyr tymor byr | 21 | (17,487) | (440) |
| (1,588) | (1,588) | Darpariaethau tymor byr | 22 | (2,081) | (2,081) |
| 0 | (17,794) | Trosglwyddo o fewn grŵp | | 0 | (17,047) |
| **(20,865)** | **(20,865)** | **Rhwymedigaethau cyfredol** | | **(29,954)** | **(29,954)** |
| (684) | (684) | Benthyca tymor hir | 17 | (358) | (358) |
| (1,073,421) | (1,073,421) | Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 37 | (1,053,173) | (1,053,173) |
| (1,920) | (1,920) | Darpariaethau tymor hir | 22 | (1,366) | (1,366) |
| **(1,076,025)** | **(1,076,025)** | **Rhwymedigaethau tymor hir** | | **(1,054,897)** | **(1,054,897)** |
| **(976,855)** | **(976,855)** | **(Rhwymedigaethau)/asedau net** | | **(954,984)** | **(954,984)** |
| (19,659) | (19,659) | Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio | **Datganiad Symudiad Mewn Cronfeydd Wrth Gefn** | (21,442) | (21,442) |
| 996,514 | 996,514 | Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio | 23 | 976,426 | 976,426 |
| **976,855** | **976,855** | **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn** | | **954,984** | **954,984** |

# Datganiad Llif Arian

| Grŵp 2022/23 £'000 | Comisiynydd 2022/23 £'000 | | Nodiadau | Grŵp 2023/24 £'000 | Comisiynydd 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **57,206** | **57,206** | **(Gwarged) neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau** | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **30,801** | **30,801** |
| (61,397) | (61,397) | Addasiadau i warged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod | 24 | (35,049) | (35,049) |
| 6,317 | 6,317 | Addasiadau ar gyfer eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu | 24 | (2,123) | (2,123) |
| **2,126** | **2,126** | **Llif arian net o weithgareddau gweithredu** | **24** | **(6,371)** | **(6,371)** |
| 7,186 | 7,186 | Gweithgareddau buddsoddi | 25 | 7,042 | 7,042 |
| (5,300) | (5,300) | Gweithgareddau ariannu | 26 | (6,198) | (6,198) |
| **4,012** | **4,012** | **(Cynnydd) neu ostyngiad net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | **19** | **(5,527)** | **(5,527)** |
| 9,743 | 9,743 | Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 19 | 5,731 | 5,731 |
| **5,731** | **5,731** | **Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | **19** | **11,258** | **11,258** |

# Cronfa Bensiwn yr Heddlu

| Grŵp 2022/23 £'000 | Comisiynydd 2022/23 £'000 | Cyfrif cronfa | Grŵp 2023/24 £'000 | Comisiynydd 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyfraniadau derbyniadwy | | |
| (15,058) | 0 | Cyfraniadau cyflogwr | (16,399) | 0 |
| (905) | 0 | Incwm arall (cyfraniadau salwch cyflogwyr) * | 281 | 0 |
| (6,469) | 0 | Cyfraniadau swyddogion | (7,084) | 0 |
| **(22,432)** | **0** | **Cyfraniadau derbyniadwy** | **(23,202)** | **0** |
| **(708)** | **0** | **Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill** | **(528)** | **0** |
| | | Buddion sy'n daladwy | | |
| 31,547 | 0 | Pensiynau | 35,395 | 0 |
| 7,523 | 0 | Cyfnewidiadau a buddion ymddeol ar ffurf cyfandaliadau * | 5,640 | 0 |
| **39,070** | **0** | **Buddion sy'n daladwy** | **41,035** | **0** |
| | | Taliadau i'r rhai sy'n gadael ac ar gyfrif y rhai sy'n gadael | | |
| 40 | 0 | Ad-daliadau cyfraniadau | 53 | 0 |
| 480 | 0 | Taliadau treth cynllun yn talu ** | (41) | 0 |
| **520** | **0** | **Taliadau i'r rhai sy'n gadael ac ar gyfrif y rhai sy'n gadael** | **12** | **0** |
| **16,450** | **0** | **Swm net sy'n daladwy am y flwyddyn** | **17,317** | **0** |
| (16,450) | (16,450) | Cyfraniad ychwanegol o gronfa'r heddlu (yn ymwneud â grant y Swyddfa Gartref) | (17,317) | (17,317) |
| | 16,450 | Trosglwyddo o fewn grŵp | | 17,317 |
| **0** | **0** | **Cyfanswm** | **0** | **0** |

* O ran *'Incwm arall (cyfraniadau salwch cyflogwyr)'*, a *'Cyfnewidiadau a buddion ymddeol ar ffurf cyfandaliadau'*, roedd cofnodion cyfrifyddu yn ymwneud â 2022/23 na chawsant eu gweithredu tan 2023/24.Mae hyn wedi arwain at orddatgan y ffigurau yn 2022/23 a'u tanddatgan yn 2023/24. Yn 2023/24, mae'r tanddatganiad yn erbyn *'Incwm arall (cyfraniadau salwch cyflogwyr)'* wedi arwain at y ffigur yn dod yn ddebyd (yn lle credyd).

Mae'r cofnodion uchod yn negyddu i ddim, felly, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, nid yw'r addasiadau wedi effeithio ar y '*Cyfraniad ychwanegol o gronfa'r heddlu (yn ymwneud â grant y Swyddfa Gartref*)'.

** O ran *'Taliadau treth cynllun yn talu',* roedd cofnod cyfrifyddu yn ymwneud â 2022/23 na chafodd ei weithredu tan 2023/24. Mae hyn wedi arwain at orddatgan y ffigur ar gyfer *'Taliadau treth cynllun yn talu'* yn 2022/23 a'i danddatgan yn 2023/24. Yn 2023/24, mae'r tanddatganiad wedi arwain at y ffigur yn dod yn gredyd (yn hytrach na debyd).

Mae'r addasiad hwn hefyd wedi arwain at y '*Cyfraniad ychwanegol o gronfa'r heddlu'* (*yn ymwneud â grant y Swyddfa Gartref)'* yn cael ei orddatgan yn 2022/23, gyda thanddatganiad cyfatebol yn 2023/24.

| Grŵp 2022/23 £'000 | Comisiynydd 2022/23 £'000 | Datganiad asedau net | Grŵp 2023/24 £'000 | Comisiynydd 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | | Asedau cyfredol | | |
| 1,215 | 0 | Dyledwr – balansau net sy'n ddyledus gan gronfa'r heddlu | 255 | 0 |
| **1,215** | **0** | **Asedau cyfredol** | **255** | **0** |
| | | Rhwymedigaethau cyfredol | | |
| (1,215) | 0 | Credydwyr – buddion sy'n daladwy i swyddogion sy'n ymddeol ddiwedd mis Mawrth a dalwyd ym mis Ebrill | (255) | 0 |
| **(1,215)** | **0** | **Rhwymedigaethau cyfredol** | **(255)** | **0** |
| **0** | **0** | **Asedau net** | **0** | **0** |

**Nodiadau i gyfrifon cronfa bensiwn yr heddlu**

- Mae'r polisïau cyfrifyddu a ddilynwyd, a'r tybiaethau a wnaed ynghylch cyfrif pensiynau'r heddlu, yn unol â'r rhai a nodir yn Nodyn 1 – Polisïau Cyfrifo;
- Gweinyddir cynllun pensiwn yr heddlu gan Gyngor Sir Caerfyrddin o dan gytundeb lefel gwasanaeth;
- Nid oes unrhyw asedau buddsoddi yn y gronfa. Mae'r taliadau i mewn i'r gronfa bensiwn ac allan ohoni yn cael eu mantoli i ddim bob blwyddyn trwy gael cyfraniadau ychwanegol o Gronfa Gyffredinol yr Heddlu, sydd yn ei dro yn cael ei ad-dalu gan grant penodol gan y Swyddfa Gartref (grant atodol).Derbynnir y grant hwn gan y comisiynydd a'i drosglwyddo i'r prif gwnstabl ar ffurf trosglwyddiad o fewn grŵp;
- Nid yw datganiadau ariannol y gronfa bensiwn yn ystyried rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol ar ôl 31 Mawrth 2024. Fodd bynnag, cyflwynir y rhain ar y Fantolen o dan 'Rhwymedigaethau tymor hir eraill', gyda datgeliadau manwl yn Nodyn 37 – Cynlluniau Pensiwn â Buddion Diffiniedig.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Polisïau cyfrifyddu

### Egwyddorion cyffredinol

Mae'r datganiad cyfrifon yn crynhoi trafodion y grŵp ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2024. Mae'n ofynnol i'r comisiynydd baratoi datganiad o gyfrifon blynyddol ar gyfer ei hun a'r grŵp gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'u diwygiwyd, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arfer hwn yn cynnwys yn bennaf y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023/24, a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y datganiad o gyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, wedi'i addasu drwy ailbrisio rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

### Addasiadau cyfnod blaenorol, newidiadau mewn polisïau cyfrifo ac amcangyfrifon a gwallau

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwall perthnasol. Rhoddir cyfrif am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol, hy, yn y flwyddyn gyfredol ac yn y dyfodol y bydd y newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.
Ni wneir newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu oni bai bod hynny'n ofynnol gan arferion cyfrifyddu priodol neu lle mae'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau ac amodau eraill ar y sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y grŵp.Lle gwneir newid, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi'i gymhwyso erioed.

Mae gwallau sylweddol a ddarganfyddir yn ffigurau cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol trwy ddiwygio'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

### Croniadau incwm a gwariant

Rhoddir cyfrif am weithgaredd yn y flwyddyn y mae'n digwydd, nid yn unig pan wneir taliadau arian parod.Yn benodol:

- Caiff refeniw o werthu nwyddau ei gydnabod pan fydd y grŵp yn trosglwyddo risgiau a gwobrau sylweddol perchnogaeth i'r prynwr ac mae'n debygol y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r grŵp.
- Caiff refeniw o ddarparu gwasanaethau ei gydnabod pan fydd y grŵp yn gallu mesur yn ddibynadwy ganran cwblhau'r trafodiad a'i bod yn debygol y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r grŵp.
- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio – lle mae bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a'r dyddiad y'u defnyddir, cânt eu cario fel rhestrau eiddo ar y fantolen.
- Mae treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a dderbynnir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir taliadau.
- Mae llog y gellir ei dderbyn ar fuddsoddiadau ac yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrif fel incwm a gwariant ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llif arian a bennir gan y contract.
- Lle mae refeniw a gwariant wedi'u cydnabod ond nad oes arian parod wedi'i dderbyn na'i dalu, mae dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y fantolen. Lle mae'n bosibl na fydd dyledion yn cael eu talu, caiff balans y dyledwyr ei nodi a chodir tâl ar refeniw am yr incwm na fydd o bosibl yn cael ei gasglu.

### Gorbenion a gwasanaethau cymorth

Codir costau gorbenion a gwasanaethau cymorth ar segmentau gwasanaeth yn unol â threfniadau'r grŵp ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

**Eitemau eithriadol**

Pan fo eitemau incwm a gwariant yn berthnasol, datgelir eu natur a'u swm ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn dibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol y grŵp.

**Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiad o gyfrifon. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- Y rhai sy'n darparu tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r datganiad o gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- Y rhai sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r datganiad o gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith sylweddol, datgelir yn y nodiadau natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig.

Nid yw digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad awdurdodi cyhoeddi yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiad o gyfrifon.

**Eiddo, peiriannau ac offer**

Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella eiddo, peiriannau ac offer yn cael ei gyfalafu ar sail croniadau. Mae gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i ddarparu buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol (hy gwaith atgyweirio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul pan eir iddo.

Mae gwariant sy'n is na lefel de minimis o £6,000 yr eitem yn cael ei drin fel refeniw a'i godi pan eir iddo.

Mae asedau'n cael eu mesur i ddechrau ar gost ac yna'n cael eu cario yn y fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- Tir – gwerth teg;
- Asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol;
- Adeiladau gweithredol – gwerth teg.Asedau anarbenigol – gwerth defnydd presennol, asedau arbenigol – cost adnewyddu wedi'i dibrisio;
- Asedau dros ben – gwerth teg – a adolygir yn flynyddol;
- Asedau a ddelir i'w gwerthu – gwerth teg – a adolygir yn flynyddol;
- Eiddo buddsoddi – gwerth teg – a adolygir yn flynyddol;
- Pob ased gwerth teg arall – yn cael ei ailbrisio bob pedair blynedd ac wedi'i bennu fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol;
- Cerbydau, offer a dodrefn – cost hanesyddol.

Caiff cynnydd mewn prisiadau eu cyfateb gan gredydau i'r gronfa ailbrisio wrth gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Mae'r gronfa ailbrisio wrth gefn yn cynnwys enillion ailbrisio a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef dyddiad ei gweithredu'n ffurfiol. Mae enillion sy'n codi cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cyfuno yn y cyfrif addasu cyfalaf.

Asesir asedau ar ddiwedd pob blwyddyn i weld a oes unrhyw arwydd y gallai fod amhariad ar ased.Lle mae arwyddion yn bodoli ac amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn sylweddol, amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a, lle mae hyn yn llai na swm cario ymlaen yr ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Lle nodir colledion amhariad, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- Lle mae balans o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio wrth gefn, mae swm cario ymlaen yr ased yn cael ei leihau yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig).
- Lle nad oes balans yn y gronfa ailbrisio wrth gefn neu falans annigonol, mae swm cario ymlaen yr ased yn cael ei leihau yn erbyn y llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

<u>Dibrisiant</u>

Darperir ar gyfer dibrisiant ar yr holl asedau eiddo, peiriannau ac offer trwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol ar sail llinell syth. Mae bywydau economaidd defnyddiol asedau a'u gwerthoedd gweddilliol wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

| Categori Asedau | Bywyd Economaidd Defnyddiol | Gwerth Gweddilliol |
|---|---|---|
| Eiddo | | |
| Tir | Dim dibrisiant | Dim dibrisiant |
| Adeiladau gweithredol | 10-155 mlynedd | Dim |
| Eiddo buddsoddi | Dim dibrisiant | Dim dibrisiant |
| Asedau dros ben | 10-155 mlynedd | Dim |
| Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Dim dibrisiant | Dim dibrisiant |
| Asedau a ddelir ar werth | Dim dibrisiant | Dim dibrisiant |
| Badau | | |
| Bad 1 – Corff | 32 mlynedd | Dim |
| Bad 2 – Injan | 12 mlynedd | Dim |
| Bad 2 | 10 mlynedd | Dim |
| Cerbydau | | |
| Ymateb cyflym | 3 blynedd | Dim |
| Arall | 3-5 mlynedd | Dim |
| Cyfarpar | | |
| Cyfrifiadur ac offer arall | 5 mlynedd | Dim |
| Asedau anniriaethol | | |
| Arall | 3-5 mlynedd | Dim |

Pan fydd gan eitem o eiddo, peiriannau ac offer gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn perthynas â chyfanswm cost yr eitem, caiff y cydrannau eu dibrisio ar wahân.

Mae'r grŵp wedi cymhwyso'r terfynau de minimis canlynol, ac nid yw'r gydran wedi'i mesur ar wahân os ydyw islaw hynny:

| Oes y gydran (blynyddoedd) | 0-10 | 10-15 | 15-20 | 20-30 | 30-40 | Dros 40 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| De minimis (£'000) | 50 | 100 | 200 | 300 | 750 | 1,000 |

Mae enillion ailbrisio hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth cyfredol a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi'i godi ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r cyfrif addasu cyfalaf.

<u>Asedau dros ben</u>

Asedau dros ben yw'r rhai nad ydynt yn cael eu defnyddio'n weithredol yn y busnes (fel eiddo gwag) ac na ellir eu dosbarthu fel "asedau a ddelir i'w gwerthu".Bydd asedau dros ben yn cael eu mesur ar werth teg ar bob dyddiad adrodd, yn seiliedig ar y swm y gellid cyfnewid yr ased rhwng partïon gwybodus hyd braich. Mae enillion a cholledion ar ailbrisio yn cael eu postio i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.Defnyddir yr un driniaeth i enillion a cholledion wrth waredu.

<u>Gwarediadau ac Asedau a Ddelir i'w Gwerthu</u>

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cario ymlaen ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy barhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu fel ased a ddelir i'w werthu.Caiff yr ased ei ailbrisio yn union cyn ei ailddosbarthu ac yna ei gario ar y swm sydd isaf a gwerth teg namyn costau gwerthu.Lle mae gostyngiad dilynol i werth teg namyn costau gwerthu, caiff y golled ei phostio i'r llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Dim ond hyd at swm unrhyw golledion blaenorol a gydnabuwyd yn y gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg.Ni chodir dibrisiant ar asedau a ddelir i'w gwerthu.

Mae symiau a dderbynnir ar gyfer gwaredu unrhyw ased dros £10,000 yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf. Mae angen credydu balans y derbyniadau i'r gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn, a dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y gellir ei ddefnyddio (neu ei osod o'r neilltu i leihau angen sylfaenol y grŵp i fenthyca – y cyllid cyfalaf angenrheidiol).

### Taliadau i Refeniw ar gyfer Asedau Anghyfredol

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei ddebydu â'r symiau canlynol i gofnodi'r gost o ddal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn:

- Dibrisiant y gellir ei briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol.
- Colledion ailbrisio ac amhariad ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y gronfa ailbrisio wrth gefn y gellir dileu'r colledion yn eu herbyn.

### Eiddo buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r eiddo a ddefnyddir i ennill rhent a/neu arbrisiant cyfalaf yn unig. Mae eiddo buddsoddi yn cael ei fesur i ddechrau ar gost ac yna ar werth teg, yn seiliedig ar y swm y gellid cyfnewid yr ased rhwng partïon gwybodus hyd braich. Mae enillion a cholledion ar ailbrisio yn cael

eu postio i’r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.Defnyddir yr un driniaeth i enillion a cholledion wrth waredu.

**Cyfrifyddu ar gyfer cyfraniad blynyddol o refeniw**

Nid yw’n ofynnol i’r grŵp godi’r dreth gyngor i ariannu colledion dibrisiant, ailbrisio a lleihad mewn gwerth neu amorteiddiadau.Fodd bynnag, mae’n ofynnol iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at y gostyngiad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol.Felly mae dibrisiant, ailbrisiad a cholledion amhariad ac amorteiddiad yn cael eu disodli gan y cyfraniad ym malans y gronfa gyffredinol trwy addasu trafodiadau gyda’r cyfrif addasu cyfalaf yn y Datganiad Symudiad Mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

**Asedau anniriaethol**

Mae gwariant ar asedau anariannol nad oes iddynt sylwedd ffisegol ond a reolir gan y grŵp o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol (ee trwyddedau meddalwedd) yn cael ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol yn llifo o’r ased anniriaethol i’r grŵp.

Mae asedau anniriaethol yn cael eu mesur i ddechrau ar gost.Dim ond pan fydd modd pennu gwerth teg yr asedau a ddelir gan y grŵp drwy gyfeirio at farchnad weithredol y caiff symiau eu hailbrisio.Yn ymarferol, nid oes unrhyw ased anniriaethol a ddelir gan y grŵp yn bodloni’r maen prawf hwn, ac felly cânt eu cario ar gost wedi’i hamorteiddio.

**Isafswm darpariaeth refeniw**

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i’r comisiynydd neilltuo swm o refeniw bob blwyddyn i ddarparu ar gyfer ad-dalu dyled.Gelwir hyn yn isafswm darpariaeth refeniw. Mae’r isafswm darpariaeth refeniw yn cael ei fesur gan yr angen sylfaenol i fenthyca yn hytrach na’r ddyled wirioneddol. Mae’n ofynnol i gomisiynwyr baratoi datganiad blynyddol o’u polisi ar wneud isafswm darpariaeth refeniw yn unol â chanllawiau statudol a dylid ei gyfrifo ar sail ddarbodus. Mae’r polisi ar gyfer 2023/24 yn cynnwys:

**DATGANIAD O’R ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW BLYNYDDOL**

Mae’r polisi canlynol wedi’i osod gan y comisiynydd mewn perthynas â isafswm darpariaeth refeniw ar gyfer 2023/24.

**Benthyca Darbodus - Dull Dibrisiant**

Mae isafswm darpariaeth refeniw i fod yn gyfartal â’r ddarpariaeth sy’n ofynnol yn unol â chyfrifyddu dibrisiant mewn perthynas â’r ased y mae gwariant wedi’i ariannu arno gan fenthyca darbodus neu drefniadau credyd digymorth. Mae hyn yn adlewyrchu oes ddefnyddiol yr ased a amcangyfrifwyd yn hanner can mlynedd mewn perthynas ag asedau ystadau, deng mlynedd mewn perthynas ag asedau seilwaith TG (ee, ystafell reoli, system rheoli cofnodion) a phum mlynedd ar gyfer asedau TG eraill.

(a) Bydd isafswm darpariaeth refeniw yn parhau i gael ei wneud yn flynyddol hyd nes bod swm cronnus darpariaeth o’r fath yn hafal i’r gwariant a ariannwyd yn wreiddiol.

(b) Wrth waredu’r ased, ni fydd swm y derbyniad cyfalaf yn cael ei gymryd i’r cyfrif refeniw a bydd y comisiynydd yn cydymffurfio â gofynion arferol Deddf 2003 ar ddefnyddio derbyniadau cyfalaf.

(c) Lle mae canran y gwariant ar yr ased a gyllidir gan fenthyca darbodus neu drefniadau credyd digymorth yn llai na 100%, bydd isafswm darpariaeth refeniw yn hafal i'r un ganran o'r ddarpariaeth sy'n ofynnol o dan gyfrifo dibrisiant.

**Offerynnau ariannol**

Rhwymedigaethau ariannol

Caiff y rhain eu mesur i ddechrau ar werth teg a chânt eu cario yn ôl eu cost wedi’i hamorteiddio. Mae taliadau blynyddol i’r datganiad incwm a gwariant ar gyfer llog taladwy yn seiliedig ar swm cario ymlaen y rhwymedigaeth, wedi’i luosi â’r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn.Y swm a gyflwynir yn y fantolen yw'r prifswm sy'n weddill ynghyd â llog cronedig.

Asedau ariannol

Caiff benthyciadau a symiau derbyniadwy eu mesur i ddechrau ar werth teg a'u cario yn ôl eu cost wedi’i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r datganiad incwm a gwariant ar gyfer llog y gellir ei dderbyn yn seiliedig ar swm cario ymlaen yr ased wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn.Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau y mae'r grŵp wedi'u gwneud, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y fantolen yw'r prif swm sy'n ddyledus ynghyd â llog cronedig.

Trosi arian tramor

Lle bo’r grŵp wedi ymrwymo i drafodiad yn defnyddio arian tramor, caiff y trafodiad ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid sy’n gymwys ar y dyddiad y daeth y trafodiad i rym.

**Rhestrau eiddo**

Cynhwysir rhestrau eiddo yn y fantolen yn ôl pris cost cyfredol. Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 2 yn nodi y dylid mesur rhestrau eiddo yn ôl y gost isaf a'r gwerth realeiddiadwy net. Nid yw'r polisi felly yn cydymffurfio ag IAS 2, ond nid yw'r gwahaniaeth yn sylweddol.

**Arian parod a chyfwerth ag arian parod**

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb o roi rhybudd o ddim mwy na 24 awr.

Mae symiau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau hynod hylifol sy’n aeddfedu mewn tri mis neu lai o’r dyddiad caffael ac sy’n hawdd eu trosi’n symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth.

**Darpariaethau ac atebolrwydd dibynnol**

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi digwydd sy’n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i’r grŵp sy’n fwy na thebyg yn gofyn am setliad trwy drosglwyddo buddion economaidd neu botensial gwasanaeth, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Mae atebolrwydd dibynnol yn codi lle mae digwyddiad wedi digwydd sy’n rhoi rhwymedigaeth bosibl i’r grŵp y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y grŵp. Mae atebolrwydd dibynnol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen llif o adnoddau allan neu ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Nid yw atebolrwydd dibynnol yn cael ei gydnabod yn y fantolen ond yn cael ei ddatgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

**Cronfeydd wrth gefn**

Mae symiau a neilltuwyd at ddibenion nad ydynt yn perthyn i'r diffiniad o ddarpariaethau yn cael eu hystyried yn gronfeydd wrth gefn. Mae cronfeydd refeniw wrth gefn ar gael i ariannu gwariant.Nid yw rhai cronfeydd cyfalaf wrth gefn a grëwyd o ganlyniad i’r cynllun cyfrifyddu cyfalaf ar gael i dalu am wariant cyfredol ac maent yn cynnwys y canlynol:

- Cronfa ailbrisio wrth gefn sy'n cofnodi'r enillion cronedig ar yr asedau sefydlog a ddelir gan y grŵp sy'n deillio o gynnydd mewn gwerth, i'r graddau nad yw'r enillion hyn wedi'u defnyddio gan symudiadau dilynol tuag i lawr mewn gwerth;
- Cyfrif addasu cyfalaf, sy’n darparu mecanwaith mantoli rhwng y gwahanol gyfraddau y caiff asedau eu dibrisio yn unol â nhw a’u hariannu drwy’r system rheolaethau cyfalaf, drwy gronni:
  - Ar yr ochr ddebyd – lleihad mewn cost hanesyddol asedau sefydlog wrth iddynt gael eu defnyddio gan ddibrisiant ac amhariadau neu eu dileu wrth eu gwaredu;
  - Ar yr ochr credyd – yr adnoddau sydd wedi eu neilltuo i ariannu gwariant cyfalaf.

**Trefniadau ar y cyd - Cyfrifyddu am gyfuno trefniadau ar y cyd**

Lle mae’r comisiynydd neu’r prif gwnstabl wedi ymrwymo i drefniadau cydweithredol gyda chomisiynwyr a phrif gwnstabliaid eraill, mae asesiad wedi’i wneud yn erbyn cyd-drefniant IFRS 11 i bennu’r driniaeth gyfrifyddu briodol. Mae IFRS 11 yn ei gwneud yn ofynnol i bob trefniant o’r fath gael ei ddosbarthu naill ai fel mentrau ar y cyd neu weithrediadau ar y cyd. Mae pob trefniant o’r

fath yn cael ei ddosbarthu fel gweithrediadau ar y cyd lle mae gan y comisiynydd neu’r prif gwnstabl hawl i’w cyfran deg o asedau a rhwymedigaethau’r cydweithrediad.

Ceir rhagor o fanylion o dan y nodyn Trefniadau Cydweithredol.

**Buddion i weithwyr**

Buddion taladwy yn ystod cyflogaeth

Buddion tymor byr cyflogeion yw’r rhai sydd i’w setlo o fewn deuddeg mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl, bonysau a buddion anariannol (ee ceir) i weithwyr presennol ac fe'u cydnabyddir fel traul am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn rhoi gwasanaeth. Gwneir croniad ar gyfer cost hawliau gwyliau (gan gynnwys amser o’r gwaith yn lle tâl a gwyliau hyblyg) a enillwyd gan weithwyr ond nas cymerwyd cyn diwedd y flwyddyn, y gall gweithwyr eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad ar gyfraddau cyflog sy’n gymwys yn y flwyddyn gyfrifo ganlynol, sef y cyfnod y mae’r gweithiwr yn cymryd y buddiant ynddo. Mae'r croniad yn cael ei godi ar warged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau, ond yna'n cael ei wrthdroi trwy'r datganiad symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn fel bod buddion gwyliau yn cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau yn digwydd ynddi.

Buddion terfynu

Mae buddion terfynu yn symiau sy’n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y comisiynydd a’r prif gwnstabl i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol.

Lle mae buddion terfynu yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i falans y gronfa gyffredinol gael ei godi gyda’r swm sy’n daladwy gan y grŵp i’r gronfa bensiwn neu bensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â’r safonau cyfrifo perthnasol. Yn y datganiad symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn, mae angen dyraniadau i’r gronfa bensiwn ac ohoni i ddileu’r debydau a’r credydau tybiannol ar gyfer buddion terfynu pensiwn a rhoi debydau yn eu lle am yr arian a dalwyd i’r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o’r fath sy’n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddion ôl-gyflogaeth

Mae gan swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu yr opsiwn o berthyn i un o ddau gynllun pensiwn ar wahân sy’n berthnasol iddynt:

- Cynllun pensiwn swyddogion yr heddlu, a weinyddir drwy gronfa bensiwn yr heddlu.
- Cynllun pensiynau llywodraeth leol a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae’r ddau gynllun yn darparu buddion wedi’u diffinio i aelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd wrth i weithwyr weithio i’r grŵp.

Mae’r cynllun pensiwn hwn i swyddogion yr heddlu “heb ei ariannu” sy’n golygu na chaiff unrhyw asedau buddsoddi eu cronni i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol, ac felly nid oes unrhyw ddarpariaeth i fodloni’r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol wedi’i chynnwys yn y fantolen. Mae rhwymedigaethau’r cynllun llywodraeth leol sydd i’w priodoli i’r grŵp yn cael eu cynnwys yn y fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio’r dull rhagamcanu unedau – hy asesiad o’r taliadau yn y dyfodol a wneir mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant gweithwyr ac ati a rhagamcaniadau o enillion ar gyfer gweithwyr presennol.

Buddion yn ôl disgresiwn

Mae gan y comisiynydd a'r prif gwnstabl hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau yn ôl disgresiwn o fuddion ymddeol yn achos ymddeoliadau cynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod yn codi o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o staff yn cael eu cronni ym mlwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad a chyfrifir amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**Grantiau a chyfraniadau'r llywodraeth**

P'un a ydynt yn cael eu talu ar gyfrif, mewn rhandaliadau neu mewn ôl-daliadau, cydnabyddir grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r grŵp pan fo sicrwydd rhesymol:

- Bydd y grŵp yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth y taliadau;
- Bydd y grantiau neu'r cyfraniadau yn cael eu derbyn.

Mae arian a roddwyd ymlaen llaw fel grantiau a chyfraniadau nad yw amodau wedi'u bodloni ar eu cyfer yn cael eu cario yn y fantolen fel credydwyr.Pan fodlonir amodau, mae'r grant neu gyfraniad yn cael ei gredydu i'r gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw y gellir eu priodoli) neu drethiant ac incwm grant amhenodol (grantiau refeniw heb eu clustnodi a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle mae grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi allan o falans y gronfa gyffredinol yn y Datganiad Symudiad Mewn Cronfeydd Wrth Gefn.Lle nad yw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei bostio i'r gronfa grantiau cyfalaf wrth gefn heb eu cymhwyso.Lle mae wedi'i gymhwyso, caiff ei bostio i'r cyfrif addasu cyfalaf.Trosglwyddir symiau yn y gronfa grantiau cyfalaf wrth gefn heb eu cymhwyso i'r cyfrif addasu cyfalaf unwaith y byddant wedi'u cymhwyso i ariannu gwariant cyfalaf.

**Prydlesau**

Codir costau ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros oes y brydles.

**Treth ar werth (TAW)**

Mae TAW sy'n daladwy wedi'i chynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad yw'r grŵp yn gallu ei hadennill oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Nid yw'r TAW sy'n dderbyniadwy wedi'i gynnwys mewn incwm.

## 2. Addasiadau cyfnod blaenorol

**Grantiau ac incwm arall**

Derbyniwyd incwm grant yn 2022/23 lle'r oedd heddluoedd eraill yn gyfrifol am goladu'r hawliadau grant a thynnu cyllid i lawr gan y corff perthnasol. Ar ôl ei dderbyn, anfonwyd y swm priodol o arian at Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

Yn natganiad incwm a gwariant cynhwysfawr y comisiynydd, ac yn '*Nodyn 31 – Grantiau ac Incwm Arall*', mae grantiau o'r fath wedi'u categoreiddio'n flaenorol fel 'Cyfraniadau gan gyrff cyhoeddus eraill' yn hytrach na 'Grantiau refeniw'. Fodd bynnag, oherwydd gwerth uchel rhai o'r grantiau hyn

yn y blynyddoedd diwethaf, ac i roi mwy o eglurder i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon, ystyrir ei bod bellach yn fwy priodol cydnabod yr incwm hwn fel 'Incwm grant' yn hytrach na 'Chyfraniadau'.

Mae Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y comisiynydd a '*Nodyn 31 – Grantiau ac Incwm Arall*' wedi'u hailddatgan ar gyfer 2022/23 er mwyn adlewyrchu'r newidiadau fel a ganlyn:

| | 2022/23<br>£'000 | 2022/23 Ailddatganwyd<br>£'000 | Addasiad<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Credyd i wasanaethau | | | |
| *Grantiau refeniw* | | | |
| Grant Rhaglen Data Gorfodi'r Gyfraith Cenedlaethol (LEDS) | 0 | (13) | (13) |
| Grant Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona | 0 | (337) | (337) |
| Grant Dyletswydd Trais Difrifol | 0 | (13) | (13) |
| Seiberdroseddu Arbenigol - Grant Opsiwn 3 | 0 | (118) | (118) |
| Grantiau refeniw eraill | (96) | (94) | 2 |
| **Grantiau wedi'u credydu i wasanaethau** | **(96)** | **(575)** | **(479)** |

| | 2022/23<br>£'000 | 2022/23 Ailddatganwyd<br>£'000 | Addasiad<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Credyd i wasanaethau | | | |
| *Incwm Arall* | | | |
| Cyfraniadau cyrff cyhoeddus eraill | (1,099) | (620) | 479 |
| **Incwm arall wedi'i gredydu i wasanaethau** | **(1,099)** | **(620)** | **479** |

## 3. Safonau cyfrifyddu wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto

Mae'r cod yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith newid cyfrifyddu a fydd yn ofynnol gan safon cyfrifyddu newydd sydd wedi'i chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto gan y cod. Y safonau a gyflwynwyd gan god 2024/25 lle mae angen datgeliadau yn natganiadau ariannol 2023/24,yn unol â gofynion paragraff 3.3.4.3 o'r cod, yw:

- *Prydlesau IFRS16* - a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 (ond dim ond ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny nad ydynt wedi penderfynu gweithredu IFRS 16 yn wirfoddol yn y flwyddyn 2023/24). Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn mabwysiadu IFRS 16 o 1 Ebrill 2024 (2024/25). Ni fydd gofyniad yn 2024/25 i ailddatgan ffigurau cymharol 2023/24 yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn a Nodiadau i'r Cyfrifon.

  IAS17 yw'r safon gyfrifo gyfredol ar gyfer prydlesau, sy'n cwmpasu'r driniaeth gyfrifo ar gyfer prydlesau gweithredu a chyllid. Bydd IFRS16 yn disodli IAS17. Ar gyfer pob trefniant sy'n bodloni diffiniad y cod; bydd contract, neu ran o gontract, sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased (yr

ased gwaelodol) am gyfnod o amser yn cael ei nodi fel prydles o dan safon gyfrifo newydd IFRS16.

Mae IFRS16 yn cydnabod y brydles fel ased â hawl i'w ddefnyddio a bydd yn gweld hynny'n cael ei symud i'r fantolen gyda rhwymedigaeth brydles gyfatebol. I bob pwrpas, nid yw cyfrifyddu lesydd wedi newid.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cynnal asesiad i nodi prydlesau sydd gan yr heddlu ar draws pob adran. Mae'r adolygiad wedi dod i'r casgliad na fydd gofynion y safon newydd yn cael effaith sylweddol ar yr wybodaeth a ddarperir yn y datganiadau ariannol pan gaiff ei mabwysiadu.

- *Dosbarthiad rhwymedigaethau fel cyfredol neu anghyfredol (diwygiadau i IAS1)* - cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020;
- *Atebolrwydd prydles mewn gwerthiant ac adles (diwygiadau i IFRS16)* - cyhoeddwyd ym mis Medi 2022;
- *Rhwymedigaethau anghyfredol gyda chyfamodau (diwygiadau i IAS1)* - cyhoeddwyd ym mis Hydref 2022;
- *Diwygio trethi rhyngwladol: Rheol model colofn dau (diwygiadau i IAS12)* - cyhoeddwyd ym mis Mai 2023;
- *Trefniadau cyllid cyflenwyr (diwygiadau i IAS7 ac IFRS7)* - cyhoeddwyd ym mis Mai 2023.

Rhagwelir na fydd y newidiadau uchod yn cael unrhyw effaith ar y datganiadau ariannol cyfredol. Wrth lunio'r datganiadau ariannol ar gyfer 2024/25, bydd effaith y newidiadau yn cael eu hailasesu ac os bydd angen, bydd y ffigurau cymharol yn cael eu hailddatgan.

## 4. Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu

Mae lefel uchel o ansicrwydd yn parhau ynghylch lefelau ariannu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn y dyfodol. Mae'r Swyddfa Gartref yn parhau â'u gwaith ar adolygiad fformiwla ariannu'r heddlu a ddefnyddir i ddyrannu adnoddau ymhlith cyrff plismona yng Nghymru a Lloegr, mae amserlenni'n parhau i fod yn aneglur, ac mae hyn yn parhau i fod yn risg. Bydd y materion hyn yn cymryd peth amser i grisialu o ran effaith leol a hefyd o fewn y dirwedd economaidd a gwleidyddol ehangach a chânt eu hadolygu a'u monitro fel rhan o waith parhaus ar y cynllun ariannol tymor canolig. Mae'r comisiynydd wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn wedi'i ddiffinio'n ddigonol eto i roi syniad p'un a allai amharu ar asedau, o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau, neu'r angen i leihau lefel y gwasanaeth a ddarperir.

## 5. Tybiaethau a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r datganiad cyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan y comisiynydd am y dyfodol, neu ffigurau sydd fel arall yn ansicr. Gwneir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill.Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau yn y fantolen ar 31 Mawrth 2024 y mae risg sylweddol y bydd angen addasiad perthnasol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol i ddod fel a ganlyn:

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os bydd canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i dybiaethau |
|---|---|---|
| **Eiddo, peiriannau ac offer** | Mae asedau'n cael eu dibrisio dros oes ddefnyddiol sy'n dibynnu ar ragdybiaethau ynghylch lefel y gwaith atgyweirio a chynnal a chadw a fydd yn digwydd mewn perthynas ag asedau unigol. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn ei gwneud yn ansicr y bydd y Comisiynydd yn gallu cynnal ei wariant presennol ar atgyweirio a chynnal a chadw, gan godi amheuaeth ynghylch yr oes ddefnyddiol a neilltuwyd i asedau. | Os caiff oes ddefnyddiol asedau ei lleihau, mae dibrisiant yn cynyddu a bydd swm cario'r asedau'n gostwng. |
| **Atebolrwydd pensiynau** | Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Cyflogir cwmni o actiwariaid ymgynghorol i ddarparu cyngor arbenigol ar y tybiaethau i'w cymhwyso. | Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar y rhwymedigaeth.Er enghraifft, byddai cynnydd o 0.25% yn y dyfarniad cyflog ar gyfer cynllun pensiwn swyddogion yr heddlu yn arwain at gynnydd yn atebolrwydd cronfa bensiwn yr heddlu o £1,053 miliwn i £1,064 miliwn. |

## 6. Eitemau sylweddol o incwm a gwariant

Mae'r canlynol wedi'u cynnwys fel eitemau eithriadol sylweddol, sydd wedi'u cynnwys ar wyneb Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y grŵp a'r comisiynydd.

Ailbrisio asedau anghyfredol

Cynhelir prisiadau tir ac adeiladau yn unol â'r methodolegau a'r seiliau amcangyfrif a nodir yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.Cynhaliwyd ailbrisiad llawn o'r holl dir ac adeiladau yn 2021/22 a 2022/23.O 2023/24 ymlaen mae'r prisiad yn seiliedig ar raglen dreigl pedair blynedd.

Mae'r cofnodion cyfrifyddu mewn perthynas â'r ailbrisiadau fel a ganlyn:

| 2022/23 £'000 | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 1,055 | Cost gwasanaethau | 2,726 |
| (170) | Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi | (261) |
| (5,762) | Incwm a gwariant cynhwysfawr arall | (1,877) |
| | **Mantolen** | |
| 4,701 | Eiddo, peiriannau ac offer | (830) |
| 170 | Eiddo buddsoddi | 261 |
| 5 | Asedau dros ben | (19) |
| 0 | Asedau a ddelir ar werth | 0 |
| 886 | Cyfrif addasu cyfalaf | 2,465 |
| (5,762) | Cronfa ailbrisio wrth gefn | (1,877) |

## 7. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Awdurdodwyd y datganiad cyfrifon drafft i'w gyhoeddi gan y prif swyddog ariannol ar 28 Mehefin 2024. .

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd i'w hadrodd.

## 8. Nodyn i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid

Mae'r nodyn a ganlyn yn cyflwyno rhagor o fanylion i gefnogi'r dadansoddiad o wariant a chyllid ac yn darparu cysoniad o'r prif addasiadau i wariant net sy'n daladwy i'r gronfa gyffredinol i gyrraedd y symiau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r trosglwyddiadau perthnasol rhwng cronfeydd wrth gefn yn cael eu hesbonio yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

**2023/24**

| Addasiadau O'r Gronfa Gyffredinol er mwyn cyrraedd y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf (Colofn A) £'000 | Newid net ar gyfer yr Addasiadau Pensiynau (Colofn B) £'000 | Gwahaniaethau Eraill (Colofn C) £'000 | Cyfanswm Addasiadau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Tâl a phensiynau swyddogion heddlu | 0 | (2,335) | (1,212) | **(3,547)** |
| Cyflogau staff yr heddlu | 0 | 142 | (199) | **(57)** |
| Costau eraill sy'n gysylltiedig â gweithwyr | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Costau adeiladau | 0 | 0 | (411) | **(411)** |
| Costau trafnidiaeth | 0 | 0 | (5) | **(5)** |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 0 | 0 | 44 | **44** |
| Gwasanaethau asiantaeth a chontract | 0 | 0 | 750 | **750** |
| Costau ariannu cyfalaf | 413 | 0 | 0 | **413** |
| Grantiau | 0 | 0 | 204 | **204** |
| Incwm arall | 0 | 0 | 459 | **459** |
| Eitemau eithriadol – ailbrisio asedau anghyfredol | 2,726 | 0 | 0 | **2,726** |
| **Cost net gwasanaethau** | **3,139** | **(2,193)** | **(370)** | **576** |
| Incwm a gwariant arall | 303 | 32,742 | (1,037) | **32,008** |
| **Gwarged / (Diffyg) am y Flwyddyn** | **3,442** | **30,549** | **(1,407)** | **32,584** |

**2022/23**

| Addasiadau O'r Gronfa Gyffredinol er mwyn cyrraedd y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf (Colofn A) £'000 | Newid net ar gyfer yr Addasiadau Pensiynau (Colofn B) £'000 | Gwahaniaethau Eraill (Colofn C) £'000 | Cyfanswm Addasiadau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau swyddogion yr heddlu | 0 | 0 | 119 | **119** |
| Pensiynau swyddogion yr heddlu | 0 | 21,237 | 0 | **21,237** |
| Cyflogau staff yr heddlu | 0 | 0 | 67 | **67** |
| Pensiynau staff yr heddlu | 0 | 7,122 | 0 | **7,122** |
| Costau eraill sy'n gysylltiedig â gweithwyr | 0 | 0 | 15 | **15** |
| Costau adeiladau | 0 | 0 | (440) | **(440)** |
| Costau trafnidiaeth | 0 | 0 | 40 | **40** |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 0 | 0 | (51) | **(51)** |
| Gwasanaethau asiantaeth a chontract | 0 | 0 | (245) | **(245)** |
| Costau ariannu cyfalaf | (1,015) | 0 | 0 | **(1,015)** |
| Grantiau | 0 | 0 | (477) | **(477)** |
| Incwm arall | 0 | 0 | 1,039 | **1,039** |
| Eitemau eithriadol – ailbrisio asedau anghyfredol | 1,055 | 0 | 0 | **1,055** |
| **Cost net gwasanaethau** | **40** | **28,359** | **67** | **28,466** |
| Incwm a gwariant arall | (455) | 30,571 | (677) | **29,439** |
| **Gwarged / (Diffyg) am y Flwyddyn** | **(415)** | **58,930** | **(610)** | **57,905** |

### Colofn A - Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf

Ar gyfer gwasanaethau – yn ychwanegu dibrisiant, amhariad ac enillion a cholledion ailbrisio. Mae taliadau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf hy, isafswm darpariaeth refeniw a chyfraniadau refeniw eraill yn cael eu tynnu o wasanaethau gan nad yw’r rhain yn daladwy o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Caiff grantiau cyfalaf eu haddasu ar gyfer incwm na ellir ei godi o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Ar gyfer gwariant gweithredu arall – mae’n addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf drwy drosglwyddo incwm o waredu asedau a’r symiau a ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.

### Colofn B - Newid Net ar gyfer yr Addasiadau Pensiynau

Newid net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu gwariant ac incwm sy’n gysylltiedig â phensiwn IAS19 *Buddion Gweithwyr*:

Ar gyfer gwasanaethau – mae hyn yn cynrychioli dileu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan y gwasanaethau grŵp fel y caniateir gan statud a gosod costau gwasanaeth presennol a chostau gwasanaeth blaenorol yn eu lle.

Ar gyfer ariannu a buddsoddi incwm a gwariant – mae'r llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn cael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Ar gyfer incwm a gwariant gweithredu arall – credydir grant 'atodol' pensiynau'r Swyddfa Gartref i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Colofn C - Gwahaniaethau Eraill**

Gwahaniaethau eraill rhwng symiau a ddebydwyd/credydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr a symiau taladwy/derbyniadwy i'w cydnabod dan statud:

Ar gyfer gwasanaethau – wedi'i addasu yn ôl y swm y mae tâl swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i'r tâl y gellir ei godi yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.

Ar gyfer ariannu a buddsoddi incwm a gwariant – wedi'i addasu yn ôl y swm y mae costau cyllid a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas ag offerynnau ariannol yn wahanol i gostau cyllid y gellir eu codi yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.

Mae nifer o addasiadau cyflwyniadol hefyd wedi'u gwneud rhwng gwasanaethau ac incwm a gwariant arall (hy uwchlaw ac islaw'r llinell).Yn gyffredinol, nid yw'r addasiadau hyn yn cael unrhyw effaith.

## 9. Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail ariannu o dan rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y grŵp/comisiynydd yn y flwyddyn yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol i'r adnoddau a nodir gan ddarpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i'r comisiynydd i fodloni gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

| 2023/24 | Balans y Gronfa Gyffredinol £'000 | Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso £'000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn £'000 | Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn Na Ellir Eu Defnyddio £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r cyfrif addasu cyfalaf | | | | |
| Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant ac amhariad ar asedau anghyfredol | (5,155) | 0 | 0 | 5,155 |
| Symudiad yng ngwerth teg eiddo buddsoddi | 261 | 0 | 0 | (261) |
| Colledion ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | (2,775) | 0 | 0 | 2,775 |
| Enillion ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | 49 | 0 | 0 | (49) |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wedi'u cymhwyso | 49 | 0 | 0 | (49) |
| Symiau o asedau anghyfredol a ddilëwyd wrth eu gwaredu neu eu gwerthu fel rhan o'r enillion/colledion o waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (1,543) | 0 | 0 | 1,543 |
| Mewnosod eitemau heb eu debydu neu eu credydu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | | | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf | 220 | 0 | 0 | (220) |
| Gwariant cyfalaf a godir yn erbyn y gronfa gyffredinol | 4,523 | 0 | 0 | (4,523) |
| Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn | | | | |
| Trosglwyddo enillion gwerthu arian parod a gredydwyd fel rhan o'r enillion/colledion wrth waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 929 | 0 | 0 | (929) |
| Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r gronfa bensiwn wrth gefn | | | | |
| Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddion ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 17,317 | 0 | 0 | (17,317) |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | (47,864) | 0 | 0 | 47,864 |
| Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r cyfrif balansau cronedig | | | | |
| Swm y mae tâl swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i'r tâl y gellir ei godi yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 1,772 | 0 | 0 | (1,772) |
| Addasiadau eraill | | | | |
| Addasiadau o ran cyfran deg o drefniadau cydweithredol | (367) | 0 | 0 | 367 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **(32,584)** | **0** | **0** | **32,584** |

| 2022/23 | Balans y Gronfa Gyffredinol £'000 | Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso £'000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn £'000 | Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn Na Ellir Eu Defnyddio £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r cyfrif addasu cyfalaf | | | | |
| Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant ac amhariad ar asedau anghyfredol | (4,468) | 0 | 0 | 4,468 |
| Symudiad yng ngwerth teg eiddo buddsoddi | 170 | 0 | 0 | (170) |
| Colledion ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | (1,192) | 0 | 0 | 1,192 |
| Enillion ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | 136 | | | (136) |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wedi'u cymhwyso | 258 | 0 | 0 | (258) |
| Symiau o asedau anghyfredol a ddilëwyd wrth eu gwaredu neu eu gwerthu fel rhan o'r enillion/colledion o waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (224) | 0 | 0 | 224 |
| Mewnosod eitemau heb eu debydu neu eu credydu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | | | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf | 169 | 0 | 0 | (169) |
| Gwariant cyfalaf a godir yn erbyn y gronfa gyffredinol | 5,313 | 0 | 0 | (5,313) |
| Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn | | | | |
| Trosglwyddo enillion gwerthu arian parod a gredydwyd fel rhan o'r enillion/colledion wrth waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 252 | 0 | 0 | (252) |
| Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r gronfa bensiwn wrth gefn | | | | |
| Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddion ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 16,450 | 0 | 0 | (16,450) |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | (75,380) | 0 | 0 | 75,380 |
| Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r cyfrif balansau cronedig | | | | |
| Swm y mae tâl swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i'r tâl y gellir ei godi yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 367 | 0 | 0 | (367) |
| Addasiadau eraill | | | | |
| Addasiadau o ran cyfran deg o drefniadau cydweithredol | 244 | 0 | 0 | (244) |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **(57,905)** | **0** | **0** | **57,905** |

## 10. Trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd

Mae'r nodyn hwn yn dangos y symiau a neilltuwyd o gronfa'r heddlu mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant yn y dyfodol. Mae'r nodyn hefyd yn dangos y symiau a bostiwyd yn ôl o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gwrdd â gwariant cronfa'r heddlu yn 2023/24.

| Cronfa wrth gefn | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 | Trosglwyddiadau i mewn 22/23 £'000 | Trosglwyddiadau allan 22/23 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 | Ailddosbarthiadau 2023/24 | Trosglwyddiadau i mewn 23/24 £'000 | Trosglwyddiadau allan 23/24 £'000 | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd wrth gefn yr heddlu:** | | | | | | | | |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer costau ynni | **0** | (424) | 0 | **(424)** | 0 | 0 | 424 | **0** |
| Cronfa cyllideb adrannol wrth gefn | **0** | (262) | 0 | **(262)** | 0 | 0 | 262 | **0** |
| Cronfa wrth gefn y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) | **0** | (107) | 0 | **(107)** | 0 | 0 | 0 | **(107)** |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer chwyddiant cyflogau | **0** | (508) | 0 | **(508)** | 105 | 0 | 0 | **(403)** |
| Cronfa wrth gefn rhaglen Gan Bwyll yr heddlu | **0** | (249) | 0 | **(249)** | 0 | (80) | 0 | **(329)** |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer yswiriant ac ymgyfreitha | **(450)** | 0 | 323 | **(127)** | 0 | (323) | 49 | **(401)** |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer mesurau lliniaru cyllideb | **(75)** | 0 | 75 | **0** | (717) | (601) | 15 | **(1,303)** |
| Cronfa wrth gefn Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu | **(120)** | 0 | 37 | **(83)** | 0 | 0 | 83 | **0** |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer gwyliau banc | **(511)** | (90) | 311 | **(290)** | 0 | 0 | 290 | **0** |
| Cronfa weithredol y prif gwnstabl | **(499)** | (46) | 0 | **(545)** | 0 | 0 | 0 | **(545)** |
| Cronfa wrth gefn pandemig Covid-19 / ôl-groniad hyfforddiant | **(400)** | 0 | 226 | **(174)** | 0 | 0 | 174 | **0** |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer prosiectau trawsnewidiol | **(1,068)** | (414) | 0 | **(1,482)** | 305 | 0 | 682 | **(495)** |

| | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 | Trosglwyddiadau i mewn 22/23 £'000 | Trosglwyddiadau allan 22/23 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 | Ailddosbarthiadau 2023/24 | Trosglwyddiadau i mewn 23/24 £'000 | Trosglwyddiadau allan 23/24 £'000 | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa wrth gefn y cynllun ailhyfforddi gyrwyr – prif gwnstabl | **0** | 0 | 0 | **0** | 0 | (341) | 0 | **(341)** |
| Cronfa wrth gefn y Gymraeg/cyfieithu | **0** | 0 | 0 | **0** | 0 | (51) | 0 | **(51)** |
| Cronfa wrth gefn gweithredu hil yr heddlu | **0** | 0 | 0 | **0** | 0 | (77) | 0 | **(77)** |
| Cronfa arloesi wrth gefn – awtomeiddio prosesau robotig | **0** | 0 | 0 | **0** | 0 | (640) | 0 | **(640)** |
| Cronfa wrth gefn gwasanaethau pobl a datblygu sefydliadol | **0** | 0 | 0 | **0** | 0 | (126) | 0 | **(126)** |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer gwrandawiadau disgyblu | **0** | 0 | 0 | **0** | 0 | (42) | 0 | **(42)** |
| **<u>Cronfeydd wrth gefn y comisiynydd:</u>** | | | | | | | | |
| Cronfa wrth gefn y Ddeddf Enillion Troseddau | **(145)** | (66) | 86 | **(125)** | 0 | (389) | 93 | **(421)** |
| Cronfa'r comisiynydd | **(474)** | 0 | 101 | **(373)** | 0 | (143) | 223 | **(293)** |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer fforffediadau | **(34)** | (37) | 0 | **(71)** | 0 | (74) | 44 | **(101)** |
| Cronfa wrth gefn gwerthu eiddo a ganfuwyd | **(23)** | (6) | 3 | **(26)** | 0 | 0 | 7 | **(19)** |
| Cronfa wrth gefn cynllun ailhyfforddi gyrwyr – comisiynydd | **(793)** | (458) | 165 | **(1,086)** | 0 | 0 | 48 | **(1,038)** |
| Cronfa wrth gefn ymyriadau cyffuriau | **(78)** | 0 | 34 | **(44)** | 0 | 0 | 33 | **(11)** |
| Cronfa wrth gefn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) | **0** | 0 | 0 | **0** | 0 | (37) | 0 | **(37)** |
| Cronfa wrth gefn ariannu arloesedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | **0** | 0 | 0 | **0** | 0 | (1,000) | 0 | **(1,000)** |

| | Ar 31 Mawrth 2022<br>£'000 | Trosglwyddiadau i mewn 22/23<br>£'000 | Trosglwyddiadau allan 22/23<br>£'000 | Ar 31 Mawrth 2023<br>£'000 | Ailddosbarthiadau 2023/24 | Trosglwyddiadau i mewn 23/24<br>£'000 | Trosglwyddiadau allan 23/24<br>£'000 | Ar 31 Mawrth 2024<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y cronfeydd refeniw penodol wrth gefn wedi'u clustnodi** | **(4,670)** | **(2,667)** | **1,361** | **(5,976)** | **(307)** | **(3,924)** | **2,427** | **(7,780)** |
| Cronfa gynaladwyedd | **(494)** | 0 | 0 | **(494)** | 0 | 0 | 0 | **(494)** |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer cerbydau Uned Plismona'r Ffyrdd | **0** | 0 | 0 | **0** | 0 | (235) | 0 | **(235)** |
| Cronfeydd cyfalaf wrth gefn eraill wedi'u clustnodi | **(8,038)** | (900) | 1,874 | **(7,064)** | 0 | (250) | 0 | **(7,314)** |
| **Cyfanswm cronfeydd cyfalaf wrth gefn wedi'u clustnodi** | **(8,532)** | **(900)** | **1,874** | **(7,558)** | **0** | **(485)** | **0** | **(8,043)** |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer cydweithio rhanbarthol | **(307)** | 0 | 0 | **(307)** | 307 | 0 | 0 | **0** |
| Cronfa wrth gefn partneriaeth diogelwch ffyrdd Gan Bwyll | **(1,312)** | 0 | 463 | **(849)** | 0 | 0 | 849 | **0** |
| **Cyfanswm y cronfeydd refeniw a chyfalaf wrth gefn wedi'u clustnodi** | **(1,619)** | **0** | **463** | **(1,156)** | **307** | **0** | **849** | **0** |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio** | **(14,821)** | **(3,567)** | **3,698** | **(14,690)** | **0** | **(4,409)** | **3,276** | **(15,823)** |

Manylir ar ddiben pob cronfa wrth gefn a ddelir gan y grŵp isod:

Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol

Yn unol â'r ddogfen "Guidance Note on Local Authority Reserves and Balances" gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CPIFA) ar gronfeydd wrth gefn a balansau awdurdodau lleol, mae'r comisiynydd hefyd yn cynnal cronfa wrth gefn gyffredinol i weithredu fel balans gweithredol er mwyn helpu i liniaru effaith llifau arian anwastad ac osgoi benthyca dros dro diangen, ac fel arian wrth gefn i liniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfwng.

Cronfa Wrth Gefn Ar Gyfer Costau Ynni

Crëwyd y gronfa hon i liniaru'r cynnydd mewn costau ynni yn 2023/24 o ganlyniad i chwyddiant uchel.

Cronfa Cyllideb Adrannol Wrth Gefn

Sefydlwyd y gronfa wrth gefn hon yn 2022/23 i gwrdd â gwariant ar nwyddau na dderbyniwyd cyn diwedd y flwyddyn oherwydd oedi yn y gadwyn gyflenwi ac yn y farchnad.

Cronfa Wrth Gefn y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)

Lliniaru costau a ragwelir yn deillio o'r prosiect rhanbarthol ar gyfer Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.

Cronfa Wrth Gefn Ar Gyfer Chwyddiant Cyflogau

Mae'r gronfa wrth gefn hon wedi'i chreu i liniaru effaith lefelau chwyddiant cyflog yn y dyfodol sy'n uwch na'r rhai a ragwelwyd.

Cronfa Wrth Gefn Rhaglen 'Gan Bwyll' yr Heddlu

Mae'r gronfa wrth gefn hon wedi'i sefydlu i liniaru yn erbyn ansicrwydd a diffygion ariannol o fewn partneriaeth Gan Bwyll.

Cronfa Wrth Gefn Ar Gyfer Yswiriant ac Ymgyfreitha

Cynorthwyo i liniaru effeithiau ariannol newidiadau i lefelau hunanyswirio o ganlyniad i gynnydd mewn premiymau yswiriant ac achosion o ymgyfreitha.

Cronfa Wrth Gefn Ar Gyfer Mesurau Lliniaru Cyllideb

I ddechrau, neilltuodd y comisiynydd gronfa benodol o £75,000 yn 2021/22 i wrthbwyso gwall wrth gyfrifo sylfaen y dreth gyngor a ddigwyddodd wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2022/23. Rhyddhawyd y gronfa wrth gefn hon yn ystod 2022/23 gyda'r mater yn cael sylw ar sail gylchol fel rhan o broses gosod cyllideb 2023/24 a 2024/25. Mae'r balans presennol yn cynrychioli pwysau cost untro a oedd i'w ariannu'n anghylchol dros y blynyddoedd i ddod.

Cronfa Wrth Gefn Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu

Cadwyd cronfa wrth gefn Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu i liniaru'r cynnydd yng nghostau hyfforddi swyddogion rhaglen Uplift ac mae wedi'i rhyddhau yn unol â hynny.

Cronfa Wrth Gefn Ar Gyfer Gwyliau Banc

Roedd creu cronfa wrth gefn ar gyfer gwyliau banc yn ceisio lliniaru costau patrwm gwyliau banc dros ddwy flynedd ac mae wedi'i ryddhau yn unol â hynny.

Cronfa Weithredol y Prif Gwnstabl

Mae'r gronfa hon yn helpu i liniaru costau canlyniadol cyfnodau brig nodedig mewn gweithgarwch gweithredol.

Cronfa Wrth Gefn Pandemig Covid-19 / Ôl-groniad Hyfforddiant

Mae hon yn gronfa wrth gefn sydd wedi'i sefydlu i helpu i liniaru'n rhannol y goblygiadau ariannol sy'n deillio o bandemig Covid-19 sy'n gysylltiedig yn arbennig ag ôl-groniadau hyfforddiant.

Cronfa Wrth Gefn Ar Gyfer Prosiectau Trawsnewidiol

Sefydlwyd y gronfa hon i ariannu gweithgareddau sy'n ceisio cyflawni prosiectau trawsnewid sefydliadol.

Cronfa Wrth Gefn y Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr – Prif Gwnstabl

Mae'r gronfa wrth gefn hon i gefnogi gweithgareddau sy'n ymwneud â mentrau diogelwch cymunedol ac ar y ffyrdd.

Cronfa Wrth Gefn y Gymraeg / Cyfieithu

Mae'r gronfa hon wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad yn y gwaith o gyfieithu ymatebion rhyddid gwybodaeth i'w cyhoeddi ar Ryngrwyd yr heddlu.

Cronfa Wrth Gefn Gweithredu Hil yr Heddlu

Mae'r gronfa hon ar gyfer ariannu swydd Cydlynydd Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu i symud y gwaith ymlaen yn sylweddol.

Cronfa Arloesi Wrth Gefn – Awtomeiddio Prosesau Robotig

Bwriad y gronfa hon yw gwella darpariaeth awtomeiddio prosesau robotig, datblygiad parhaus, a datblygu dangosfwrdd Power BI.

Cronfa Wrth Gefn Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol

Mae'r gronfa hon ar gyfer ariannu newidiadau o fewn yr Adran Gwasanaethau Pobl. Mae hyn yn cynnwys penodi Pennaeth Hyfforddiant/Talent, Arweinydd Lles, a chymorth cwnsela i reoli'r heriau recriwtio a chadw ehangach.

Cronfa Wrth Gefn Ar Gyfer Gwrandawiadau Disgyblu

Pwrpas y gronfa hon yw ariannu swydd ran amser i reoli llwythi gwaith gwrandawiadau disgyblu.

Cronfa Wrth Gefn y Ddeddf Enillion Troseddau

Dyrennir arian a geir o ganlyniad i orchmynion atafaelu sy'n deillio o enillion troseddau.Defnyddir y cronfeydd wrth gefn i gefnogi gweithgareddau gweithredol sy'n helpu i ddwyn troseddwyr gerbron y llys.

Cronfa'r Comisiynydd

Diben y gronfa hon yw cefnogi blaenoriaethau Tymor 3 y Cynllun Heddlu a Throseddu.

Cronfa Wrth Gefn Ar Gyfer Fforffediadau

Mae arian a atafaelwyd o dan adran 27 Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 ac yn dilyn fforffedu yn y llys yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa gforffediadau i'w ddefnyddio gan y comisiynydd. Defnyddir y cronfeydd wrth gefn i ariannu gweithrediadau sy'n targedu troseddau cysylltiedig â chyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau.

Cronfa Wrth Gefn Gwerthu Eiddo a Ganfuwyd

Mae'r gronfa gwerthu eiddo a ganfuwyd yn cynnwys arian a dderbynnir gan y Comisiynydd o werthu eiddo a ganfuwyd. Mae'n bolisi cyfredol i roi rhoddion blynyddol i elusennau lleol.

Cronfa Wrth Gefn Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr – Comisiynydd

Mae'r gronfa wrth gefn hon i gefnogi gweithgareddau sy'n ymwneud â mentrau diogelwch cymunedol ac ar y ffyrdd.

Cronfa Wrth Gefn Ymyriadau Cyffuriau

Bydd y gronfa wrth gefn hon yn cael ei defnyddio i gefnogi profion cyffuriau.

Cronfa Wrth Gefn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh)

Cyllid i dalu costau ychwanegol i ôl-lenwi swydd Prif Swyddog Ariannol oherwydd absenoldeb salwch hirdymor.

Cronfa Wrth Gefn Ariannu Arloesedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Cyflawni prosiectau arloesi yn unol â blaenoriaethau’r comisiynwyr ee mentrau troseddau cefn gwlad/prosiectau peilot.

Cronfa Gynaladwyedd

Diben y gronfa hon yw cynorthwyo i ariannu gweithgareddau 'buddsoddi i arbed' a chynaliadwyedd.

Cronfa Wrth Gefn Ar Gyfer Cerbydau Uned Plismona'r Ffyrdd

Ariannu cerbydau ychwanegol ar gyfer y rhaglen plismona’r ffyrdd lleol newydd.

Cronfa Cyfalaf Wrth Gefn a Glustnodwyd

Bydd y gronfa hon yn cael ei defnyddio i gefnogi'r buddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn ystadau, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'r fflyd, fel yr amlinellwyd yn y cynllun ariannol tymor canolig a'r strategaeth gyfalaf.

Cronfa Wrth Gefn Ar Gyfer Cydweithio Rhanbarthol

Roedd y gronfa wrth gefn hon yn cynrychioli'r gyfran o arian a ddelir ar gyfer gwasanaethau heddlu cydweithredol, gan gynnwys yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol a'r Tasglu Rhanbarthol.

Yn ystod 2023/24 penderfynwyd nad oedd angen yr arian a ddelir bellach ac felly mae wedi cael ei ailddosbarthu yn unol â gofynion yr heddlu.

Cronfa Wrth Gefn Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd ‘Gan Bwyll’

Roedd y gronfa wrth gefn a glustnodwyd hon yn cael ei dal ar ran partneriaeth diogelwch ffyrdd Cymru gyfan ‘Gan Bwyll’ ac mae wedi’i defnyddio yn unol â’i gofynion busnes.

## 11. Incwm a gwariant gweithredu arall

Mae'r llinell hon yn cynnwys eitemau corfforaethol o incwm a gwariant na ellir yn rhesymol eu dyrannu na'u dosrannu i wasanaethau.

| Grŵp 2022/23 £'000 | Comisiynydd 2022/23 £'000 | | Grŵp 2023/24 £'000 | Comisiynydd 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| 225 | 225 | Colled o waredu asedau anghyfredol | 1,370 | 1,370 |
| (251) | (251) | Enillion o waredu asedau anghyfredol | (752) | (752) |
| (16.450) | (16,450) | Grant atodol pensiynau swyddogion heddlu'r Swyddfa Gartref | (17,317) | (17,317) |
| **(16,476)** | **(16,476)** | **Cyfanswm** | **(16,699)** | **(16,699)** |

## 12. Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi

Mae'r llinell hon yn cynnwys eitemau corfforaethol o incwm a gwariant sy'n deillio o ymwneud ag offerynnau ariannol a thrafodion tebyg yn ymwneud â llog.

| Grŵp 2022/23 £'000 | Comisiynydd 2022/23 £'000 | | Nodi adau | Grŵp 2023/24 £'000 | Comisiynydd 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 111 | 111 | Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg | 17 | 140 | 140 |
| 47,020 | 46 | Llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net | 37 | 50,059 | (12) |
| 59 | 59 | Diffyg ar ailbrisio eiddo buddsoddi | 15 | 106 | 106 |
| (229) | (229) | (Gwarged) ar ailbrisio eiddo buddsoddi | 15 | (367) | (367) |
| 0 | 0 | Enillion ar waredu eiddo buddsoddi | | (6) | (6) |
| (297) | (297) | Llog y gellir ei dderbyn ac incwm tebyg | 17 | (729) | (729) |
| (916) | (916) | Incwm mewn perthynas ag eiddo buddsoddi a newidiadau yn eu gwerth teg | | (902) | (902) |
| 425 | 425 | Gwariant mewn perthynas ag eiddo buddsoddi a newidiadau yn eu gwerth teg | | 456 | 456 |
| **46,173** | **(801)** | **Cyfanswm** | | **48,757** | **(1,314)** |

## 13. Trethiant ac incwm grant amhenodol

Mae'r nodyn hon yn cyfuno'r holl grantiau a chyfraniadau na ellir eu nodi i wasanaeth penodol.

| Grŵp 2022/23 £'000 | Comisiynydd 2022/23 £'000 | | Nodiadau | Grŵp 2023/24 £'000 | Comisiynydd 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| (66,761) | (66,761) | Incwm praesept | | (72,518) | (72,518) |
| (190) | (190) | Trethi annomestig cenedlaethol (NNDR) | | (173) | (173) |
| (60,494) | (60,494) | Grantiau llywodraeth heb eu clustnodi | 31 | (60,723) | (60,723) |
| (258) | (258) | Grantiau a chyfraniadau cyfalaf | 31 | (49) | (49) |
| **(127,703)** | **(127,703)** | **Cyfanswm** | | **(133,463)** | **(133,463)** |

## 14. Eiddo, peiriannau ac offer

| 2023/24 | Tir £'000 | Adeiladau £'000 | Cychod £'000 | Cerbydau £'000 | Offer £'000 | Cyfanswm Eiddo, Peiriannau ac Offer £'000 | Asedau anniriaethol £'000 | Asedau dros ben £'000 | Asedau sy'n cael eu Hadeiladu £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar 1 Ebrill 2023** | **6,795** | **61,334** | **870** | **7,662** | **18,057** | **94,718** | **178** | **74** | **18,205** |
| Ychwanegiadau | | 2,844 | 48 | 1,283 | 1,655 | **5,830** | **947** | **0** | **710** |
| Cynnydd/(gostyngiadau) ailbrisio wedi'u cydnabod yn y gronfa ailbrisio wrth gefn | 457 | 1,437 | 0 | 0 | 0 | **1,894** | **0** | **(19)** | **0** |
| Cynnydd/(gostyngiadau) ailbrisio wedi'u cydnabod mewn gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau | (14) | (2,712) | 0 | 0 | 0 | **(2,726)** | **0** | **0** | **0** |
| Datgydnabod – gwarediadau | (240) | (1,118) | 0 | (659) | (834) | **(2,851)** | **0** | **0** | **0** |
| Asedau wedi'u hailddosbarthu | 253 | 17,384 | 0 | (157) | 0 | **17,480** | **0** | **0** | **(17,637)** |
| Dileu dibrisiant cronedig wrth ailbrisio | 0 | (339) | 0 | 0 | 0 | **(339)** | **0** | **0** | **0** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **7,251** | **78,830** | **918** | **8,129** | **18,878** | **114,006** | **1,125** | **55** | **1,278** |
| **Dibrisiant ac amhariad cronedig ar 1 Ebrill 2023** | **0** | **0** | **(161)** | **(4,621)** | **(9,588)** | **(14,370)** | **(178)** | **0** | **0** |
| Tâl dibrisiant | 0 | (1,353) | (39) | (1,077) | (2,685) | **(5,154)** | **0** | **(1)** | **0** |
| Gwarediadau datgydnabod | 0 | 23 | 0 | 634 | 831 | **1,488** | **0** | **0** | **0** |
| Asedau wedi'u hailddosbarthu | 0 | 0 | 0 | 149 | 0 | **149** | **0** | **0** | **0** |
| Dileu dibrisiant cronedig wrth ailbrisio | 0 | 339 | 0 | 0 | 0 | **339** | **0** | **0** | **0** |
| **Dibrisiant ac amhariad cronedig ar 31 Mawrth 2024** | **0** | **(991)** | **(200)** | **(4,915)** | **(11,442)** | **(17,548)** | **(178)** | **(1)** | **0** |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2024** | **7,251** | **77,839** | **718** | **3,213** | **7,436** | **96,458** | **947** | **54** | **1,278** |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2023** | **6,795** | **61,334** | **709** | **3,041** | **8,469** | **80,348** | **0** | **74** | **18,205** |

| 2022/23 | Tir £'000 | Adeiladau £'000 | Cychod £'000 | Cerbydau £'000 | Offer £'000 | Cyfanswm Eiddo, Peiriannau ac Offer £'000 | Asedau anniriaethol £'000 | Asedau dros ben £'000 | Asedau sy'n cael eu Hadeiladu £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar 1 Ebrill 2022** | **6,800** | **56,134** | **700** | **7,921** | **14,003** | **85,558** | **178** | **70** | **5,282** |
| Ychwanegiadau | 0 | 1,719 | 170 | 1,269 | 4,074 | **7,232** | **0** | **0** | **12,923** |
| Cynnydd/(gostyngiadau) ailbrisio wedi'u cydnabod yn y gronfa ailbrisio wrth gefn | 0 | 5,757 | 0 | 0 | 0 | **5,757** | **0** | **5** | **0** |
| Cynnydd/(gostyngiadau) ailbrisio wedi'u cydnabod mewn gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau | (5) | (1,051) | 0 | 0 | 0 | **(1,056)** | **0** | **0** | **0** |
| Datgydnabod – gwarediadau | 0 | 0 | 0 | (1,028) | (20) | **(1,048)** | **0** | **0** | **0** |
| Asedau wedi'u hailddosbarthu | 0 | 0 | 0 | (500) | 0 | **(500)** | **0** | **0** | **0** |
| Dileu dibrisiant cronedig wrth ailbrisio | 0 | (1,225) | 0 | 0 | 0 | **(1,225)** | **0** | **(1)** | **0** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **6,795** | **61,334** | **870** | **7,662** | **18,057** | **94,718** | **178** | **74** | **18,205** |
| **Dibrisiant ac amhariad cronedig ar 1 Ebrill 2022** | **0** | **0** | **(137)** | **(4,973)** | **(7,498)** | **(12,608)** | **(178)** | **0** | **0** |
| Tâl dibrisiant | 0 | (1,225) | (24) | (1,111) | (2,108) | **(4,468)** | **0** | **(1)** | **0** |
| Gwarediadau datgydnabod | 0 | 0 | 0 | 968 | 18 | **986** | **0** | **0** | **0** |
| Asedau wedi'u hailddosbarthu | 0 | 0 | 0 | 495 | 0 | **495** | **0** | **0** | **0** |
| Dileu dibrisiant cronedig wrth ailbrisio | 0 | 1,225 | 0 | 0 | 0 | **1,225** | **0** | **1** | **0** |
| **Dibrisiant ac amhariad cronedig ar 31 Mawrth 2023** | **0** | **0** | **(161)** | **(4,621)** | **(9,588)** | **(14,370)** | **(178)** | **0** | **0** |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2023** | **6,795** | **61,334** | **709** | **3,041** | **8,469** | **80,348** | **0** | **74** | **18,205** |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2022** | **6,800** | **56,134** | **563** | **2,948** | **6,505** | **72,950** | **0** | **70** | **5,282** |

Ailbrisiadau

Hyd at 2021/22, cynhaliodd y comisiynydd raglen dreigl a oedd yn sicrhau bod yr holl eiddo, peiriannau ac offer (yr oedd angen eu mesur ar werth teg) yn cael eu hailbrisio o leiaf bob pum mlynedd. Cynhaliwyd ailbrisiad llawn o'r holl dir ac adeiladau yn 2021/22 a 2022/23 gan briswyr allanol, Wilks Head and Eve LLP.O 2023/24 ymlaen bydd y prisiad yn seiliedig ar raglen dreigl pedair blynedd, o ran arolygiadau.

Ar 31 Mawrth 2024, cynhaliwyd ailbrisiad o dir ac adeiladau gan Wilks Head and Eve LLP. Paratowyd y prisiad ffurfiol yn unol â safonau prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig a'r ddau ddull oedd:

1. prisiadau yn seiliedig ar dystiolaeth marchnad gymaradwy (gwerth presennol a gwerth teg)
2. prisiadau yn seiliedig ar gost amnewid dibrisiedig.

Nid oes unrhyw dybiaethau arwyddocaol wedi'u cymhwyso.

## 15. Eiddo buddsoddi

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r symudiad yng ngwerth teg eiddo buddsoddi dros y flwyddyn.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---:|---|---:|
| 3,028 | Balans ar ddechrau'r flwyddyn | 3,200 |
| 2 | Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 0 |
| 0 | Gwarediadau yn ystod y flwyddyn | (173) |
| 170 | Enillion/(colledion) net o addasiadau gwerth teg | 261 |
| **3,200** | **Balans ar ddiwedd y flwyddyn** | **3,288** |

Mesurir eiddo buddsoddi ar werth teg yn seiliedig ar dystiolaeth y farchnad.

Mae manylion eiddo buddsoddi'r comisiynydd a gwybodaeth am yr hierarchaeth gwerth teg ar 31 Mawrth 2024 a 31 Mawrth 2023 fel a ganlyn:

| 31 Mawrth 2024 | Prisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau union yr un fath (lefel 1) £'000 | Mewnbynnau sylweddol eraill y gellir eu harsylwi (lefel 2) £'000 | Mewnbynnau sylweddol na ellir eu harsylwi (lefel 3) £'000 | Gwerth teg ar 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Safleoedd mastiau radio | 0 | 2,192 | 0 | 2,192 |
| Unedau swyddfa | 0 | 1,096 | 0 | 1,096 |

| 31 Mawrth 2023 | Prisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau union yr un fath (lefel 1) £'000 | Mewnbynnau sylweddol eraill y gellir eu harsylwi (lefel 2) £'000 | Mewnbynnau sylweddol na ellir eu harsylwi (lefel 3) £'000 | Gwerth teg ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Safleoedd mastiau radio | 0 | 1,826 | 0 | 1,826 |
| Unedau swyddfa | 0 | 1,374 | 0 | 1,374 |

<u>Technegau prisio a ddefnyddir i bennu gwerthoedd teg lefel 2 a 3 ar gyfer eiddo buddsoddi</u>

*Mewnbynnau sylweddol y gellir eu harsylwi – lefel 2.*

Mae gwerth teg yr unedau mastiau radio ac unedau swyddfa wedi'i seilio ar ddull y farchnad gan ddefnyddio amodau presennol y farchnad, hyd prydlesau ac incwm rhent.

## 16. Ymrwymiadau cyfalaf

Mae ymrwymiadau gwariant yn y dyfodol o dan orchmynion prynu heb eu talu ar gyfer cynlluniau cyfalaf fel a ganlyn:

| 2022/23 £'000 | Ymrwymiadau cyfalaf | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 1,338 | Tir ac adeiladau | 15,782 |
| 4,057 | Offer | 4,152 |
| 879 | Cerbydau | 2,533 |
| **6,274** | **Cyfanswm** | **22,467** |

Mae'r tabl uchod yn cynnwys ymrwymiadau cytundebol yn unig ac nid yw'n adlewyrchu cynlluniau eraill y mae'r heddlu yn bwriadu eu datblygu fel yr amlinellir yn y rhaglen gyfalaf.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymrwymiad cytundebol ar gyfer offer yn cwmpasu prosiectau TGCh, gan gynnwys system rheoli cysylltiadau CMS (£1 filiwn), camera corff (£1 filiwn) a chyfweliadau digidol (£0.4 miliwn).

Mae'r ymrwymiad cytundebol o £15.8 miliwn ar gyfer tir ac adeiladau yn 2023/24 yn cynnwys £14.5 miliwn fel cyfraniad yr heddlu tuag at y cyfleuster hyfforddi Maes Tanio Arfau Saethu ar y Cyd y tri heddlu sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd.

## 17. Offerynnau ariannol

Mae offeryn ariannol yn gontract sy’n arwain at ased ariannol un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti endid arall. Nid yw trafodion digyfnewid, megis y rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn arwain at offerynnau ariannol.

<u>Rhwymedigaethau ariannol</u>

Mae rhwymedigaeth ariannol yn ymrwymiad i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y comisiynydd a gellir ei gynrychioli gan rwymedigaeth gytundebol i ddarparu arian parod neu asedau ariannol.  Mae hefyd yn rhwymedigaeth i gyfnewid asedau a rhwymedigaethau ariannol ag endid arall a allai fod yn anffafriol i’r comisiynydd.

Asedau ariannol

Mae ased ariannol yn hawl i fuddion economaidd yn y dyfodol a reolir gan y comisiynydd a gynrychiolir gan arian parod neu offerynnau eraill. Mae hefyd yn hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu ased ariannol arall.

Offeryn ariannol – balansau

Mae'r categorïau canlynol o offerynnau ariannol yn cael eu cario yn y fantolen ar 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024:

**Grŵp**

| | Tymor hir | | Presennol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 |
| Benthyca (Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus – PWLB) | (684) | (358) | (303) | (10,386) |
| Credydwyr | 0 | 0 | (18,974) | (17,487) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau ariannol** | **(684)** | **(358)** | **(19,277)** | **(27,873)** |
| Benthyciadau a symiau derbyniadwy | | | | |
| Buddsoddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dyledwyr | 0 | 0 | 11,937 | 15,936 |
| **Cyfanswm yr asedau ariannol** | **0** | **0** | **11,937** | **15,936** |

**Comisiynydd**

| | Tymor hir | | Presennol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 |
| Benthyca (Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus – PWLB) | (684) | (358) | (303) | (10,386) |
| Credydwyr | 0 | 0 | (1,180) | (440) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau ariannol** | **(684)** | **(358)** | **(1,483)** | **(10,826)** |
| Benthyciadau a symiau derbyniadwy | | | | |
| Buddsoddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dyledwyr | 0 | 0 | 10,132 | 14,238 |
| **Cyfanswm yr asedau ariannol** | **0** | **0** | **10,132** | **14,238** |

O ran benthyca, mae'r tablau'n adlewyrchu benthyca allanol yn unig.

Enillion a cholledion

Offerynnau ariannol – enillion a cholledion

Mae’r enillion a’r colledion a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas ag offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

| 2022/23 £'000 | | Rhwymedigaethau Ariannol – Wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio £'000 | Asedau Ariannol – Benthyciadau a symiau derbyniadwy £'000 | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| (111) | Traul llog | (140) | 0 | (140) |
| 297 | Incwm llog | 0 | 729 | 729 |
| **186** | **Enillion/(colled) net am y flwyddyn** | **(140)** | **729** | **589** |

Gwerthoedd teg

Mae asedau ariannol sydd wedi'u dosbarthu fel rhai sydd ar gael i'w gwerthu a'r holl asedau a rhwymedigaethau deilliadol yn cael eu cario yn y fantolen ar werth teg.Ar gyfer y rhan fwyaf o asedau, gan gynnwys bondiau, biliau trysorlys a chyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfun eraill, cymerir y gwerth teg o bris y farchnad. Mae gwerthoedd teg offerynnau eraill wedi’u hamcangyfrif gan gyfrifo gwerth presennol net gweddill y llif arian cytundebol ar 31 Mawrth 2024, gan ddefnyddio’r dulliau a’r tybiaethau canlynol:

- Mae tystysgrifau adnau a blaen-gontractau benthyciadau wedi'u disgowntio ar gyfraddau llog y farchnad ar gyfer offerynnau o ansawdd credyd tebyg a'r cyfnod sy'n weddill hyd aeddfedrwydd.
- Mae’r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus wedi rhoi symiau gwerth teg i’r comisiynydd mewn perthynas â’i bortffolio dyledion. Mae’r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus wedi asesu’r gwerthoedd teg drwy gyfrifo’r symiau y byddai’n rhaid i’r comisiynydd fod wedi’u talu i ddileu’r benthyciadau ar y dyddiadau hyn.
- Ni chydnabyddir ad-daliad cynnar neu amhariad ar gyfer unrhyw offeryn ariannol.
- Tybir bod gwerth teg offerynnau tymor byr, gan gynnwys credydwyr a dyledwyr, yn cyfateb yn fras i'r swm cario ymlaen.
- Ar gyfer credydwyr a dyledwyr, mae'r gwerth cario ymlaen wedi'i ddefnyddio fel brasamcan rhesymol o werth teg.
- Dangosir gwerthoedd teg yn y tabl ar y dudalen ganlynol, wedi’u rhannu â’u lefel yn yr hierarchaeth gwerth teg:
    1) Lefel 1 – mae gwerth teg ond yn deillio o brisiau a ddyfynnwyd mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau unfath, ee prisiau bond. Mae hyn hefyd yn berthnasol i brisiadau eiddo ar gyfer asedau dros ben, asedau a ddelir i'w gwerthu ac eiddo buddsoddi;
    2) Lefel 2 – cyfrifir gwerth teg o fewnbynnau ar wahân i brisiau a ddyfynnwyd sy’n weladwy ar gyfer yr ased neu rwymedigaeth ee cyfraddau llog neu arenillion ar gyfer offerynnau tebyg;
    3) Lefel 3 – pennir gwerth teg gan ddefnyddio mewnbynnau na ellir eu harsylwi, ee data nad yw’n ymwneud â’r farchnad megis rhagolygon llif arian neu amcangyfrif o deilyngdod credyd.

Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau rhwng lefelau mewnbwn 1 a 2 yn ystod y flwyddyn ac ni fu unrhyw newid yn y dechneg brisio a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn.

| Grŵp | | 2023/24 | | Comisiynydd | |
|---|---|---|---|---|---|
| Swm sy'n cael ei gario ymlaen<br>31 Mawrth 2024<br>£'000 | Gwerth teg<br>31 Mawrth 2024<br>£'000 | | Lefel gwerth teg | Swm sy'n cael ei gario ymlaen<br>31 Mawrth 2024<br>£'000 | Gwerth teg<br>31 Mawrth 2024<br>£'000 |
| | | Rhwymedigaethau ariannol | | | |
| (358) | (398) | Benthyca tymor hir | | (358) | (398) |
| | | Rhwymedigaethau na ddatgelir gwerth teg ar eu cyfer | | | |
| (10,386) | (10,386) | Benthyca tymor byr | | (10,386) | (10,386) |
| (17,487) | (17,487) | Credydwyr | | (440) | (440) |
| **(27,873)** | **(27,873)** | **Cyfanswm y rhwymedigaethau ariannol** | | **(10,826)** | **(10,826)** |
| | | Asedau na ddatgelir gwerth teg ar eu cyfer | | | |
| 15,936 | 15,936 | Dyledwyr | | 14,238 | 14,238 |
| **15,936** | **15,936** | **Cyfanswm yr asedau ariannol** | | **14,238** | **14,238** |

| Grŵp | | 2022/23 | | Comisiynydd | |
|---|---|---|---|---|---|
| Swm sy'n cael ei gario ymlaen<br>31 Mawrth 2023<br>£'000 | Gwerth teg<br>31 Mawrth 2023<br>£'000 | | Lefel gwerth teg | Swm sy'n cael ei gario ymlaen<br>31 Mawrth 2023<br>£'000 | Gwerth teg<br>31 Mawrth 2023<br>£'000 |
| | | Rhwymedigaethau ariannol | | | |
| (684) | (760) | Benthyca tymor hir | 2 | (684) | (760) |
| | | Rhwymedigaethau na ddatgelir gwerth teg ar eu cyfer | | | |
| (303) | (303) | Benthyca tymor byr | | (303) | (303) |
| (18,974) | (18,974) | Credydwyr | | (1,180) | (1,180) |
| **(19,961)** | **(20,037)** | **Cyfanswm y rhwymedigaethau ariannol** | | **(2,167)** | **(2,243)** |
| | | Asedau na ddatgelir gwerth teg ar eu cyfer | | | |
| 11,937 | 11,937 | Dyledwyr | | 10,132 | 10,132 |
| **11,937** | **11,937** | **Cyfanswm yr asedau ariannol** | | **10,132** | **10,132** |

## 18. Dyledwyr tymor byr

| Grŵp 31 Mawrth 2023 £'000 | Comisiynydd 31 Mawrth 2023 £'000 | | Grŵp 31 Mawrth 2024 £'000 | Comisiynydd 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| 1,625 | 1,625 | Symiau derbyniadwy drwy fasnach | 1,827 | 1,827 |
| 8,881 | 8,507 | Symiau derbyniadwy eraill | 12,412 | 12,411 |
| 1,431 | 0 | Rhagdaliadau | 1,697 | 0 |
| **11,937** | **10,132** | **Cyfanswm** | **15,936** | **14,238** |

## 19. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 | Cynnydd neu (gostyngiad) mewn Arian Parod a Chyfwerth ag Arian Parod |
|---|---|---|---|
| Arian parod a ddelir | 20 | 19 | (1) |
| Cyfrifon banc cyfredol | 1,694 | 2,200 | 506 |
| Adneuon tymor byr | 4,017 | 9,039 | 5,022 |
| **Cyfanswm** | **5,731** | **11,258** | **5,527** |

## 20. Asedau a ddelir ar werth

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Balans sy'n ddyledus ar ddechrau'r flwyddyn | 162 | 5 |
| Asedau sydd newydd eu dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 0 | 0 |
| Asedau wedi'u hailddosbarthu | 5 | 8 |
| Ailbrisio (colledion)/enillion | 0 | 0 |
| Asedau a werthwyd | (162) | (5) |
| **Balans sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn** | **5** | **8** |

## 21. Credydwyr tymor byr

| Grŵp 31 Mawrth 2023 £'000 | Comisiynydd 31 Mawrth 2023 £'000 | | Grŵp 31 Mawrth 2024 £'000 | Comisiynydd 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| (5,930) | (478) | Symiau taladwy drwy fasnach | (3,349) | (323) |
| (13,044) | (702) | Symiau taladwy eraill | (14,138) | (117) |
| **(18,974)** | **(1,180)** | **Cyfanswm** | **(17,487)** | **(440)** |

## 22. Darpariaethau

### Darpariaethau tymor byr

Mae'r rhain yn symiau y disgwylir iddynt gael eu talu o fewn deuddeg mis i'r cyfnod adrodd.

| | Cronfeydd Statudol £'000 | Dyfarniadau Anafiadau ac Ymddeoliadau oherwydd Afiechyd £'000 | Darpariaethau Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2023** | **(1,152)** | **(401)** | **(35)** | **(1,588)** |
| Darpariaethau ychwanegol a wnaed yn 2023/24 | (1,073) | (819) | 0 | **(1,892)** |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn 2023/24 | 963 | 215 | 0 | **1,178** |
| Symiau nas defnyddiwyd wedi'u gwrthdroi | 0 | 186 | 35 | **221** |
| Ailddosbarthu | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **(1,262)** | **(819)** | **0** | **(2,081)** |

<u>Cronfeydd statudol</u>

Mae gan y comisiynydd y pŵer i atafaelu arian neu eiddo a ddefnyddir, neu y bwriedir ei ddefnyddio, at ddiben trosedd.Delir yr arian a atafaelwyd nes ceir dyfarniad gan y llysoedd.Unwaith y gwneir y dyfarniad hwn, gellir cael gwared ar yr arian yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

<u>Dyfarniadau anafiadau ac ymddeoliadau oherwydd afiechyd</u>

Mae darpariaeth wedi'i sefydlu i fodloni cost dyfarniadau oherwydd anafiadau a thaliadau ymddeoliad oherwydd afiechyd ar gyfer y gweithwyr hynny y tybiwyd, ar ddiwedd y flwyddyn, eu bod yn annhebygol o ddychwelyd i'r gwaith ond nad oedd yr asesiad iechyd llawn wedi'i gwblhau ar eu cyfer eto.

### Darpariaethau tymor hir

Mae'r rhain yn symiau y disgwylir iddynt gael eu talu mwy na deuddeg mis ar ôl y cyfnod adrodd.

| | Darpariaeth Yswiriant ac Ymgyfreitha £'000 | Municipal Mutual Insurance Ltd £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2023** | **(1,463)** | **(457)** | **(1,920)** |
| Darpariaethau ychwanegol a wnaed yn 2023/24 | (929) | 0 | **(929)** |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn 2023/24 | 1,125 | 0 | **1,125** |
| Symiau nas defnyddiwyd wedi'u gwrthdroi yn 2023/24 | 358 | 0 | **358** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **(909)** | **(457)** | **(1,366)** |

Darpariaeth yswiriant ac ymgyfreitha

Mae asesiad o'r setliad tebygol o hawliadau yswiriant i'w gwneud gan y comisiynydd wedi'i gynnal, sef cyfanswm o £707,000.

Ar 10 Hydref 2022, cyflwynodd yr Uchel Lys Cyfiawnder ddyfarniad yn achos KSO ac eraill yn erbyn Comisiynydd y Metropolis (2019) o blaid yr hawlwyr a oedd yn ceisio setliad ar ddarpariaeth ar alwad ar gyfer dyletswyddau trin ffynonellau penodol. Mae’r prif gwnstabl wedi setlo pob hawliad am ddyled, gan adael dim ond setliad costau hawlwyr i’w ddatrys, ynghyd â’n costau cyfreithiol cysylltiedig. Amcangyfrifwyd bod y costau hyn yn £200,000 a gwnaed darpariaeth yn unol â hynny.

Yn ogystal â'r uchod, mae swm o £2,400 hefyd wedi'i neilltuo ar gyfer y setliad tebygol o achosion sifil yn deillio o ymddygiad swyddog a secondiwyd i'r Uned Genedlaethol Cudd Wybodaeth am Drefn Gyhoeddus (NPOIU).

Municipal Mutual Insurance Ltd.(MMI)

Mae MMI yn gyn yswiriwr cyrff cyhoeddus a roddodd y gorau i fasnachu yn 1992. Mae'r comisiynydd mewn cynllun trefniant i fodloni'r holl hawliadau a oedd yn weddill pan aeth y cwmni i'r wal.

## 23. Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| (27,826) | Cronfa ailbrisio wrth gefn | (29,108) |
| (52,016) | Cyfrif addasu cyfalaf | (49,168) |
| 3,299 | Cyfrif absenoldebau cronnol | 1,526 |
| 1,073,421 | Cronfa bensiynau wrth gefn | 1,053,173 |
| (364) | Cronfa cyfran deg cydweithio wrth gefn | 3 |
| **996,514** | **Cyfanswm** | **976,426** |

Cronfa ailbrisio wrth gefn

Mae'r gronfa wrth gefn hon yn cynrychioli'r enillion cronedig ar yr asedau sefydlog a ddelir gan y CHTh/grŵp sy'n deillio o gynnydd mewn gwerth, o ganlyniad i chwyddiant a ffactorau eraill, i'r graddau nad yw'r enillion hyn wedi'u dileu gan symudiadau ar i lawr dilynol mewn gwerth.

Mae’r gronfa wrth gefn yn cynnwys enillion ailbrisio a gronnwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef y dyddiad y crëwyd y gronfa wrth gefn. Mae enillion cronnol sy'n codi cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu cyfuno yn y balans ar y cyfrif addasu cyfalaf.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **(22,531)** | **Balans ar 1 Ebrill** | **(27,826)** |
| (5,762) | Ailbrisiad (i fyny)/i lawr asedau a cholledion amhariad nas codir ar y gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau | (1,877) |
| **(28,293)** | **(Gwarged) neu ddiffyg ar ailbrisio asedau anghyfredol heb eu postio i'r gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau** | **(29,703)** |
| 467 | Symiau a ddilëwyd i'r cyfrif addasu cyfalaf | 595 |
| **(27,826)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(29,108)** |

Cyfrif addasu cyfalaf

Mae'r cyfrif addasu cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amser sy'n codi o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifo am ddefnyddio asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan ddarpariaethau statudol. Mae'r cyfrif yn cael ei ddebydu gyda chost caffael, adeiladu neu wella gan fod dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddiadau yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda phostiadau cysoni o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i drosi ffigurau gwerth teg yn sail cost hanesyddol). Mae’r cyfrif yn cael ei gredydu â’r symiau a neilltuwyd gan y comisiynydd fel cyllid ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella. Mae'r cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar eiddo buddsoddi ac enillion a gydnabyddir ar asedau a roddwyd sydd eto i'w defnyddio gan y grŵp/comisiynydd.

Mae’r cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio a gronnwyd ar eiddo, peiriannau ac offer cyn 1 Ebrill 2007.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **(51,135)** | **Balans ar 1 Ebrill** | **(52,016)** |
| | Gwrthdroi eitemau sy’n ymwneud â gwariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | |
| 4,468 | Taliadau am ddibrisiant ac amhariad ar asedau anghyfredol | 5,155 |
| 1,192 | Colledion ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | 2,775 |
| (136) | Enillion ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | (49) |
| 224 | Symiau o asedau anghyfredol a ddilëwyd wrth eu gwaredu neu eu gwerthu fel rhan o’r enillion/colledion o waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 1,543 |
| | Addasu symiau a ddilëwyd o’r gronfa ailbrisio wrth gefn: | |
| (467) | - Dibrisiant Gwerth Teg | (595) |
| 0 | - Cywiro balansau'r flwyddyn flaenorol a ddilëwyd o'r gronfa ailbrisio wrth gefn | 0 |
| **(45,854)** | | **(43,187)** |
| | Cyllid cyfalaf a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | |
| (252) | Defnyddio derbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | (929) |
| (258) | Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wedi'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sydd wedi'u cymhwyso i gyllid cyfalaf | (49) |
| 0 | Cymhwyso grantiau i gyllid cyfalaf o'r cyfrif grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso | 0 |
| (169) | Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf a godir yn erbyn cronfa'r heddlu | (220) |
| (5,313) | Gwariant cyfalaf a godir yn erbyn y gronfa gyffredinol | (4,522) |
| **(5,992)** | | **(5,720)** |
| (170) | Symudiadau yng ngwerth eiddo buddsoddi ar y farchnad a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (261) |
| **(52,016)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(49,168)** |

Cyfrif absenoldebau cronnol

Mae'r cyfrif hwn yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar falans y gronfa gyffredinol o gronni ar gyfer absenoldebau digolledol a enillwyd ond nas cymerwyd yn ystod y flwyddyn. Mae

trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar falans y gronfa gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i'r cyfrif neu ohono.

| 2022/23<br>£'000 | | 2023/24<br>£'000 |
|---|---|---|
| **3,666** | **Balans ar 1 Ebrill** | **3,299** |
| (3,666) | Setlo neu ganslo croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | (3,299) |
| 3,299 | Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | 1,526 |
| **3,299** | **Balans ar 31 Mawrth** | **1,526** |

Cronfa bensiynau wrth gefn

Mae'r gronfa bensiynau wrth gefn yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifo buddion ôl-gyflogaeth ac ar gyfer ariannu buddion yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r prif gwnstabl yn rhoi cyfrif am fuddion ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod y buddion yn cael eu hennill gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r rhwymedigaethau a gydnabyddir i adlewyrchu chwyddiant, rhagdybiaethau newidiol ac enillion buddsoddi ar unrhyw adnoddau a neilltuwyd i fodloni'r costau.Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiannau a enillir gael eu hariannu gan fod y prif gwnstabl yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i gronfeydd pensiwn neu yn y pen draw yn talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae balans debyd y gronfa bensiwn felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a'r presennol a'r adnoddau y mae'r comisiynydd wedi'u neilltuo i'w bodloni.Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi ei neilltuo erbyn y bydd rhaid talu'r buddion.

| 2022/23<br>£'000 | | 2023/24<br>£'000 |
|---|---|---|
| **1,700,861** | **Balans ar 1 Ebrill** | **1,073,421** |
| (686,370) | (Enillion) neu golledion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau pensiwn | (50,795) |
| (16,450) | Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddion ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (17,317) |
| 75,380 | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn. | 47,864 |
| **1,073,421** | **Balans ar 31 Mawrth** | **1,053,173** |

Cronfa cyfran deg cydweithio wrth gefn

Mae'r gronfa cyfran deg cydweithio wrth gefn wedi'i sefydlu i gynrychioli ailddatganiad costau cydweithredu ac mae'n adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng gwerth teg costau cydweithredu a gwariant gwirioneddol yr aed iddo yn unol â safonau cyfrifyddu.

| 2022/23<br>£'000 | | 2023/24<br>£'000 |
|---|---|---|
| **(120)** | **Balans ar 1 Ebrill** | **(364)** |
| 120 | Gwrthdroi addasiad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | 364 |
| (364) | Symiau wedi'u haddasu ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | 3 |
| **(364)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **3** |

## 24. Datganiad llif arian – gweithgareddau gweithredu

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **57,206** | **(Gwarged) neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau** | **30,801** |
| | Addasiadau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod | |
| (4,468) | Dibrisiant | (5,155) |
| (5,762) | (Gwarged) neu ddiffyg ar ailbrisio asedau sefydlog | (1,877) |
| 4,876 | Enillion/(colledion) ailbrisio ar eiddo, peiriannau ac offer | (590) |
| (58,930) | Taliadau net a godir ar gyfer buddion ymddeol | (30,547) |
| (224) | Gwerthu asedau sefydlog (gwerth net ar y llyfrau) | (1,543) |
| (413) | Cyfraniad (i)/o ddarpariaethau | 61 |
| (14) | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn llog ar groniadau buddsoddiadau | 0 |
| 1 | (Cynnydd)/Gostyngiad mewn llog ar groniadau benthyca | (54) |
| (73) | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn stoc | 105 |
| 768 | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn dyledwyr | 3,999 |
| 2,842 | (Cynnydd)/Gostyngiad mewn credydwyr | 552 |
| **(61,397)** | | **(35,049)** |
| | Addasiadau ar gyfer eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu | |
| 252 | Elw o werthu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 929 |
| 5,574 | Taliadau eraill am weithgareddau ariannu – trefniadau asiantaeth | (3,500) |
| 491 | Taliadau am weithgareddau buddsoddi a derbyniadau ohonynt | 448 |
| **6,317** | | **(2,123)** |
| **2,126** | **Llif arian net o weithgareddau gweithredu** | **(6,371)** |

## 25. Datganiad llif arian – gweithgareddau buddsoddi

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 19,930 | Prynu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 8,419 |
| 68,000 | Prynu buddsoddiadau tymor byr a thymor hir | 55,000 |
| 425 | Taliadau eraill am weithgareddau buddsoddi | 455 |
| (252) | Elw o werthu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | (929) |
| (80,000) | Elw o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir | (55,000) |
| (917) | Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi | (903) |
| **7,186** | **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | **7,042** |

## 26. Datganiad llif arian – gweithgareddau ariannu

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 274 | Ad-daliadau o fenthyciadau tymor byr a thymor hir | (9,698) |
| (5,574) | Taliadau eraill am weithgareddau ariannu | 3,500 |
| **(5,300)** | **Llifau arian net o weithgareddau ariannu** | **(6,198)** |

## 27. Gwasanaethau asiantaeth

Yn unol â gofynion IAS 18 *Refeniw*, mae’r cod ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol pan fo sefydliad yn gweithredu fel asiant, na fydd trafodion yn cael eu hadlewyrchu yn natganiadau ariannol awdurdod, ac eithrio arian parod a gasglwyd neu wariant yr eir iddo gan yr asiant ar ran y pennaeth, felly ceir sefyllfa dyledwr neu sefyllfa credydwr ac mae'r arian parod net wedi'i gynnwys yn y gweithgareddau ariannu yn y datganiad llif arian.

Gan Bwyll

Ers mis Ebrill 2015, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yw’r arweinydd strategol ar gyfer gweinyddiaeth ariannol y partneriaeth ‘Gan Bwyll’.‘Gan Bwyll’ yw delwedd gyhoeddus Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru sy'n cynnwys y pedwar heddlu yng Nghymru, y 22 awdurdodau unedol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru (fel yr Awdurdod Cefnffyrdd).

Ariennir partneriaeth Gan Bwyll o ddwy brif ffynhonnell: grant gan Lywodraeth Cymru, a defnydd o incwm a geir o bresenoldeb troseddwyr ar gyrsiau ymwybyddiaeth cyflymder. Yn ystod 2023/24, cyflwynodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys hawliadau grant gwerth cyfanswm o £3.6 miliwn (2022/23: £2.9 miliwn), ac aed i wariant gwerth £8.5 miliwn (2022/23: £7.8 miliwn), ar ran y bartneriaeth.

Llun wrth Ymyl y Ffordd (PARS) a Chronfa Ddata Gorfodi'r Gyfraith (LEDS)

Yn 2021/22, dynodwyd y comisiynydd yr heddlu a throseddu, ar ran y Swyddfa Gartref, yn arweinydd cenedlaethol ar gyfer trefniadau dwy asiantaeth o’r enw “PARS – Llun wrth Ymyl y Ffordd” a “LEDS - Cronfa Ddata Gorfodi’r Gyfraith”. Mae LEDS yn brosiect cyfalaf gan y Swyddfa Gartref ar gyfer disodli systemau TGCh Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu a Chronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi bod yn gweinyddu'r gwaith o ddosbarthu cyllid grant i heddluoedd ar ran y Swyddfa Gartref.

Ni fu unrhyw effaith ariannol andwyol gan fod costau a aed iddynt wrth ddarparu'r swyddogaeth weinyddol wedi'u had-dalu o dan y trefniadau.

O 31 Mawrth 2024 ymlaen, rydym wedi cael ein cynghori gan y Swyddfa Gartref i gyfuno'r balansau sy'n cael eu dal mewn perthynas â'r trefniadau dwy asiantaeth hyn. Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan y comisiynydd £130,000 o arian heb ei ddosbarthu (31 Mawrth 2023: £470,000). Rhagwelir y bydd y balans hwn yn cael ei ddosbarthu yn ystod 2024/25 a bydd y costau yr eir iddynt yn cael eu hadennill.

## 28. Trefniadau Cydweithredol

Mae gan heddluoedd Cymru hanes hir a llwyddiannus o gydweithio i ddatblygu meysydd plismona arbenigol. Roedd hyn yn cynnwys y rhai a oedd o dan gylch gorchwyl Cyd-bwyllgor Awdurdodau Heddluoedd Cymru gynt. Bydd cydweithredu yn y dyfodol yn cael ei ysgogi gan yr angen i fodloni'r gofyniad plismona strategol a chan ganlyniadau'r asesiad strategol rhanbarthol o fygythiadau, risgiau a niwed i ranbarth de Cymru.

Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu pob heddlu yn gyfrifol am sicrhau bod y gofyniad plismona strategol yn cael ei fodloni. Fel rhan o hyn, bydd y comisiynydd yn ceisio gweithio ar y cyd â chomisiynwyr a heddluoedd eraill i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithiol posibl. Rheoleiddir cytundebau o'r fath gan adran 22A o Ddeddf yr Heddlu 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Mae'r gwasanaethau cydweithredol a'u cyllid yn parhau o dan drefniadau llywodraethu diwygiedig y comisiynydd a'r heddlu. Mae'r rhain i bob pwrpas yn cael eu hystyried yn 'gyllidebau cyfun' gyda chytundebau ar gyfer cyfraniadau ariannu yn cael eu gwneud a'u hamrywio o bryd i'w gilydd, gyda chefnogaeth rhai grantiau penodol gan y llywodraeth. Caiff y cyllidebau cyfun eu cynnal i bob pwrpas gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru ar ran y pedwar heddlu yng Nghymru.

Cyfanswm costau'r tîm cydweithredol yn 2023/24 oedd £422,000 (2022/23 £198,000) a chyfraniad Heddlu Dyfed-Powys at y costau hyn oedd £109,000 yn 2023/24 (2022/23 £49,000).

Isod cyflwynir incwm a gwariant prif weithgareddau'r unedau cydweithredol ynghyd â'r cyfraniadau cyllid a wnaed gan bob heddlu sy'n cymryd rhan.

Wedi'i gynnwys mewn polisïau cyfrifyddu o dan drefniadau cydweithredol mae esboniad o'r gofynion cyfrifyddu ar gyfer gweithrediadau ar y cyd. Mae IFRS11, cyfrifyddu ar gyfer trefniadau ar y cyd, yn ei gwneud yn ofynnol i incwm a gwariant fod yn destun triniaeth gyfrifo wahanol i'r hyn a aed iddo mewn gwirionedd. Yn unol â hynny, mae gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi cynyddu £2,506,000 (2022/23: £1,311,000) ac incwm/grantiau wedi cynyddu £2,503,000 (2022/23: £1,675,000); cynnydd net mewn gwariant o £3,000 (2022/23: gostyngiad o £364,000). Mae'r cynnydd net hwn wedi'i wrthdroi yn y Datganiad Symudiad Mewn Cronfeydd Wrth Gefn heb unrhyw effaith ar falans cronfa'r heddlu.

Mae asedau, dyledwyr a chredydwyr mewn perthynas â'r trefniadau wedi aros ym mantolenni'r heddluoedd ar sail perthnasedd.

** Mae Heddlu Gogledd Cymru yn seilio ei gostau swyddogion diogelu dynodedig ar incwm a gwariant yn hytrach na dyraniad yn seiliedig ar boblogaeth Cymru. Nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tasglu rhanbarthol, sy'n gweithredu yn heddluoedd de Cymru. Ar gyfer yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol, mae Heddlu Gogledd Cymru yn cyfrannu at ranbarth gogledd-orllewin Lloegr a gogledd Cymru.*

Roedd y datganiadau gwariant ac incwm ar gyfer 2023/24 ar gyfer y prif drefniadau cydweithio fel a ganlyn:

| | Uned cudd-wybodaeth gwrthderfysgaeth/adran arbennig | Cynghorwyr arbenigol gwrthderfysgaeth | Porth gwrthderfysgaeth/diogelwch penodol | Uned troseddau cyfundrefnol ranbarthol | Tasglu rhanbarthol | Cyd-uned arfau saethu | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Plismona cenedlaethol | Plismona cenedlaethol | Plismona cenedlaethol | Cudd-wybodaeth Ymchwilio | Cuddwybodaeth | Gweithrediadau arbenigol | Cyfanswm |
| **Dosbarthiad gwasanaeth** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant ar gyflogau | 9,241 | 627 | 3,697 | 11,642 | 1,663 | 14,666 | **41,536** |
| Gwariant nad ydyw'n ymwneud â chyflogau | 2,314 | 64 | 529 | 2,338 | 560 | 2,374 | **8,179** |
| **Gwariant gros** | **11,555** | **691** | **4,226** | **13,980** | **2,223** | **17,040** | **49,715** |
| Incwm grant penodol | (11,492) | (691) | (4,226) | (7,316) | 0 | (1,336) | **(25,061)** |
| Incwm | (63) | 0 | 0 | (116) | (29) | (844) | **(1,052)** |
| **Cyfanswm incwm a grantiau** | **(11,555)** | **(691)** | **(4,226)** | **(7,432)** | **(29)** | **(2,180)** | **(26,113)** |
| **(Gwarged) neu ddiffyg - i'w ariannu o gyfraniadau'r heddlu fel a ganlyn** | **0** | **0** | **0** | **6,548** | **2,194** | **14,860** | **23,602** |
| Cyfraniadau'r heddlu (net) | | | | | | | |
| Dyfed-Powys | 0 | 0 | 0 | (1,332) | (446) | (4,458) | **(6,236)** |
| Gwent | 0 | 0 | 0 | (1,701) | (570) | (2,972) | **(5,243)** |
| De Cymru | 0 | 0 | 0 | (3,515) | (1,178) | (7,430) | **(12,123)** |
| **Cyfanswm cyfraniadau'r heddlu** | **0** | **0** | **0** | **(6,548)** | **(2,194)** | **(14,860)** | **(23,602)** |

Roedd cyfraniad pob heddlu tuag at wariant ac incwm ar gyfer 2023/24 fel a ganlyn:

| | Uned cudd-wybodaeth gwrthderfysgaeth/adran arbennig | Cynghorwyr arbenigol gwrthderfysgaeth | Porth gwrthderfysgaeth/diogelwch penodol | Uned troseddau cyfundrefnol ranbarthol | Tasglu rhanbarthol | Cyd-uned arfau saethu | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarthiad gwasanaeth a sail dosraniad y cytunwyd arni | Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000 | Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000 | Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000 | Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000 | Cudd-wybodaeth (cyfraniad ariannol cytunedig – darpariaeth leol) £'000 | Gweithrediadau arbenigol (cyfraniad ariannol cytunedig – darpariaeth leol) £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Dyfed-Powys | 1,915 | 115 | 430 | 2,969 | 452 | 5,112 | **10,993** |
| Gwent | 2,182 | 131 | 490 | 3,384 | 577 | 3,408 | **10,172** |
| Gogledd Cymru* | 2,539 | 152 | 2,202 | 0 | 0 | 0 | **4,893** |
| De Cymru | 4,919 | 293 | 1,104 | 7,627 | 1,194 | 8,520 | **23,657** |
| **Gwariant gros** | **11,555** | **691** | **4,226** | **13,980** | **2,223** | **17,040** | **49,715** |
| Dyfed-Powys | (1,915) | (115) | (430) | (1,579) | (6) | (654) | **(4,699)** |
| Gwent | (2,182) | (131) | (490) | (1,799) | (7) | (436) | **(5,045)** |
| Gogledd Cymru* | (2,539) | (152) | (2,202) | 0 | 0 | 0 | **(4,893)** |
| De Cymru | (4,919) | (293) | (1,104) | (4,054) | (16) | (1,090) | **(11,476)** |
| **Cyfanswm incwm a grantiau** | **(11,555)** | **(691)** | **(4,226)** | **(7,432)** | **(29)** | **(2,180)** | **(26,113)** |

Mae'r datganiadau gwariant ac incwm ar gyfer 2022/23 ar gyfer y prif drefniadau cydweithredol fel a ganlyn:

| | Uned cudd-wybodaeth gwrthderfysgaeth | Cynghorwyr arbenigol gwrthderfysgaeth | Porth gwrthderfysgaeth/diogelwch penodol | Uned troseddau cyfundrefnol ranbarthol | Tasglu rhanbarthol | Cyd-uned arfau saethu | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Plismona cenedlaethol | Plismona cenedlaethol | Plismona cenedlaethol | Cudd-wybodaeth Ymchwilio | Cudd-wybodaeth | Gweithrediadau arbenigol | Cyfanswm |
| **Dosbarthiad gwasanaeth** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant ar gyflogau | 9,233 | 551 | 3,661 | 9,046 | 1,840 | 14,466 | **38,797** |
| Gwariant nad ydyw'n ymwneud â chyflogau | 1,468 | 43 | 441 | 1,893 | 510 | 1,751 | **6,106** |
| **Gwariant gros** | **10,701** | **594** | **4,102** | **10,939** | **2,350** | **16,217** | **44,903** |
| Incwm grant penodol | (10,689) | (594) | (4,102) | (5,804) | 0 | (1,493) | **(22,682)** |
| Incwm | (12) | 0 | 0 | 0 | (42) | (671) | **(725)** |
| **Cyfanswm incwm a grantiau** | **(10,701)** | **(594)** | **(4,102)** | **(5,804)** | **(42)** | **(2,164)** | **(23,407)** |
| **(Gwarged) neu ddiffyg - i'w ariannu o gyfraniadau'r heddlu fel a ganlyn** | **0** | **0** | **0** | **5,135** | **2,308** | **14,053** | **21,496** |
| Cyfraniadau'r heddlu (net) | | | | | | | |
| Dyfed-Powys | 0 | 0 | 0 | (1,044) | (469) | (4,216) | **(5,729)** |
| Gwent | 0 | 0 | 0 | (1,333) | (599) | (2,811) | **(4,743)** |
| De Cymru | 0 | 0 | 0 | (2,758) | (1,240) | (7,026) | **(11,024)** |
| **Cyfanswm cyfraniadau'r heddlu** | **0** | **0** | **0** | **(5,135)** | **(2,308)** | **(14,053)** | **(21,496)** |

Mae cyfraniad pob heddlu tuag at wariant ac incwm ar gyfer 2022/23 fel a ganlyn:

| | Uned cudd-wybodaeth gwrthderfysgaeth | Cynghorwyr arbenigol gwrthderfysgaeth | Porth gwrthderfysgaeth/diogelwch penodol | Uned troseddau cyfundrefnol ranbarthol | Tasglu rhanbarthol | Cyd-uned arfau saethu | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dosbarthiad gwasanaeth a sail dosraniad y cytunwyd arni** | **Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000** | **Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000** | **Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000** | **Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000** | **Cudd-wybodaeth (cyfraniad ariannol cytunedig – darpariaeth leol) £'000** | **Gweithrediadau arbenigol (cyfraniad ariannol cytunedig – darpariaeth leol) £'000** | **Cyfanswm £'000** |
| Dyfed-Powys | 1,778 | 99 | 425 | 2,334 | 478 | 4,865 | **9,979** |
| Gwent | 2,027 | 113 | 484 | 2,661 | 610 | 3,243 | **9,138** |
| Gogledd Cymru* | 2,368 | 131 | 2,113 | 0 | 0 | 0 | **4,612** |
| De Cymru | 4,528 | 251 | 1,080 | 5,944 | 1,262 | 8,109 | **21,174** |
| **Gwariant gros** | **10,701** | **594** | **4,102** | **10,939** | **2,350** | **16,217** | **44,903** |
| Dyfed-Powys | (1,778) | (99) | (425) | (1,244) | (9) | (649) | **(4,204)** |
| Gwent | (2,027) | (113) | (484) | (1,402) | (11) | (433) | **(4,470)** |
| Gogledd Cymru* | (2,368) | (131) | (2,113) | 0 | 0 | 0 | **(4,612)** |
| De Cymru | (4,528) | (251) | (1,080) | (3,158) | (22) | (1,082) | **(10,121)** |
| **Cyfanswm incwm a grantiau** | **(10,701)** | **(594)** | **(4,102)** | **(5,804)** | **(42)** | **(2,164)** | **(23,407)** |

Maes Tanio Tri-Llu – Prosiect Cyfalaf

Mae’r Prosiect Maes Tanio Tri-Llu yn brosiect cyfalaf ar y cyd rhwng Heddlu De Cymru, Heddlu Gwent a Heddlu Dyfed-Powys i adeiladu a gweithredu ased ar y cyd a fydd yn darparu cyfleuster hyfforddi gweithredol newydd ar gyfer y Cyd-uned Arfau Saethu. Mae'r ased yn cael ei adeiladu o fewn ardal Heddlu De Cymru ond bydd yn cael ei ariannu ar y cyd, ei berchnogi a'i weithredu gan y tri heddlu.

Cyfanswm y gwariant ar yr ased sy'n cael ei adeiladu ar 31 Mawrth 2024 yw £4.709 miliwn, gyda gwariant o £2.674 miliwn yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24. Dangosir dadansoddiad o’r gwariant hwn a’r cyllid ar ei gyfer gan y tri heddlu partner yn y tabl isod:

| Asedau sy’n cael eu hadeiladu | Heddlu Dyfed-Powys 26.72% | Heddlu De Cymru 44.35% | Heddlu Gwent 28.93% | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| **Balans agoriadol 1 Ebrill 2023** | 544 | 903 | 588 | **2,035** |
| Gwariant 2023/24 | 714 | 1,186 | 774 | **2,674** |
| **Balans terfynol 31 Mawrth 2024** | **1,258** | **2,089** | **1,362** | **4,709** |

## 29. Cydnabyddiaeth ariannol swyddogion

| Uwch-weithwyr 2023/24 | O | I | Cyflog cyfwerth ag amser llawn ar 31.03.24 neu'r dyddiad gorffen £ | Cyflog gwirioneddol, gan gynnwys lwfansau £ | Buddion mewn nwyddau neu wasanaethau – ceir ar brydles £ | Cyfanswm y gydnabyddiaeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn £ | Cyfraniadau pensiwn £ | Cyfanswm y gydnabyddiaeth £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Gwnstabl | 01/04/2023 | 31/03/2024 | **174,633** | 169,873 | 0 | **169,873** | 52,661 | **222,534** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl ** | 01/04/2023 | 11/12/2023 | **133,248** | 90,885 | 5,312 | **96,197** | 27,633 | **123,830** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro *** | 04/06/2023 | 31/03/2024 | **133,248** | 110,209 | 7,411 | **117,620** | 33,578 | **151,198** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol | 16/07/2023 | 31/03/2024 | **122,307** | 81,401 | 3,225 | **84,626** | 25,175 | **109,801** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (A) | 01/04/2023 | 15/07/2023 | **107,502** | 31,210 | 1,190 | **32,400** | 9,675 | **42,075** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (B) | 01/04/2023 | 03/06/2023 | **114,306** | 20,364 | 1,564 | **21,928** | 6,201 | **28,129** |
| Cyfarwyddwr Cyllid/Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl | 01/04/2023 | 31/03/2024 | **103,134** | 100,357 | 0 | **100,357** | 16,860 | **117,217** |
| Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad **** | 07/08/2023 | 31/03/2024 | **86,934** | 56,125 | 0 | **56,125** | 9,429 | **65,554** |
| Comisiynydd | 01/04/2023 | 31/03/2024 | **68,202** | 68,202 | 0 | **68,202** | 11,458 | **79,660** |
| Prif Swyddog Ariannol y Comisiynydd* | 01/04/2023 | 31/03/2024 | **92,652** | 60,015 | 0 | **60,015** | 10,083 | **70,098** |
| Prif Weithredwr* | 01/04/2023 | 31/03/2024 | **92,652** | 88,196 | 0 | **88,196** | 14,817 | **103,013** |
| Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau* | 01/04/2023 | 31/03/2024 | **60,678** | 59,824 | 0 | **59,824** | 9,882 | **69,706** |
| **Cyfanswm 2023/24** | | | | **936,661** | **18,702** | **955,363** | **227,452** | **1,182,815** |

*staff o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y comisiynydd
**ar 20 Mawrth 2023, dechreuodd y Dirprwy Brif Gwnstabl ar secondiad gyda Phrifysgol De Cymru yn swydd Rheolwr Rhaglen – Ymchwil ac Arloesi HYDRA.Ni dderbyniwyd unrhyw incwm ar gyfer y secondiad hwn.
***mae'r cyflog yn cynnwys ôl-daliad o £493 o 2021/22 am ei gyfnod fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol Cydweithrediad Rhanbarthol. Mae £153 o fewn cyfraniadau pensiwn yn ymwneud â hyn hefyd
****mae hon yn swydd newydd a grëwyd yn y flwyddyn 2023/24

Mae rôl y pennaeth staff wedi'i hailenwi'n brif weithredwr ac fe'i daliwyd gan yr un gweithiwr am y flwyddyn gyfan.
Darperir cerbyd i'r prif gwnstabl, fodd bynnag nid oes unrhyw rwymedigaeth i dalu treth incwm mewn perthynas â'r budd gan fod y swyddog hwn ar alwad drwy'r amser.

Darperir cerbydau i'r prif gwnstabl a'r dirprwy brif gwnstabl, fodd bynnag nid oes unrhyw rwymedigaeth i dalu treth incwm mewn perthynas â'r budd gan fod y ddau swyddog hyn ar alwad drwy'r amser. Mae hyn yn unol ag adran 248A o'r Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau), sy'n datgan: *"1)Mae'r adran hon yn gymwys pan sicrheir fod a) cerbyd brys ar gael i unigolyn a gyflogir mewn gwasanaeth brys at ddefnydd preifat yr*

*unigolyn a b) bod y telerau ar gyfer sicrhau ei fod ar gael yn gwahardd ei ddefnydd preifat ac eithrio pan fo'r unigolyn ar alwad neu'n cymryd rhan mewn cymudo ar alwad ac c) nad yw'r unigolyn yn gwneud defnydd preifat ohoni ac eithrio o dan amgylchiadau o'r fath, 2) Nid oes atebolrwydd i dreth incwm yn codi yn rhinwedd Pennod 6 neu 10 neu Ran 3 (buddion trethadwy: ceir, faniau ac ati ac atebolrwydd gweddilliol i dâl) mewn perthynas â'r buddion.*

| Uwch-weithwyr 2022/23 | O | I | Cyflog cyfwerth ag amser llawn ar 31.03.23 neu'r dyddiad gorffen £ | Cyflog gwirioneddol, gan gynnwys lwfansau £ | Buddion mewn nwyddau neu wasanaethau – ceir ar brydles £ | Cyfanswm y gydnabyddiaeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn £ | Cyfraniadau pensiwn £ | Cyfanswm y gydnabyddiaeth £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Gwnstabl | 01/04/2022 | 31/03/2023 | **163,208** | 162,336 | 0 | **162,336** | 50,324 | **212,660** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl** | 01/04/2022 | 19/03/2023 | **124,530** | 126,245 | 0 | **126,245** | 41,412 | **167,657** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol | 01/04/2022 | 20/08/2022 | **119,220** | 46,150 | 0 | **46,150** | 14,306 | **60,456** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (A) | 05/03/2023 | 31/03/2023 | **107,622** | 7,803 | 6,099 | **13,902** | 2,419 | **16,321** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (B) | 10/07/2022 | 31/03/2023 | **114,306** | 84,314 | 4,800 | **89,114** | 25,635 | **114,749** |
| Cyfarwyddwr Cyllid/Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl | 01/04/2022 | 31/03/2023 | **96,468** | 96,468 | 0 | **96,468** | 17,171 | **113,639** |
| Comisiynydd | 01/04/2022 | 31/03/2023 | **68,202** | 68,044 | 0 | **68,044** | 12,055 | **80,099** |
| Prif Swyddog Ariannol y Comisiynydd* | 01/04/2022 | 31/03/2023 | **86,469** | 56,732 | 0 | **56,732** | 10,098 | **66,830** |
| Pennaeth Staff* | 01/04/2022 | 05/06/2022 | **86,469** | 15,612 | 0 | **15,612** | 2,779 | **18,391** |
| Prif Weithredwr* | 06/06/2022 | 31/03/2023 | **86,469** | 69,604 | 0 | **69,604** | 12,389 | **81,993** |
| Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau* | 01/04/2022 | 31/03/2023 | **56,229** | 56,117 | 0 | **56,117** | 9,989 | **66,106** |
| **Cyfanswm 2022/23** | | | | **789,425** | **10,899** | **800,324** | **198,577** | **998,901** |

*staff o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y comisiynydd
**ar 20 Mawrth 2023, dechreuodd y dirprwy brif gwnstabl ar secondiad gyda Phrifysgol De Cymru yn swydd Rheolwr Rhaglen – Ymchwil ac Arloesi HYDRA. Ni dderbyniwyd unrhyw incwm ar gyfer y secondiad hwn
Cafodd swydd y Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaeth ei heithrio o gyfrifon 2022/23 oherwydd bod y cyflog cyfwerth ag amser llawn yn is na £60,000. Mae wedi'i gynnwys fel cymhariaeth ar gyfer cyfrifon 2023/24.

Darperir cerbydau i'r prif gwnstabl a'r dirprwy brif gwnstabl, fodd bynnag nid oes unrhyw rwymedigaeth i dalu treth incwm mewn perthynas â'r budd gan fod y ddau swyddog hyn ar alwad drwy'r amser. Mae hyn

yn unol ag adran 248A o’r Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau), sy’n datgan: “1)Mae’r adran hon yn gymwys pan sicrheir fo a) cerbyd brys ar gael i unigolyn a gyflogir mewn gwasanaeth brys at ddefnydd preifat yr unigolyn a b) bod y telerau ar gyfer sicrhau ei fod ar gael yn gwahardd ei ddefnydd preifat ac eithrio pan fo’r unigolyn ar alwad neu’n cymryd rhan mewn cymudo ar alwad ac c) nad yw’r unigolyn yn gwneud defnydd preifat ohoni ac eithrio o dan amgylchiadau o’r fath, 2) Nid oes atebolrwydd i dreth incwm yn codi yn rhinwedd Pennod 6 neu 10 neu Ran 3 (buddion trethadwy: ceir, faniau ac ati ac atebolrwydd gweddilliol i dâl) mewn perthynas â'r buddion.

Nodwyd gordaliad cyflog i'r prif weithredwr a'r prif swyddog cyllid yn 2021/22 yn ystod 2022/23. Mae'r gordaliad wedi'i addasu ac mae'r gordaliadau'n cael eu hadennill.

Mae manylion y gordaliad fel a ganlyn:

| | 2021/22 Swm a dalwyd £ | 2021/22 Swm dyledus £ | 2021/22 Swm a ordalwyd £ | Symiau a adenillwyd £ | Symiau heb eu talu ar 31/03/24 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr | 104,193 | 99,765 | 4,428 | 3,690 | 738 |
| Prif Swyddog Cyllid | 70,401 | 67,409 | 2,992 | 2,992 | 0 |
| | **174,594** | **167,174** | **7,420** | **6,682** | **738** |

**Gweithwyr eraill (ac eithrio uwch swyddogion – wedi'u rhestru uchod)**

Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y grŵp sy'n derbyn mwy na £60,000 o gydnabyddiaeth am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr) mewn bandiau o £5,000:

:

| 2022/23 Nifer y gweithwyr | | 2023/24 Nifer y gweithwyr |
|---|---|---|
| 39* | £60,000 - £64,999 | 72 |
| 10 | £65,000 - £69,999 | 23 |
| 2 | £70,000 - £74,999 | 7 |
| 5 | £75,000 - £79,999 | 3 |
| 5 | £80,000 - £84,999 ** | 4 |
| 2 | £85,000 - £89,999 | 0 |
| 5 | £90,000 - £94,999 ** | 6 |
| 0 | £95,000 - £99,999 | 6 |
| 1 | £100,000-£104,999 | 2 |
| 0 | £105,000-£109,999 | 0 |
| 0 | £110,000-£114,999 | 2 |
| 0 | £115,000-£119,999 | 0 |
| 0 | £120,000-£124,999 | 0 |
| 0 | £125,000-£129,999 | 0 |

Cyflogwyd un gweithiwr a oedd yn derbyn mwy na £60,000 am y flwyddyn gan y Comisiynydd yn 2023/24. Mae wedii gynnwys yn y band £60,000-£64,999.
*Cafodd ffigur cymharol 2022/23 ei gynyddu gan un gweithiwr yn dilyn adolygiad o ymadawyr yn ystod y flwyddyn

** Mae cydnabyddiaeth yn cynnwys iawndal am golli swydd

<u>Cyflog dros £150,000</u>

Mae un heddwas Dr Richard Lewis, y prif gwnstabl, yn derbyn tâl blynyddol o £174,633 (2022/23: £163,208).

<u>Cymhareb Cydnabyddiaeth Prif Gwnstabl/ Tâl y Prif Weithredwr</u>

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn 2014 fel y'u diwygiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r wybodaeth ganlynol am y gymhareb gydnabyddiaeth ariannol:

a) cydnabyddiaeth prif gwnstabl/prif weithredwr y corff yn ystod y flwyddyn y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddi;

b) canolrif cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn holl weithwyr y corff a oedd yn eu swyddi ar 31 Mawrth 2024;

c) cymhareb rhwng y swm yn is-baragraff (a) a'r swm yn is-baragraff (b).

Mae cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog sylfaenol, goramser, lwfansau a buddion mewn nwyddau neu wasanaethau.

**Comisiynydd – Prif Weithredwr**

Tâl y prif weithredwr ar gyfer 2023/24 oedd £92,652 (2022/23: £86,469)

Canolrif tâl cyfwerth ag amser llawn holl gyflogeion y Comisiynydd ar 31 Mawrth 2024 oedd £39,183 (2022/23: £39,183)

Cymhareb tâl y prif weithredwr i dâl canolrifol cyflogai'r comisiynydd oedd 2:36:1 (2022/23: 2:21:1)

**Prif Gwnstabl**

Tâl blynyddol y prif gwnstabl oedd £174,633 (2022/23: £163,208). Ni dderbyniodd y prif gwnstabl unrhyw fuddiant mewn nwyddau yn ystod 2023/24 (2022/23: dim)

Canolrif cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn holl weithwyr y prif gwnstabl ar 31 Mawrth 2024 oedd £39,307 (2022/23: £37,083)

Y gymhareb rhwng cydnabyddiaeth y prif gwnstabl a chanolrif cydnabyddiaeth gweithwyr y prif gwnstabl oedd 4:44:1 (2022/23: 4:40:1)

**Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio**

Talwyd y symiau canlynol i aelodau yn 2023/24 a 2022/23.

| Grŵp 2022/23 £'000 | Comisiynydd 2022/23 £'000 | | Grŵp 2023/24 £'000 | Comisiynydd 2023/24 £'000 |
|---:|---:|---|---:|---:|
| 4 | 4 | Lwfansau | 2 | 2 |
| **4** | **4** | **Cyfanswm** | **2** | **2** |

## 30. Costau archwilio allanol

Aeth y comisiynydd a'r prif gwnstabl i ffioedd archwilio allanol ar y cyd ag Archwilio Cymru. Rhennir cyfanswm y costau yn gyfartal rhwng datganiad o gyfrifon y grŵp/comisiynydd a datganiad o gyfrifon y prif gwnstabl.

| 2022/23<br>£'000 | Maes gwaith archwilio | 2023/24<br>£'000 |
|---:|---|---:|
| 92 | Archwilio cyfrifon | 97 |
| 5 | Defnydd o adnoddau | 6 |
| **97** | **Cyfanswm** | **103** |

## 31. Grantiau ac incwm arall

Credydodd y comisiynydd y grantiau canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2022/23 £'000 (Ailddatganwyd) | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| | Credyd i drethiant ac incwm grant amhenodol | |
| (34,311) | Grant refeniw yr heddlu | (34,432) |
| (17,706) | Grant llawr Cymru | (17,972) |
| (8,477) | Grant cynnal refeniw | (8,319) |
| (258) | Grantiau a chyfraniadau cyfalaf | (49) |
| **(60,752)** | **Cyfanswm y grantiau a gredydwyd i drethiant ac incwm grantiau amhenodol** | **(60,772)** |
| | Credyd i wasanaethau | |
| | *Grantiau refeniw* | |
| (3,412) | Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr heddlu | (3,446) |
| (3,220) | Grantiau gwrthderfysgaeth | (3,349) |
| (1,302) | Grant penodol – pensiynau | (1,302) |
| (1,216) | Rhaglen Uplift yr heddlu | (2,494) |
| (496) | Grant arbennig y Swyddfa Gartref – dyfarniad cyflog | (2,337) |
| (298) | Menter ariannu breifat | (285) |
| (302) | Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan | (300) |
| (318) | Grant datgelu a gwahardd | (350) |
| (195) | Grant benthyciadau cyfalaf | (195) |
| (13) | Grant rhaglen Data Gorfodi'r Gyfraith Cenedlaethol (LEDS) | (162) |
| (337) | Grant Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona | (337) |
| 0 | Grant arbennig y Swyddfa Gartref - cyllid i gefnogi cost trwyddedau meddalwedd | (142) |
| 0 | Grant Swyddfa Prif Gynghorydd Gwyddonol yr Heddlu (OPCSA) | (90) |
| (13) | Grant dyletswydd trais difrifol | (183) |
| 0 | Grant ar gyfer cydgysylltu camau gweithredu Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn y cynllun O'r Dechrau i'r Diwedd | (60) |
| (118) | Seiberdroseddu arbenigol - Grant Opsiwn 3 | (68) |
| (94) | Grantiau refeniw eraill | (150) |
| **(11,334)** | **Cyfanswm y grantiau refeniw y rhoddwyd cyfrif amdanynt gan yr heddlu** | **(15,250)** |
| (1,405) | Gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr | (1,417) |
| (91) | Cronfa Strydoedd Mwy Diogel | (443) |
| (318) | Cronfa rhaglen Cyflawnwyr Cam-drin Domestig | 0 |
| (57) | Cyllid ar gyfer datblygu cadwrfa ganolog yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl | (30) |
| **(1,871)** | **Cyfanswm y grantiau refeniw y rhoddwyd cyfrif amdanynt gan y comisiynydd** | **(1,890)** |
| | *** Grantiau cydweithredol* | |
| (477) | Grantiau gwrthderfysgaeth a'r Gyd-uned Arfau Saethu – addasiad cyfran deg | 204 |
| **(13,682)** | **Cyfanswm y grantiau a gredydwyd i wasanaethau** | **(16,936)** |

Credydodd y comisiynydd yr incwm arall canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2022/23 Ailddatganwyd £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| | Credyd i wasanaethau | |
| | *Incwm arall* | |
| (537) | Cydgymorth i heddluoedd eraill | (452) |
| (620) | Cyfraniadau cyrff cyhoeddus eraill | (1,116) |
| (2,198) | Incwm o secondiadau | (2,433) |
| (803) | Gwerthiannau a thaliadau | (703) |
| (75) | Derbyniadau yswiriant | (11) |
| (142) | Cynllun casglu cerbydau | (159) |
| (349) | Costau'r erlyniad wedi'u hadennill | (244) |
| (5) | Rhoddion | (12) |
| (115) | Codi tâl yn y ddalfa – Y Swyddfa Gartref | (423) |
| (1,835) | Ffioedd a thaliadau – ailhyfforddi gyrwyr | (1,565) |
| (1,273) | Incwm/Adenillion eraill – Gan Bwyll (elfen Dyfed-Powys) | (1,415) |
| (570) | Incwm arall | (463) |
| (299) | Incwm ad-daliadau mewnol – TGCh | (140) |
| (431) | Incwm ad-daliadau mewnol – arall | (879) |
| **(9,252)** | **Cyfanswm yr incwm arall y rhoddwyd cyfrif amdano gan y comisiynydd** | **(10,015)** |
| | *** Incwm cydweithredol* | |
| (63) | Trefniadau cydweithredol – addasiad cyfran deg | (1033) |
| **(9,315)** | **Cyfanswm yr incwm arall a gredydwyd i wasanaethau** | **(11,048)** |

**Mae comisiynwyr heddlu a throseddu a heddluoedd Cymru yn cydymffurfio â gofynion sy’n codi o ganllawiau CIPFA “Cyfrifo ar gyfer Cydweithio”. Mae'r canllawiau hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt asesu'r holl weithgarwch cydweithredol ac addasu ar gyfer eu cyfran deg o grant ac incwm arall yn eu cyfrifon unigol.

## 32. Partïon cysylltiedig

Mae'n ofynnol i'r grŵp/comisiynydd ddatgelu trafodion sylweddol gyda phartïon cysylltiedig, hy cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu i ddylanwadu ar y grŵp/comisiynydd neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y grŵp/comisiynydd. Mae datgelu'r trafodion hyn yn galluogi darllenwyr i asesu i ba raddau y gallai'r grŵp/comisiynydd fod wedi'u cyfyngu yn eu gallu i weithredu'n annibynnol neu y gallai fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r grŵp/comisiynydd.

<u>Llywodraeth ganolog a chyrff cyhoeddus eraill</u>

Mae gan lywodraeth ganolog ddylanwad sylweddol dros weithrediadau cyffredinol y grŵp/comisiynydd – mae’n gyfrifol am ddarparu’r fframwaith statudol y mae’r grŵp/comisiynydd yn

gweithredu oddi mewn iddo. Mae hefyd yn darparu'r rhan fwyaf o'i chyllid ar ffurf grantiau ac yn rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan y grŵp/comisiynydd â phartïon eraill.Derbynnir nifer o grantiau gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt delerau ac amodau llym a nodir y rhain yn Nodyn 31.

Llywodraeth leol

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn derbyn incwm ar ffurf praeseptau o gronfeydd casglu'r dreth gyngor awdurdodau lleol. Mae'r incwm a dderbyniwyd ar gyfer 2023/24 a 2022/23 wedi'i nodi isod:

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---:|---|---:|
| (21,675) | Cyngor Sir Caerfyrddin | (23,471) |
| (17,481) | Cyngor Sir Penfro | (18,712) |
| (18,301) | Cyngor Sir Powys | (20,090) |
| (9,304) | Cyngor Sir Ceredigion | (10,245) |
| **(66,761)** | **Cyfanswm** | **(72,518)** |

Uwch-swyddogion

Gwnaeth y Comisiynydd eistedd ar fwrdd Cwmni TGCh yr Heddlu tan fis Hydref 2023. Mae Cwmni TGCh yr Heddlu yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn eiddo'n gyfan gwbl i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ledled Cymru a Lloegr.Fe'i sefydlwyd i gefnogi plismona i wneud pobl yn fwy diogel trwy well TGCh a thrwy geisio gweithredu fel pont rhwng y byd plismona, y byd technolegol a'r byd masnachol.Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, talodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gyfanswm o £284,000 (2022/23: £208,000) i Gwmni TGCh yr Heddlu.

Mae'r Comisiynydd yn aelod o fwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu. Mae Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu yn darparu cymorth awyr i heddluoedd ledled Cymru a Lloegr. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn cael anfoneb gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gorllewin Swydd Efrog am y gwasanaeth hwn ac yn ystod 2023/24, y cyfanswm a anfonebwyd mewn perthynas â Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu oedd £381,000 (2022/23: £430,000). Mae'r heddlu hefyd yn secondio dau swyddog i Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu ar sail adennill costau llawn.

Ni wnaeth unrhyw uwch-swyddogion eraill ddatganiadau o unrhyw berthnasoedd â phartïon cysylltiedig ar gyfer 2023/24.

Endidau a reolir neu a ddylanwadir yn sylweddol gan y grŵp/comisiynydd

Mae'r comisiynydd, y prif gwnstabl a'r ddau brif swyddog ariannol yn ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth "Dyfed-Powys Diogel".Ceir rhagor o wybodaeth am yr ymddiriedolaeth yn nodyn 40, 'Cronfeydd Ymddiriedolaeth'.Yn ystod 2023/24, ni chynhaliodd y grŵp unrhyw drafodion ariannol gyda Dyfed-Powys Diogel (2022/23: dim).

Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio

Dangosir cyfanswm y lwfansau a'r treuliau a dalwyd i aelodau yn ystod y flwyddyn yn nodyn 29.

Yn ystod 2023/24, mae un aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi bod yn cael ei gyflogi gan Gymdeithas Tai Barcud sy'n bartner i Heddlu Dyfed-Powys. Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, ni fu unrhyw drafodion rhwng Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a'r gymdeithas tai.

## 33. Gwariant cyfalaf ac ariannu cyfalaf

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf yr aed iddo yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu.Lle bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu yn y blynyddoedd i ddod gan daliadau i refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan y grŵp/comisiynydd, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y cyllid cyfalaf angenrheidiol, sef mesur o'r gwariant cyfalaf yr aed iddo yn hanesyddol gan y grŵp/comisiynydd sydd eto i'w ariannu.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **7,824** | **Cyllid cyfalaf angenrheidiol agoriadol** | **21,991** |
| 20,157 | Eiddo, peiriannau ac offer | 7,488 |
| 2 | Eiddo buddsoddi | 0 |
| 0 | Asedau a ddelir i'w gwerthu | 0 |
| | Ffynonellau cyllid: | |
| (252) | Derbynebion cyfalaf | (929) |
| (258) | Grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau eraill | (49) |
| (974) | Swm a neilltuwyd o refeniw (cronfa gyfalaf a glustnodwyd) | 0 |
| (4,339) | Cyfraniadau refeniw uniongyrchol | (4,523) |
| (169) | Isafswm darpariaeth refeniw | (220) |
| **21,991** | **Cyllid cyfalaf angenrheidiol terfynol** | **23,758** |
| | Eglurhad o symudiadau yn ystod y flwyddyn: | |
| 169 | Ariannu cyfalaf (isafswm darpariaeth refeniw) | 220 |
| (14,336) | Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthyca (heb ei gefnogi gan gymorth ariannol y llywodraeth) | (1,987) |
| **(14,167)** | **(Cynnydd)/gostyngiad yn y cyllid cyfalaf angenrheidiol** | **(1,767)** |

Mae'r lleiafswm darpariaeth refeniw yn mesur yr angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf, er efallai na fydd y benthyca hwn o reidrwydd yn digwydd yn allanol. Mae'r tabl uchod yn cynrychioli unrhyw gynnydd yn yr angen i fenthyca, namyn unrhyw isafswm darpariaeth refeniw.

Yn 2023/24 y lleiafswm darpariaeth refeniw yw £220,000 (2022/23: £169,000). Mae'r lleiafswm darpariaeth refeniw yn daladwy yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol, yn unol â'r polisi lleiafswm darpariaeth refeniw sydd wedi'i gynnwys yn strategaeth rheoli'r trysorlys 2023/24, a amlinellir yn yr adran polisi cyfrifyddu.

## 34. Prydlesau

### Grŵp/Comisiynydd fel Prydlesai

Prydlesau gweithredu

Mae'r grŵp/comisiynydd yn prydlesu eiddo oddi wrth berchnogion eiddo eraill lle bo'n briodol ac yn fforddiadwy, i ddarparu llety addas ar gyfer plismona gweithredol a chefnogaeth. Mae gan y grŵp/comisiynydd hefyd brydlesau gweithredu ar gyfer peiriannau ac offer sy'n cynnwys llungopïwyr.

Y lleiafswm taliadau prydles yn y dyfodol sy'n ddyledus o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---:|---|---:|
| 204 | Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 192 |
| 402 | Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 443 |
| 645 | Hwyrach na phum mlynedd | 746 |
| **1,251** | **Cyfanswm** | **1,381** |

Y gwariant a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r prydlesau hyn oedd:

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---:|---|---:|
| 220 | Isafswm taliadau prydles | 232 |
| **220** | **Cyfanswm** | **232** |

**Grŵp/Comisiynydd fel prydleswr**

Prydlesau gweithredu

Mae'r grŵp/comisiynydd yn prydlesu rhan o'i bortffolio eiddo i ddarparu llety addas a fforddiadwy i awdurdodau sector cyhoeddus eraill.

Yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol sy'n dderbyniadwy o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

| Grŵp 2022/23 £'000 | Comisiynydd 2022/23 £'000 | | Grŵp 2023/24 £'000 | Comisiynydd 2023/24 £'000 |
|---:|---:|---|---:|---:|
| 318 | 318 | Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 293 | 293 |
| 1,015 | 1,015 | Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 1,058 | 1,058 |
| 740 | 740 | Hwyrach na phum mlynedd | 640 | 640 |
| **2,073** | **2,073** | **Cyfanswm** | **1,991** | **1,991** |

## 35. Colledion amhariad

Nid oedd unrhyw golledion amhariad yn ystod 2023/24 (2022/23: £dim)

## 36. Buddion terfynu

| 2022/23 Nifer yr ymadawiadau y cytunwyd arnynt Cyfwerth ag amser llawn | 2022/23 Cost ymadael (gan gynnwys taliad yn lle rhybudd) £'000 | Band cost pecyn ymadael | 2023/24 Nifer yr ymadawiadau y cytunwyd arnynt (ac eithrio diswyddiadau gorfodol) Cyfwerth ag amser llawn | 2023/24 Nifer y diswyddiadau gorfodol y cytunwyd arnynt Cyfwerth ag amser llawn | 2023/24 Cost ymadael (gan gynnwys taliad yn lle rhybudd a diswyddiadau gorfodol) £'000 |
|---:|---:|---|---:|---:|---:|
| 1.0 | 2 | £0 - £20,000 | 7.0 | 2.0 | 70 |
| 0.0 | 0 | £20,001 - £40,000 | 3.0 | 1.0 | 104 |
| 0.0 | 0 | £40,001 - £60,000 | 0.0 | 0.0 | 0 |
| 0.0 | 0 | £60,001 - £80,000 | 1.0 | 2.0 | 196 |
| 0.0 | 0 | £80,001 - £100,000 | 1.0 | 0.0 | 92 |
| 0.0 | 0 | £100,001 - £150,000 | 2.0 | 0.0 | 228 |
| **1.0** | **2** | | **14.0** | **5.0** | **690** |

Talwyd pedwar ar bymtheg o becynnau ymadael (gan gynnwys taliad yn lle rhybudd) yn ystod 2023/24 (2022/23: un). Bu cynnydd oherwydd adolygiad o arbedion yr heddlu.

## 37. Cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio

Cymryd rhan mewn cynlluniau pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r grŵp yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddion ôl-gyflogaeth.Er na fydd y buddion hyn yn daladwy hyd nes y bydd gweithwyr yn ymddeol, mae gan y grŵp ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg y mae gweithwyr yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae'r grŵp yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl-gyflogaeth:

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Sir Caerfyrddin – mae hwn yn gynllun buddion diffiniedig wedi'i ariannu (Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio neu CARE - Career Average Revalued Earnings), sy'n golygu bod y grŵp a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, wedi'i chyfrifo ar lefel a fwriedir i fantoli'r rhwymedigaethau pensiynau gydag asedau buddsoddi.
- Cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu – mae hwn yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu enillion cyfartalog gyrfa wedi'u hailbrisio, felly nid oes gan y gronfa asedau buddsoddi.Ariennir buddion sy'n daladwy gan gyfraniadau gan gyflogwyr a gweithwyr a thelir unrhyw wahaniaeth rhwng buddion taladwy a chyfraniadau derbyniadwy gan grant atodol gan y Swyddfa Gartref.

**Prisio rhwymedigaethau'r cynllun**

Fel rhan allweddol o'r ymarfer llunio datganiad o gyfrifon blynyddol, cyflogir actiwariaid i gynnal asesiad o rwymedigaethau, asedau a chostau pensiwn i'w cynnwys yn y fantolen a'r Datganiad

Incwm a Gwariant Cynhwysfawr o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Yn draddodiadol cynhaliwyd y rhain ar sail prisiad llawn bob tair blynedd gyda dull treigl ymlaen yn cael ei gymhwyso yn y blynyddoedd interim.

Trafodion sy'n ymwneud â buddion ôl-gyflogaeth

Mae cost buddion ymddeoliad yn cael ei chydnabod yn nghost gwasanaethau a adroddir pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau yn y pen draw.

Fodd bynnag, mae'r tâl y mae'n ofynnol i'r grŵp ei godi yn erbyn y dreth gyngor yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly mae cost wirioneddol buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei gwrthdroi allan o'r gronfa gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad Mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r tabl canlynol yn disgrifio trafodion a wnaed yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a balans y gronfa gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad Mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

Mae trosglwyddiad o fewn grŵp wedi'i brosesu o gyfrifon y prif gwnstabl i gyfrifon y comisiynydd, gan nad yw'r prif gwnstabl yn gyfrifol am ddal cronfeydd wrth gefn.

| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun pensiwn yr heddlu | | | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun pensiwn yr heddlu | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp 2022/23 £'000 | Comisiynydd 2022/23 £'000 | Grŵp 2022/23 £'000 | Comisiynydd 2022/23 £'000 | | Grŵp 2023/24 £'000 | Comisiynydd 2023/24 £'000 | Grŵp 2023/24 £'000 | Comisiynydd 2023/24 £'000 |
| | | | | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) | | | | |
| | | | | Cost gwasanaethau | | | | |
| (12,296) | (270) | (38,181) | 0 | Cost gwasanaeth presennol | (5,196) | (103) | (16,005) | 0 |
| (119) | 0 | 0 | 0 | Arall | (652) | 0 | 0 | 0 |
| | | | | Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi | | | | |
| (2,086) | (46) | (44,934) | 0 | Costau llog net | 613 | 12 | (50,672) | 0 |
| **(14,501)** | **(316)** | **(83,115)** | **0** | **Cyfanswm y budd ôl-gyflogaeth a godwyd ar warged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau** | **(5,235)** | **(91)** | **(66,677)** | **0** |
| | | | | Budd ôl-gyflogaeth arall a godwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | | | |
| | | | | Ailfesur y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net yn cynnwys: | | | | |
| (9,423) | (207) | 0 | 0 | Elw ar asedau'r cynllun (ac eithrio'r swm sydd wedi'i gynnwys yn y gost llog net) | 11,360 | 226 | 0 | 0 |
| 7,363 | 161 | 9,302 | 0 | Enillion a cholledion ailfesur yn deillio o newidiadau mewn tybiaethau demograffig | 2,233 | 44 | 20,752 | 0 |
| 124,637 | 2,733 | 676,302 | 0 | Enillion a cholledion ailfesur yn deillio o newidiadau mewn tybiaethau ariannol | 6,993 | 139 | 36,862 | 0 |
| (23,978) | (526) | (87,952) | 0 | Enillion/(colledion) ailfesur yn deillio o brofiad | (781) | (16) | (6,348) | 0 |
| (9,881) | (218) | 0 | 0 | Addasiad gwarged IFRIC 14 | (20,276) | (403) | 0 | 0 |
| **74,217** | **1,627** | **514,537** | **0** | **Cyfanswm y buddiant ôl-gyflogaeth a godwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(5,706)** | **(101)** | **(15,411)** | **0** |
| 0 | 72,590 | 0 | 514,537 | Costau comisiynu (trosglwyddo o fewn grŵp) | 0 | (5,605) | 0 | (15,411) |
| **74,217** | **74,217** | **514,537** | **514,537** | **Cyfanswm cost net** | **(5,706)** | **(5,706)** | **(15,411)** | **(15,411)** |
| | | | | Datganiad symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn | | | | |
| 14,501 | 14,501 | 83,115 | 83,115 | Gwrthdroi taliadau net a wnaed i'r gwarged neu'r diffyg am ddarparu gwasanaethau ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth yn unol â'r cod | 5,235 | 5,235 | 66,677 | 66,677 |
| | | | | Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn balans y gronfa gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn | | | | |
| (5,293) | (5,293) | (33,393) | (33,393) | Cyfraniadau cyflogwyr yn daladwy i'r cynllun | (5,706) | (5,706) | (35,659) | (35,659) |

Addasiad gwarged IFRIC

Roedd mantolen IAS19 yn dangos gwarged ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o £30.157 miliwn ar 31 Mawrth 2024.

Mae '*IFRIC 4 - IAS19 – Y cyfyngiad ar ased budd diffiniedig, isafswm y gofyniad cyllido a'u rhyngweithio'* yn mynd i'r afael ag i ba raddau y gellir cydnabod gwarged IAS19 ar y fantolen ac yn nodi, pan fydd gan endid warged, y bydd yn mesur yr ased buddion diffiniedig net fel yr isaf o:

a) Y gwarged yn y cynllun buddion diffiniedig;

b) Uchafswm yr ased, a bennir gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt (IAS19).

Yr uchafswm asedau yw "gwerth presennol unrhyw fuddion economaidd sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun neu ostyngiadau mewn cyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol".

Gwnaed cyfrifiadau a phenderfynwyd bod angen addasu uchafswm asedau i ddod â gwarged net yr ased i lawr i £ddim. Mae hyn er mwyn atal y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol rhag dangos ased sy'n perthyn i aelodau'r cynllun yn hytrach na'r cynllun ei hun.

Asedau a rhwymedigaethau pensiynau a gydnabyddir yn y fantolen

Mae'r swm a gynhwyswyd yn y fantolen sy'n codi o rwymedigaeth y grŵp mewn perthynas â'i gynlluniau buddion diffiniedig fel a ganlyn:

| 2023/24 | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £'000 | Cynllun pensiwn yr heddlu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig | (178,496) | (1,053,173) | (1,231,669) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 208,653 | 0 | 208,653 |
| Addasiad gwarged IFRIC 14 | (30,157) | 0 | (30,157) |
| **Rhwymedigaeth net yn deillio o rwymedigaeth buddion diffiniedig** | **0** | **(1,053,173)** | **(1,053,173)** |

| 2022/23 | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £'000 | Cynllun pensiwn yr heddlu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig | (175,504) | (1,073,421) | (1,248,925) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 185,385 | 0 | 185,385 |
| Addasiad gwarged IFRIC 14 | (9,881) | 0 | (9,881) |
| **Rhwymedigaeth net yn deillio o rwymedigaeth buddion diffiniedig** | **0** | **(1,073,421)** | **(1,073,421)** |

Atebolrwydd pensiynau

Mae'r rhwymedigaeth pensiynau a ddatgelir ar fantolen y grŵp yn adlewyrchu'r ymrwymiadau sylfaenol bod yn rhaid i'r prif gwnstabl dalu buddion ymddeoliad.

Mae cydnabod cyfanswm y rhwymedigaeth yn cael effaith sylweddol ar y gwerth net fel y'i cofnodir yn y fantolen.Fodd bynnag, mae trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol y grŵp yn parhau'n iach gan fod pensiynau gwirioneddol a chyfandaliadau gohiriedig yn

cael eu talu'n uniongyrchol gan gyfrif cronfa bensiwn yr heddlu, a ariennir gan y Swyddfa Gartref drwy'r comisiynydd.Yn y flwyddyn 2024/25 bydd y prif gwnstabl yn gwneud cyfraniad pensiwn o 35.3% (2023/24:31.0%) ar gyfer swyddogion yr heddlu a 16.8% (2023/24:16.8%) ar gyfer staff yr heddlu.

Cysoni'r symudiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun pensiwn yr heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 |
| **Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun** | **185,847** | **185,385** | **0** | **0** |
| Incwm llog | 5,322 | 8,972 | 0 | 0 |
| Enillion / (colled) ailfesur – Yr elw ar asedau'r cynllun, heb gynnwys y swm sydd wedi'i gynnwys yn y gost llog net | (9,423) | 11,360 | 0 | 0 |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 5,293 | 5,706 | 33,393 | 35,659 |
| Cyfraniadau gan weithwyr i'r cynllun | 1,940 | 2,006 | 6,469 | 7,071 |
| Buddion a dalwyd | (3,475) | (4,653) | (39,862) | (42,730) |
| Arall (os yn berthnasol) | (119) | (123) | 0 | 0 |
| **Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun** | **185,385** | **208,653** | **0** | **0** |

Mae'r rhan fwyaf o'r costau cyflogaeth yn cael eu hysgwyddo gan y prif gwnstabl, felly mae asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â buddion ôl-gyflogaeth yn aros o fewn cyfrifon y prif gwnstabl a'r grŵp.

Cysoni gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (rhwymedigaeth buddion diffiniedig)

| | Rhwymedigaethau wedi'u hariannu: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Rhwymedigaethau heb eu hariannu: Cynllun pensiwn yr heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 |
| **Balans agoriadol ar 1 Ebrill** | **(265,357)** | **(175,504)** | **(1,621,351)** | **(1,073,421)** |
| Cost gwasanaeth presennol | (12,296) | (5,196) | (38,181) | (16,005) |
| Cost llog | (7,408) | (8,359) | (44,934) | (50,672) |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | (1,940) | (2,006) | (6,469) | (7,071) |
| Enillion / colledion ailfesur yn deillio o newidiadau mewn tybiaethau demograffig | 7,363 | 2,233 | 9,302 | 20,752 |
| Enillion / colledion ailfesur yn deillio o newidiadau mewn tybiaethau ariannol | 124,637 | 6,993 | 676,302 | 36,862 |
| Enillion/(colledion) ailfesur yn deillio o brofiad | (23,978) | (781) | (87,952) | (6,348) |
| Colledion/(enillion) ar gwtogi | 0 | (529) | 0 | 0 |
| Buddion a dalwyd | 3,475 | 4,653 | 39,862 | 42,730 |
| **Balans terfynol ar 31 Mawrth** | **(175,504)** | **(178,496)** | **(1,073,421)** | **(1,053,173)** |

Gwerth teg asedau'r cynllun (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol)

Roedd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dal asedau fel a ganlyn:

| Gwerth teg asedau cynllun (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 1,335 | 1,044 |
| Offerynnau ecwiti | 137,908 | 151,798 |
| Bondiau | 14,126 | 19,633 |
| Eiddo | 24,934 | 25,701 |
| Symiau eraill | 7,082 | 10,477 |
| **Cyfanswm asedau** | **185,385** | **208,653** |

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau a rhwymedigaethau

Aseswyd rhwymedigaethau ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol, sef amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol yn dibynnu ar dybiaethau gan gynnwys cyfraddau marwolaethau a lefelau cyflog.

Amcangyfrifwyd rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a chynllun pensiwn swyddogion yr heddlu gan Mercer Limited, cwmni annibynnol o actiwariaid.

Y tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd gan yr actiwari yw:

| Marwolaethau a thybiaethau eraill | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun pensiwn yr heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 |
| Hirhoedledd yn 65 (60 ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr presennol | | | | |
| Dynion | 21.9 | 21.5 | 25.9 | 25.4 |
| Merched | 24.1 | 23.8 | 28.2 | 27.9 |
| Hirhoedledd yn 65 (60 ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr y dyfodol | | | | |
| Dynion | 23.3 | 22.9 | 27.9 | 27.3 |
| Merched | 26.0 | 25.6 | 30.1 | 29.7 |
| Tybiaethau eraill | | | | |
| Cyfradd chwyddiant | 2.7% | 2.6% | 2.7% | 2.6% |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau | 4.2% | 4.1% | 4.2% | 4.1% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau | 2.8% | 2.7% | 2.8% | 2.7% |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau cynllun | 4.8% | 4.9% | 4.8% | 4.9% |

Mae'r tybiaethau ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Heddlu wedi'u paratoi ar sail cyfartaledd pwysedig y grŵp cyfun o gynlluniau a ddefnyddir. Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn sensitif i dybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod.

Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod wedi'u pennu ar sail newidiadau rhesymol posibl i'r tybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd yn rhagdybio ar gyfer pob newid bod y dybiaeth a ddadansoddwyd yn newid tra bod yr holl dybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r tybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn tybio bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n gostwng i ddynion a merched. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau yn rhai o'r tybiaethau fod yn rhyngberthynol. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiadau sensitifrwydd wedi dilyn y polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun, hy ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd. Nid oedd y dulliau a'r mathau o dybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod yn newid o'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

| | Effaith ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn y cynllun | |
|---|---|---|
| | Cynnydd | Gostyngiad |
| Cynllun Heddlu Llywodraeth Leol 2023/24 | £'000 | £'000 |
| Hirhoedledd (cynnydd o 1 flwyddyn) | 4,063 | 0 |
| Cyfradd chwyddiant (cynnydd o 0.1%) | 8,555 | 0 |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd o 0.1%) | 2,189 | 0 |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau cynllun (cynnydd o 0.1%) | 0 | 15,953 |

| | Effaith ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn y cynllun | |
|---|---|---|
| | Cynnydd | Gostyngiad |
| Cynllun Pensiwn yr Heddlu 2023/24 | £'000 | £'000 |
| Hirhoedledd (cynnydd o 1 flwyddyn) | 21,800 | 0 |
| Cyfradd chwyddiant (cynnydd o 0.1%) | 48,063 | 0 |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd o 0.1%) | 11,201 | 0 |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau cynllun (cynnydd o 0.1%) | 0 | 86,378 |

Effaith ar lif arian y grŵp

Amcanion y cynllun yw cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosibl. Mae'r grŵp wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r cynllun i gyflawni lefel ariannu o 100% dros y tair blynedd nesaf. Cwblhawyd y Prisiad Actiwaraidd diweddaraf ar 31 Mawrth 2023 a dangosir manylion cyfraddau cyflogwyr y presennol a'r dyfodol isod:

| Blwyddyn | Cyfradd cyflogwr |
|---|---|
| 2025/26 | 16.8% |
| 2024/25 | 16.8% |
| 2023/24 | 16.8% |

## Achosion cyfreithiol

Mewn perthynas ag achos pensiwn McCloud, mae hawlwyr wedi cyflwyno hawliadau am iawndal o dan ddwy set weithredol o ymgyfreitha: Aarons a Penningtons. Setlodd adran gyfreithiol y llywodraeth yr hawliadau niwed i deimladau i Aarons ar ran prif swyddogion heb ofyn am unrhyw gyfraniadau ariannol. Mae hawliadau colled ariannol wedi'u hatal hyd nes y daw'r rhwymedi i rym o 1 Hydref 2023. Mae setlo'r hawliadau niwed i deimladau ar gyfer Aarons yn gosod cynsail defnyddiol, felly nid oes unrhyw atebolrwydd mewn perthynas â hawliadau iawndal yn cael ei gydnabod yn y cyfrifon hyn. Ar 31 Mawrth 2024, nid yw'n bosibl amcangyfrif yn ddibynadwy i ba raddau na thebygolrwydd y bydd hawliadau Penningtons yn llwyddiannus, ac felly ni chydnabyddir unrhyw rwymedigaeth mewn perthynas â hawliadau iawndal yn y cyfrifon hyn.

<u>Rhwymedi McCloud</u>

Rhedodd ffenestr rhwymedi McCloud rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Bydd aelodau cymwys yn gallu dewis o ba gynllun y maent yn dymuno derbyn buddion am y cyfnod hwn. Oherwydd y strwythurau buddion gwahanol, mae'r actiwari'n disgwyl i fwyafrif o aelodau cymwys yr heddlu ddewis cymryd buddion y cynllun etifeddol (cynllun 1987 neu gynllun 2006) am y cyfnod unioni.Cafodd lwfans ar gyfer rhwymedi McCloud ei gynnwys gyntaf yn natganiadau pensiwn 2018/19 fel cost gwasanaeth blaenorol am bedair blynedd o wasanaeth unioni rhwng 2015 a 2019. Priodolwyd y gost gwasanaeth blaenorol hwn yn gymesur i gynlluniau 1987 a 2006. Ar gyfer y blynyddoedd dilynol hyd at 2021/22, gwnaed lwfans yng nghostau gwasanaeth 2015 ar gyfer croniad blynyddol gwasanaeth rhwymedi ychwanegol. Nawr bod y ffenestr rhwymedi wedi'i chau, mae'r actiwari wedi symud yr holl rwymedigaethau cysylltiedig â McCloud ar gyfer aelodau cymwys am y cyfnod 2019 i 2022 i'r cynlluniau etifeddol cysylltiedig. Mae hyn yn golygu bod holl rwymedigaethau McCloud yn cael eu dal o fewn y cynllun etifeddol y disgwylir i fuddion gael ei dalu ohono.

<u>Effaith ar atebolrwydd pensiwn</u>

Byddai caniatáu i bob aelod cymwys gronni buddion o'u cynllun etifeddol yn ystod y cyfnod unioni yn arwain at gynnydd yn rhwymedigaethau cynllun pensiwn yr heddlu. I gomisiynydd yr heddlu a throseddu, mae hyn yn effeithio ar y mwyafrif helaeth o'r rhai a ymunodd cyn 2012. Yn wreiddiol, amcangyfrifodd actiwariaid y cynllun fod y cynnydd mewn rhwymedigaethau cynllun yn 5.4% neu £85.5 miliwn o gyfanswm rhwymedigaethau cynllun pensiwn yr heddlu o £1.589 biliwn. Cydnabuwyd hyn yng nghyfrifon 2018/19 a 2019/20.

Mae'r ffigurau cyfrifyddu a baratowyd yn 2021, 2022, a 2023 eisoes yn cynnwys lwfans ar gyfer McCloud sy'n cyd-fynd yn sylweddol â'r meini prawf cymhwysedd ac sy'n rhagdybio bod aelodau gwarchodedig yn cronni buddion yn eu cynlluniau etifeddol ar hyn o bryd.

Ar gyfer ymarfer 2024, mae lwfans wedi parhau i gael ei gynnwys ar gyfer McCloud sy'n cael ei asesu mewn modd tebyg i'r hyn a fabwysiadwyd yn flaenorol.

Mesurwyd effaith cynnydd mewn rhwymedigaethau cynllun yn deillio o ddyfarniad McCloud/Sargeant ar gyfraddau cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr fel rhan o brisiad pensiwn yr heddlu, a adroddwyd yn 2023/24. Cynyddodd cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr i 35.3% yn 2024/25 (i fyny o 31.0% yn 2023/24).

Mae effaith cynnydd mewn taliadau pensiwn blynyddol sy'n deillio o McCloud/Sargeant yn cael ei phennu drwy Reoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff heddlu gynnal cronfa bensiwn y telir cyfraniadau swyddogion a chyflogwr iddi ac allan ohoni y gwneir taliadau pensiwn i swyddogion sydd wedi ymddeol. Os nad oes gan gronfa bensiwn yr

heddlu ddigon o arian i dalu cost pensiynau yn ystod y flwyddyn, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn talu’r swm sydd ei angen i setlo’r diffyg i’r comisiynydd ar ffurf grant atodol llywodraeth ganolog.

Dyfarniad Pensiynau Virgin Media

Ym mis Mehefin 2023, canfu’r Uchel Lys yn achos Virgin Media, fod newidiadau i fuddion aelodau mewn cynlluniau pensiwn buddion diffiniedig wedi’u contractio allan rhwng 1996 a 2016 yn gofyn am dystysgrif actiwaraidd yn unol ag adran 37 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993.  Mae newidiadau heb yr ardystiad hwn i'w hystyried yn ddi-rym. Mae’r gofyniad hwn yn berthnasol i hawliau gwasanaeth yn y gorffennol a hawliau gwasanaeth yn y dyfodol, ac i newidiadau er anfantais neu fudd i aelodau’r cynllun. Apeliwyd yn erbyn y dyfarniad ym mis Mehefin 2024 ond gwrthodwyd yr apêl.

Ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a’r Heddlu, nid yw Adran Actiwari’r Llywodraeth yn credu bod unrhyw gadarnhad actiwaraidd absennol.Felly, nid ydynt yn disgwyl i unrhyw newidiadau atebolrwydd godi yn dilyn y dyfarniad hwn. Bydd Adran Actiwari’r Llywodraeth yn cadarnhau a fydd cadarnhad actiwaraidd ar gael maes o law.

## 38. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Ymchwiliad plismona cudd

Diben yr ymchwiliad hwn yw ymchwilio ac adrodd ar weithrediadau cudd yr heddlu a gynhaliwyd gan heddluoedd Cymru a Lloegr yng Nghymru a Lloegr ers 1968. Mae’r ymchwiliad yn archwilio’r cyfraniad y mae plismona cudd wedi’i wneud i fynd i’r afael â throseddau, sut y cafodd ei oruchwylio a’i reoleiddio a sut y caiff ei oruchwylio a’i reoleiddio, a’i effaith ar yr unigolion dan sylw – yn swyddogion heddlu ac eraill a ddaeth i gysylltiad â nhw.

Mae rhwymedigaeth wedi'i sefydlu ac ynghyd ag 11 o heddluoedd eraill, cyflogir cyfreithwyr allanol i gynrychioli swyddog(ion) sy'n gwasanaethu. Mae cytundeb i Heddlu Dyfed-Powys dalu cyfran o 5% o’r costau paratoi generig yr eir iddynt gan y cwmni cyfreithiol ac mae’r holl gostau hyd yma wedi’u hadlewyrchu yn y cyfrifon refeniw.

Ar hyn o bryd, nid yw’r ymchwiliad wedi symud ymlaen yn ddigon pell i amcangyfrif costau’r dyfodol yn ddibynadwy felly ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn natganiadau cyfrifyddu 2023/24. Ar hyn o bryd mae’r ymchwiliad yn bwriadu cyhoeddi ei adroddiad terfynol yn 2026.

## 39. Natur a maint y risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol

Mae’r comisiynydd wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Diwygiedig CIPFA ar Reoli’r Trysorlys (fersiwn 2021) ac mae’n cydymffurfio â’r Cod Darbodus Diwygiedig ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (a ddiweddarwyd yn 2021).

Fel rhan o fabwysiadu cod rheoli’r trysorlys, mae’r comisiynydd yn cymeradwyo Strategaeth Rheoli’r Trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r strategaeth yn nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag offerynnau ariannol. Mae'r comisiynydd hefyd yn cynhyrchu Arferion Rheoli'r Trysorlys sy'n nodi'r trefniadau ymarferol penodol i'w dilyn i reoli'r risgiau hyn.

Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cynnwys strategaeth fuddsoddi flynyddol yn unol â Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'r canllawiau hyn yn pwysleisio bod blaenoriaeth i'w rhoi i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach na chynnyrch. Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y comisiynydd, ynghyd â'i Arferion Rheoli'r Trysorlys yn seiliedig ar geisio'r gyfradd enillion uchaf sy'n gyson â'r lefelau priodol o sicrwydd a hylifedd.

Y prif risgiau a gwmpesir yw:

- *Risg credyd:* Y posibilrwydd y bydd y parti i gontract ased ariannol yn methu â chyflawni ei rwymedigaethau cytundebol, gan achosi colled i'r comisiynydd.
- *Risg hylifedd:* Y posibilrwydd efallai na fydd gan y comisiynydd yr arian parod i wneud taliadau contract yn brydlon.
- *Risg y farchnad:* Y posibilrwydd y bydd colled ariannol nas cynlluniwyd yn digwydd oherwydd bod newidynnau marchnad megis cyfraddau llog neu brisiau ecwiti yn newid.

Risg credyd

**Buddsoddiadau**

Mae'r comisiynydd yn rheoli risg credyd drwy sicrhau bod buddsoddiadau'n cael eu gosod gyda banciau a chymdeithasau adeiladu â theilyngdod credyd digon uchel fel y nodir yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys endidau masnachol sydd ag isafswm statws credyd hirdymor uchel o A-, Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol eraill, a sefydliadau heb statws credyd y mae'r comisiynydd wedi cael cyngor buddsoddi annibynnol arnynt.

Ni ellir asesu'n gyffredinol amlygiad uchaf y comisiynydd i risg credyd mewn perthynas â buddsoddiadau 'amhenodol' o £30miliwn gan y bydd y risg y bydd unrhyw sefydliad yn methu â thalu llog neu ad-dalu'r prif swm yn benodol i bob sefydliad unigol. Mae profiad diweddar wedi dangos ei bod yn anghyffredin i endidau o'r fath fethu â chyflawni eu hymrwymiadau. Mae risg o ddyled anadferadwy yn berthnasol i holl adneuon y comisiynydd, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ar 31 Mawrth 2024 bod hyn yn debygol o grisialu.

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth enwol portffolio buddsoddi'r comisiynydd ar 31 Mawrth 2024, ac yn cadarnhau bod yr holl fuddsoddiadau wedi'u gwneud yn unol â meini prawf statws credyd cymeradwy'r comisiynydd:

| Parti i gontract | Cyfyngiad parti i gontract sengl £'000 | A fodlonwyd meini prawf statws credyd pan wnaed y buddsoddiad? | A fodlonwyd meini prawf statws credyd ar 31 Mawrth 2024? | Balans a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2024 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Hyd at 1 mis £'000 | > 1 mis a <3 mis £'000 | > 3 mis a <6 mis £'000 | > 6 mis a <12 mis £'000 | Dros 12 mis £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Banciau'r DU | 2,000 | Do | Do | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Bondiau | 2,000 | Amherthnasol | Amherthnasol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Marchnad arian | 3,000 | Do | Do | 9,039 | 0 | 0 | 0 | 0 | **9,039** |
| Awdurdodau lleol | 3,000 | Amherthnasol | Amherthnasol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Llywodraeth y DU | Diderfyn | Amherthnasol | Amherthnasol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm** | | | | **9,039** | **0** | **0** | **0** | **0** | **9,039** |

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos bod yr holl adneuon sy'n ddyledus ar 31 Mawrth 2024 yn bodloni meini prawf statws credyd y comisiynydd.

### Dyledion heb eu casglu

Yn gyffredinol, nid yw'r comisiynydd yn caniatáu credyd i ddyledwyr, gan gynnwys balansau sy'n ddyledus gan adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol eraill, sefydliadau busnes ac unigolion.Gellir dadansoddi'r ddyled hwyr (ond nid dyledion amhariad) yn ôl oedran fel a ganlyn:

| 31 Mawrth 2023 £'000 | | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---:|---|---:|
| 315 | Llai na mis yn hwyr | 34 |
| 118 | Mis i ddau fis yn hwyr | 127 |
| 1 | Dau i dri mis yn hwyr | 354 |
| 62 | Mwy na thri mis yn hwyr | 219 |
| **496** | **Cyfanswm dyled hwyr** | **734** |
| **25** | Gwerth dyledion amhariad amheus | **49** |
| **5.0%** | Amhariad ar ddyledion amheus fel % o gyfanswm y ddyled hwyr | **7.0%** |

Risg hylifedd

Gall y comisiynydd fenthyca ar gyfraddau ffafriol gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch gan fanciau a chymdeithasau adeiladu.Nid oes unrhyw risg ganfyddedig na fydd y comisiynydd yn gallu codi arian i gyflawni ei ymrwymiadau.Fodd bynnag, mae'n agored i'r risg y bydd angen iddo ailgyllido cyfran sylweddol o'i fenthyca pan fydd cyfraddau llog yn anffafriol o uchel.

Mae'r dadansoddiad o aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol fel a ganlyn:

| 31 Mawrth 2023 £'000 | Benthyciadau yn aeddfedu o fewn | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---:|---|---:|
| 303 | Llai na blwyddyn | 10,386 |
| **303** | **Cyfanswm y benthyca cyfredol** | **10,386** |
| 326 | 1 – 2 flynedd | 358 |
| 358 | 2 – 5 mlynedd | 0 |
| **684** | **Cyfanswm benthyca tymor hir dros 12 mis** | **358** |

Mae'r holl symiau masnach a symiau taladwy eraill yn ddyledus i'w talu mewn llai na blwyddyn.

Risg y farchnad

### Risg cyfraddau llog

Mae'r comisiynydd yn agored i risg o ran ei amlygiad i symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr awdurdod.Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog yn cael yr effeithiau canlynol:

- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y rhwymedigaethau benthyciadau yn gostwng.
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn gostwng.

**Risg pris**

Nid yw’r comisiynydd yn buddsoddi mewn cronfeydd cyfun na chyfranddaliadau ecwiti ac felly nid yw’n destun unrhyw risg pris (hy y risg y bydd y comisiynydd yn dioddef colled o ganlyniad i symudiadau anffafriol ym mhris offerynnau ariannol).

**Risg cyfnewid tramor**

Nid oes gan y comisiynydd unrhyw ased neu rwymedigaethau ariannol mewn arian tramor.Felly nid yw wedi’i amlygu i golled sy'n codi o ganlyniad i symudiadau anffafriol mewn cyfraddau cyfnewid.

## 40. Cronfeydd ymddiriedolaeth

Mae’r set ddiweddaraf o gyfrifon ar gyfer Dyfed-Powys Diogel yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2022/23, a chafodd y rhain eu cwblhau ym mis Ebrill 2024.

Mae’r sefydliad corfforedig elusennol wedi bod mewn cyfnod o anweithgarwch ac ni dderbyniodd unrhyw roddion nac unrhyw wariant yn ystod 2023/24.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi gwneud penderfyniad i ddiddymu'r elusen ac i glustnodi'r arian i'w ddefnyddio gan Gadetiaid Gwirfoddol Heddlu Dyfed-Powys. Mae cynlluniau ar y gweill i symud hyn ymlaen yn 2024/25.

## Geirfa Termau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| 2023/24 | Mae hyn yn cyfeirio at y cyfnod a gwmpesir gan y cyfrifon hyn – 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024. |
| 2022/23 | Mae hyn yn cyfeirio at y cyfnod a gwmpesir at ddibenion cymharol gan y cyfrifon hyn – 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023. |
| Polisïau cyfrifyddu | Set o reolau a chodau ymarfer yw'r rhain a ddefnyddir wrth baratoi'r cyfrifon. |
| Croniadau | Y driniaeth gyfrifo, lle mae incwm a gwariant yn cael eu cofnodi pan gaiff ei ennill neu pan yr eir iddo nid pan fydd yr arian yn cael ei dderbyn neu ei dalu. |
| Amorteiddiad | Dyma fesur treuliad, treuliant neu leihad arall ym mywyd defnyddiol asedau anniriaethol. |
| Gwariant cyfalaf | Gwariant ar gaffael neu adeiladu asedau, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased presennol, sydd â gwerth hirdymor i'r grŵp ee, tir ac adeiladau. |
| Derbynebion cyfalaf | Incwm o werthu asedau anghyfredol, na ellir ond ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i ad-dalu dyled sy'n weddill ar asedau a ariannwyd o fenthyciadau.<br><br>Derbyniadau cyfalaf y gellir eu defnyddio yw'r derbyniadau cyfalaf hynny nad ydynt wedi'u gosod o'r neilltu at ddibenion penodol ond sydd ar gael i'w defnyddio ar gyfer unrhyw bryniannau cyfalaf. |
| Gwerth cario | Gwerth cario ased neu rwymedigaeth yw gwerth yr ased neu rwymedigaeth a gofnodir yn y fantolen. |
| CIPFA | Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, un o'r cyrff cyfrifyddu proffesiynol yn y DU. Mae CIPFA yn arbenigo yn y gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n gyfrifol am osod safonau cyfrifyddu ar gyfer y gwasanaethau hyn. |
| Comisiynu | Y cylch cyfan o asesu anghenion pobl mewn ardal leol, dylunio gwasanaethau, ac yna eu sicrhau. |
| Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) | Mesur swyddogol o lefel gyffredinol chwyddiant fel y'i hadlewyrchir ym mhris manwerthu nwyddau a gwasanaethau – nid yw'n cynnwys taliadau llog morgais, y dreth gyngor a chostau tai eraill. |
| Rhwymedigaethau digwyddiadol | Mae'r rhain yn bodoli lle:<br>• bod rhwymedigaeth bosibl yn deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond gan un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y sefydliad; neu<br>• mae rhwymedigaeth bresennol yn deillio o ddigwyddiadau'r gorffennol ond nid yw'n cael ei chydnabod oherwydd:<br>• nid yw'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth, neu<br>• ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy. |
| Corfforaeth undyn | Corfforaeth undyn yw legal entity sy'n cynnwys un swydd gorfforedig ("undyn"), a feddiennir gan ddyn neu fenyw ("undyn") hy mae'r comisiynydd a'r prif gwnstabl ill dau yn gorfforaethau undyn o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Credydwyr | Unigolion neu sefydliadau y mae ar y CHTh/grŵp arian iddynt ar ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi'u rhannu'n fyrdymor (o fewn 12 mis) a hirdymor. |
| Asedau cyfredol | Mae asedau cyfredol yn eitemau y gellir eu trosi'n hawdd yn arian parod.<br><br>Yn ôl y confensiwn, mae'r eitemau'n cael eu harchebu trwy gyfeirio at ba mor hawdd yw trosi o'r fath yn arian parod. |
| Rhwymedigaethau cyfredol | Mae rhwymedigaethau cyfredol yn eitemau sy'n ddyledus ar unwaith neu yn y tymor byr. |
| Cost gwasanaeth cyfredol (pensiynau) | Amcangyfrif o wir gost economaidd cyflogi pobl mewn blwyddyn ariannol. Mae'n mesur y rhwymedigaeth lawn yr amcangyfrifir ei bod wedi'i chynhyrchu yn ystod y flwyddyn. |
| Dyledwyr | Unigolion neu sefydliadau y mae arnynt arian i'r CHTh/grŵp ar ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi'u rannu'n fyrdymor (o fewn 12 mis) ac yn hirdymor. |
| Cynllun buddion diffiniedig | Cynllun pensiwn neu fuddiant ymddeol arall heblaw cynllun cyfraniadau diffiniedig. Fel arfer, mae rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddion yn annibynnol ar y cyfraniadau sy'n daladwy, ac nid yw'r buddion yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun. Gall y cynlluniau fod wedi'u hariannu neu heb eu hariannu. |
| Dibrisiant | Dyma fesur treuliad, treuliant, neu leihad arall ym mywyd economaidd defnyddiol eiddo, peiriannau ac offer. |
| Gwerth teg | Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodiad hyd braich llai, lle bo'n berthnasol, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu'r ased. |
| Offeryn ariannol | Unrhyw gontract sy'n arwain at ased ariannol un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti endid arall.<br><br>Mae offeryn ariannol deilliadol yn gontract ariannol sy'n deillio ei werth o newidiadau mewn asedau neu fynegeion sylfaenol. |
| Asedau sefydlog | Mae'r rhain yn eitemau fel tir, adeiladau, cerbydau ac eitemau mawr o offer, sy'n rhoi budd i'r CHTh/grŵp dros fwy na blwyddyn. |
| IFRS | Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol. |
| IFRIC | Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol. |
| Cronfa gyffredinol | Dyma brif gronfa refeniw'r CHTh/grŵp ac mae'n cynnwys cost net yr holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau'r llywodraeth. |
| Cyfrifon grŵp | Datganiadau ariannol y grŵp, hy, y ddwy gorfforaeth undyn, wedi'u cyflwyno fel un endid economaidd. |
| Amhariad | Gostyngiad yng ngwerth ased anghyfredol, o dan ei swm cario yn y fantolen. |
| Asedau anniriaethol | Mae'r rhain yn asedau nad oes ganddynt sylwedd ffisegol ond y gellir eu hadnabod a'u rheoli gan y CHTh/grŵp. Mae enghreifftiau yn cynnwys meddalwedd, trwyddedau a phatentau. |
| Rhestrau eiddo | Swm y stociau nas defnyddir neu nas defnyddiwyd a ddelir gan ddisgwyl eu defnyddio yn y dyfodol ar ddyddiad y fantolen. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Prydlesau | Dyma lle telir rhent am ddefnyddio ased am gyfnod penodol o amser. Mae dau fath o brydles yn bodoli: prydlesau cyllid a phrydlesau gweithredu. |
| Materoliaeth | Eitem a fyddai'n cael ei hystyried yn berthnasol i'r datganiadau ariannol pe bai ei hepgor neu beidio â'i datgelu yn golygu na fyddai'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg mwyach. |
| Isafswm darpariaeth refeniw | Y swm darbodus y mae'n ofynnol yn statudol i'r CHTh/grŵp ei neilltuo o gronfeydd refeniw i ad-dalu benthyca a wnaed i gefnogi buddsoddiad cyfalaf. |
| Trethi annomestig cenedlaethol (NNDR) | Yr ardrethi annomestig, neu ardrethi busnes, a gesglir gan gynghorau lleol yw'r modd y mae busnesau, ac eraill, sy'n meddiannu eiddo annomestig, yn cyfrannu at gost gwasanaethau lleol. Mae'r cyfraddau'n cael eu cronni gan lywodraeth ganolog a'u hailddosbarthu i gynghorau lleol a'r comisiynydd yn unol â fformiwla. |
| Gwerth net ar y llyfrau (NBV) | Y swm a roddir i asedau anghyfredol wrth eu cynnwys yn y fantolen hy, eu cost hanesyddol neu werth cyfredol namyn y symiau cronnol a ddarparwyd ar gyfer dibrisiant. |
| Gwerth realeiddiadwy net (NRV) | Gwerth marchnad agored ased yn ei ddefnydd presennol (neu ei werth ar y farchnad agored yn achos asedau anweithredol) namyn y treuliau yr eir iddynt wrth wireddu'r ased. |
| Cost llog net<br>(Pensiynau) | Ar gyfer cynllun buddion diffiniedig, mae hyn yn digwydd yn ystod y cyfnod pan fydd y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (ased) yn codi o dreigl amser. |
| Asedau anghyfredol | Mae'r rhain yn eitemau fel tir, adeiladau, cerbydau ac eitemau mawr o offer, sy'n rhoi budd dros fwy na blwyddyn. |
| Prydlesau gweithredu | Mae prydles gweithredu yn golygu bod y lesddeiliad yn talu rhent am logi ased am gyfnod o amser sy'n sylweddol llai na'i oes economaidd ddefnyddiol. Mae'r lesydd yn cadw'r rhan fwyaf o risgiau a gwobrau perchnogaeth. |
| Cost gwasanaeth blaenorol | Ar gyfer cynllun buddion diffiniedig, mae'r rhain yn codi o benderfyniadau a wnaed yn y flwyddyn gyfredol ond y mae eu heffaith ariannol yn deillio o flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach. |
| CHTh | Y talfyriad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'r CHTh yn gorfforaeth undyn ar wahân a sefydlwyd ar 22 Tachwedd 2012 o dan Ddeddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Cyfeirir ato hefyd fel Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh). |
| Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol | Deddf Senedd y Deyrnas Unedig a drosglwyddodd reolaeth heddluoedd o awdurdodau'r heddlu i gomisiynwyr heddlu a throseddu etholedig. |
| Praesept | Y swm a godir ac a gesgir gan bedwar awdurdod lleol Dyfed-Powys (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys) ac a delir i'r CHTh/grŵp. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Darpariaethau | Mae darpariaeth yn rhwymedigaeth ansicr o ran amseriad neu swm.Cydnabyddir darpariaeth os bodlonir y meini prawf canlynol:<br>• mae gan endid rwymedigaeth bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;<br>• mae'n debygol y bydd angen llif o adnoddau allan sy'n ymgorffori buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth;<br>• gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. |
| Benthyca darbodus | Benthyca gan awdurdodau lleol heb gymorth ariannol gan y llywodraeth, ond yn unol â chod darbodus CIPFA ar gyfer benthyca awdurdodau lleol. |
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) | Dyma'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, sy'n sefydliad a ariennir gan y llywodraeth. Mae'n rhoi benthyg arian i gomisiynwyr ar delerau penodol fel y gallant brynu eitemau cyfalaf. |
| Cronfeydd wrth gefn | Balansau sy'n cynrychioli adnoddau a neilltuwyd at ddibenion megis cronfeydd wrth gefn cyffredinol a rheoli llif arian. Cronfeydd a glustnodwyd yw'r rhai a neilltuwyd at ddibenion polisi penodol. |
| Mynegai prisiau manwerthu | Mesur swyddogol o lefel gyffredinol chwyddiant fel yr adlewyrchir ym mhris manwerthu basged o nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys costau morgais, y dreth gyngor a chostau cartref eraill. |
| Ailbrisio asedau anghyfredol | Mae ailbrisiad o asedau anghyfredol yn dechneg sydd ei hangen i gofnodi gwir werth yr asedau cyfalaf a ddelir yn y fantolen yn gywir. Pwrpas ailbrisiad yw dod â gwerth marchnad teg asedau anghyfredol i'r cyfrifon. |
| Cyllideb refeniw | Amcangyfrif o ofynion incwm a gwariant blynyddol, sy'n nodi goblygiadau ariannol polisïau a sail y praesept blynyddol i'w godi ar gronfeydd casglu. |
| Grant cynnal refeniw | Grant cyffredinol gan y llywodraeth i gefnogi gwariant awdurdodau lleol (gan gynnwys comisiynwyr) a bennir bob blwyddyn mewn perthynas â lefelau gwariant. |
| Uwch-weithiwr | Gweithiwr y mae ei gyflog yn fwy na £150,000 y flwyddyn, neu weithiwr y mae ei gyflog o leiaf £60,000 y flwyddyn (a gyfrifir pro rata ar gyfer gweithiwr rhan-amser) ac sy'n bennaeth dynodedig gwasanaeth cyflogedig ac yn brif swyddog statudol. Yn nodweddiadol, prif weithredwr a phrif swyddogion statudol y comisiynydd. |
| Cod Ymarfer CIPFA | Mae Cod Ymarfer CIPFA (y cod) yn ymgorffori canllawiau yn unol ag IFRS, IPSAS a safonau egwyddorion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol y DU. Mae'n nodi'r arferion cyfrifyddu priodol i'w mabwysiadu ar gyfer y datganiad o gyfrifon i sicrhau eu bod yn cyflwyno sefyllfa ariannol y cyngor 'yn deg'. Mae gan y cod statws statudol drwy ddarpariaeth Deddf Llywodraeth Leol 2003. |